

# **PROBLEMAU WRTH ADENNILL IAITH**

**(cyflwynedig i Athrawon, Tiwtoriaid, a Pharatowyr Cyrsiau)**

R.M. Jones

2014


## CYNNWYS

Rhagair	3
1. Y Graidd Frawddeg	11
2. Gwers Dadansoddi Tablau	15
3. Olynu Gwers	18
4. Ymarfer â Blychau	21
5. Dolennu Gwersi Treiglo	24
6. Cwlwm i Wersi 'Yn'	28
7. Dolennu Holi ac Ateb (1)	31
8. Dolennu ar Ferfau Cynorthwyol	33
9. Cwlwm y Gyfundrefn Ferfol	36
10. Dolennu Holi ac Ateb (2)	39
11. Dolennu Is-gymalau	41
12. Dull Drilio	46
13. Dull Mim-mem	50
14. Gwersi Rhifo a Dweud yr Amser	52
15. Gwersi Negyddu	55
16. Gwersi Lluosog Enwau	58
17. Gwersi Cenedl Enwau	60
18. Gwers Ynganu	65
19. Gwers ar y Cywair Llenyddol	67
20. Gwersi Lecture Expliquée	72
21. Graddio Geirfa	76
22. Gweithgareddau	80
23. Dulliau (Nodyn ar Unigolyddiaeth Greadigol Athrawon)	87
24. Nodyn ar yr Iaith Lafar Safonol	91
25. Nodyn ar Lenyddiaeth Gymraeg	92
26. Nodyn ar Gynghanedd	100
27. Cwpla Cwrs ac Arholi	103

## RHAGAIR

Trafod yr ŷm Gynllun Adennill yr Iaith. A cheisiwyd amlinellu'r math o Ganolfan Ymchwil Genedlaethol sy'n angenrheidiol fel canolbwynt a chefnidir i'r fath Ymarfer ar y maes.

Y bwriad yn awr yw trafod Cynllun y cymhwysiad hwnnw ar waith. Ceisir amlinellu fframwaith y wedd adferol drwy nodi'n bennaf strwythur yr adennill uniongyrchol, ac yna grybwyll yr adennill drwy gynnal hawliau a chynllunio'r sector cyhoeddus a sefydliadol. Nid 'cyfrifoldebau' awdurdodol yw'r hyn a nodir, ond meysydd diddordeb perthnasol. Dyma'r strwythur cyffredinol:



Yn y gyfrol hon, y mae a wnelom yn fwyaf penodol â'r Sector Gwirfoddol i Oedolion, ond gan fod unrhyw baratodau proffesiynol i Oedolion yn berthnasol ac yn ddefnyddiol wrth ddysgu iaith yn y Sector Statudol, y mae'r hyn a gymeradwyir neu a drafodir yn berthnasol i'r naill gyfundrefn a'r llall. Felly y paratwir ar gyfer cwrs iaith, gan amlinellau'r gweithgareddau i'r amgylchfyd ymarferol sydd yn gysylltiedig â chwrs proffesiynol ac effeithiol ymarferol.

## Cwrs

Graddio Patrymau	Graddio Geirfa	Grid Dulliau, Dosbarthu Ymarferion	Grid Cwestiwn ac Ateb	Gweithgar- eddau a Chwisiau	Ymgys- ylltu â mudiadau	Cyhoeddi a Chyfathrebu; Cyflwyniad i lenyddiaeth
---------------------	-------------------	---	-----------------------------	-----------------------------------	-------------------------------	---

Canol adennill iaith a gollwyd lle y mewnfudodd lluoedd, a lle y gwanhaodd ewyllys y siaradwyr cynhenid, yw darparu offeryn canolog adfywio. Sef paratoi cyfrwng effeithiol ar ffurf cwrs dysgu. Ar ôl gorffen sgrifennu'r llyfryn canlynol ar y Problemau o baratoi Cyrsiau i adennill yr iaith Gymraeg, yr wyf am osod y casgliad neu'r nod ar y dechrau. **Rhan fawr o waith Canolfan Ymchwil i Adennill yr Iaith fyddai ystyried amlochredd paratoi'r cwrs gorau.** Credaf fod angen yr academiaeth orau i gynhyrchu cyrsiau ar gyfer y mwyaf anacademaidd. Wrth fyfyrion ynghylch y nod yna, fe geisid ystyried pa anawsterau a godai wrth baratoi cwrs sylfaenol dysgu Cymraeg o'r fath. Ac wrth wneud hynny, fe dybiwyd y gall cwrs felly fod yn sylfaen teg ar gyfer paratoi cyrsiau mwy uchelgeisiol o ran cymhlethdod.

Nid cyfres o Wersi yw'r gyfrol hon, eithr crynodeb a thrafodaeth o broblemau wrth 'adeiladu cwrs.' Gall trafod un broblem ar y tro fod yn dasg sy'n berthnasol i amllder o wersi wedyn. Nid gwaith i'r lleiaf cymwysedig yw paratoi cyrsiau da ac effeithiol ac ymarferol. Dibynna ar ddeallusrwydd *hyfforddedig* gan y rhai sy'n mynd i ddadansoddi anawsterau.

Dylai'r paratöwr fod wedi cael ei hyfforddi i'r eithaf ar gyfer y dasg. Sôn yr wyf yn bennaf nid am bob tiwtor ar flaen y gad fel petai, ledled y wlad, yn y proffesiwn hwn, ond am y sawl sy'n gwasanaethu'r tiwtor o'r tu ôl. Yr ymchwilydd. Dylai wybod am adeiladwaith dyfnaf yr iaith; dylai fod yn gyfarwydd â'r holl adnoddau technegol a'r holl ddulliau gwahanol diweddaraf o gyflwyno cyrsiau gwahanol. Ac yna, dylai feddu ar y gallu i gyflwyno'r rheini ar blât i rywrai eraill, sef y tiwtoriaid sy'n meddu ar ddoniau *cwbl wahanol* i'r paratöwr neu'r ymchwilydd.

Nid wyf yn hawlio unrhyw fath o uwchraddoldeb awdurdodol i'r Ymchwilydd hwnnw. Fel arall. Gwaith gwahanol yw, yn sicr, a'i nodwedd yw dilyn a gwasanaethu anghenion y tiwtoriaid ar y maes. Credaf, mewn gwirionedd, y bydd yna angen am Ganolfan Ymchwil i Gymru, a pharatoi'r ymchwilwyr yn gydwysbodol ymlaen llaw ar ei chyfer. Mae Cymru yn yr oes hon wedi dod wyneb

yn wyneb ag *argyfwng mewn medr* lle y mae angen pobl newydd i'w ateb mewn mannau allweddol. Nid ydym yn strategol barod eto. Ond bwriad y drafodaeth hon yw ceisio meddwl am y problemau yn llydan, ac am y moddion ymarferol i'w hateb, heb oedi mwy.

Ar hyn o bryd, nid yw'r adnoddau gorau Cymraeg ar gael. A mater o frys yw ystyried o'r newydd offer Adennill yr Iaith, yn lle rhoi'n holl egnïon i ateb 'hawliau'r iaith' a'r 'fframwaith cyhoeddus'. Ni ellir fforddio chwaith anwybyddu'r gwaith anodd o drefnu'r posibilrwydd i siaradwyr dwyieithog ymuno â'r dysgwyr yn gymdeithas naturiol drwy Gymru.

\*

\*

\*

Trafodaeth yw hon inni ein hannog ein hun i ateb y blaenoriaethau. Ni ellir neidio dros anghenion anochel a chymryd yn ganiataol eu bod eisoes wedi'u datrys yn weddol. Nid gwaith i'r ymarferwr ysgafn yw hynny, mae arnaf ofn, oherwydd mae'n gofyn inni fyfyrion ddwys am bethau nad ydynt at ei gilydd wedi'u gwneud eto. Mae'n gofyn am ostyngedd, a bod yn barod i wynebu panorama o bosibiliadau.

Cyfrol yw hon yn bennaf ar gyfer paratöwyr cyrsiau ac athrawon ail iaith profiadol iawn ac i weinyddwyr sy'n cynllunio o blaid yr iaith.

Ceisir nodi y fan hon, yn gryno yn awr, beth yw cynllun y gyfrol. Fe'i gwelir eisoes yn ymagor yn y bennod gyntaf. Ceisir yno gydio mewn rhediad ieithyddol arbennig. Yn y fan honno, ceir y 'Graidd Frawddeg'. Allan o adeiladwaith hon y mae'r iaith i gyd yn tyfu. I mi, o safbwynt crefft dysgu, dyma un '*Ddolen*' arweiniol, y pwnc am y tro i gydio ynddo a rhedeg gydag ef. Galwaf y symudiad nesaf – y rhedeg – yn '*Ddolennu*' neu '*Ddatblygu*'. Arweinia hynny at y '*Cwlwm*' bob tro, sef y casgliad, y crynodeb, neu brif orsaf dros dro: hynny yw, croesffyrdd ar holl amrywiaeth brawddegau Cymraeg.

Dyma rediad o gyswllt arferol rhwng nifer o bwyntiau sy'n clymu yn ei gilydd yn gam mewn cwrs.

Felly, yn y gyfrol hon, ar ôl y Graidd Frawddeg, fe'i datblygir ac fe'i hestynnir. Fe'i cyfnewidir ychydig, bob amser drwy ddolennu, yn ddi-dor, hynny yw, cysylltir yr hyn sy'n hysbys eisoes ag estyniad newydd perthynol. A chyda phwnc mor bwysig â'r Frawddeg, mae'r dolennau'n arwain ymlaen yn ddi-fwlch at y diwedd eithaf sy'n golygu'r Iaith i gyd mewn gwirionedd. Dyma'r Cwlwm Mawr.

Ni chyflwynir yma Gwrs fel y cyfryw. Sôn yr wyf am broblem dechnegol, y strwythur o weithio. **Yr hyn a gynigir yw trafodaeth, fesul un, o'r prif broblemau technegol a all godi ym**

**meddwl y sawl sy'n llunio cwrs. Trafodir egwyddorion a gyfyd wrth wynebu'r gwaith hwnnw. Dymunir dangos yr amlochredd, ac yn y pen draw pa adnoddau sydd eu heisiau, er mwyn dod i benderfyniad ymarferol. Ceisir llunio'r dadansoddiad gofalus. Nid adferir yr iaith hebddo.**

Wrth gwrs, o fewn y patrwm 'Dolen', 'Dolennu', a'r 'Cwlwm' mawr, ceir cyfres o is-ddolennau. Dônt i mewn a chyd-redeg yn eu tro. Mae pob is-ddolen yn estyn y Graidd-Frawddeg ychydig bach, naill ai mewn geirfa neu mewn cystrawen. Gellid cymryd y 'Ddolen' 'yn', er enghraifft, fel cwlwm y byddir yn ei wynebu rywdro. Mae'n dod i mewn yn gyntaf fel tamaid o eirfa yn ystod y gwersi cynnar. Ond cyn gynted ag y crybwyllir ef, y mae hi ei hun yn ddolen, a bydd yn cyflwyno ar ei ôl gychwyn *sawl* 'yn' fel dolennau, a chanddynt wahanol swyddogaethau, y bydd yn rhaid eu trafod yn eu tro, a chawn gan bwyll fod gweddau ar 'yn' mor wahanol fel y bydd eisiau tynnu sylw at yr holl gyfundrefn yn gymharol, yn y pen draw, a hynny heb fod yn rhy dechnegol. Ni chawn fod yn rhy academiaidd. Heb yn wybod i'r dysgwr, bydd ef/hi yn dechrau gyda'r broblem, heb sylwi, efallai, yn rhan o batrwm mawr 'Treiglo'. Maes o law, bydd Treiglo yn arwain at drafod, nid yn unig, y treigladau oll neu'r diffyg treiglo ar ôl 'yn', dyweder. Bydd hefyd yn gosod gerbron y dysgwyr lleiaf academiaidd gyfundrefn enfawr y Treigladau benbwygilydd yn ymarferol, – Meddal, Trwynol, a Llaes. A bydd pob un o'r rheina'n arwain ymlaen yn dyner ac yn bwyllog at Gwlwm unigol. Ond gyda'i gilydd, y maent bob un yn unigol yn cyd-redeg at gyferbynnu Cwlwm Mawr Treiglo'n gyffredinol. O'r lleiaf i'r mwyaf ymhlith y croesffyrdd.

Dilynir yn un patrwm sylfaenol hwn, y meicrocosmau o fewn y Macrocosm. Ein tasg yw peidio â'u cymysgu hwy, peidio â digalonni neu ddychrynu'r dysgwr gyda'r cymhlethdod. Ond, drwy archwilio, yn araf deg adeiladu'r tŷ *o fricsen i fricsen* a wneir. Felly, ni chyflwynir y canlynol yn awr yn ôl trefn ddysgu, o raid. Nid cwrs yw. Trafodaeth yw ar drefn y meddwl ynghylch problemau. Sylwi yr ydys ar broblem gyfyngedig unigol ar y tro. Dilyn hynt y myfyrdod a wneir gan dynnu at ei gilydd problemau eraill yn araf a all fod yn wasgaredig ond yn ailymddangos mewn gwedd wahanol o bryd i'w gilydd gydol y cwrs. A gellid darlunio'r prif batrwm drwyddi wrth ddisgrifio'r drefn o gyflwyno'r iaith fel hyn:

o	oooooo	<b>O</b>
Dolen	Dolennau	Cwlwm
Bricsen	Adeiladu	Tŷ

Ystyr mynd o Ddolen ieithyddol i Gwlwm bob tro yw dechrau ar sylfaen o ysgogiad cynnar a mynd ymlaen o orsaf i orsaf i derfyn. Man cyfarfod o'r pwys mwyaf yw'r Cwlwm lle y cyferfydd

llawer o ddolennau â'i gilydd. Yn gyntaf, cyflwynir un *ddolen* fechan. Dyna elfen eirfaol efallai, a phob tamaid lleiaf o ramadeg yn ei dro. Pan ddechreu'r rheini droi'n thematig neu amlhau mewn dosbarth tebyg, tyfant yn rhuban o *ddolennau*. Prif thema ramadegol, neu bwnc mawr – casgliad o berthnasoedd bychain – yw Cwlwm yr arweinir ato mewn cyfres o gamre.

Ond ymhellach ymlaen, cawn feddwl am gyfarfyddiad arwyddocaol rhwng sawl CWLWM. Mae TREIGLAD MEDDAL a THREIGLAD LLAES, er enghraifft, bob un yn GLYMAU MAWR. Cawn wedyn 'gyfuniad' rhwng dau GWLWM MAWR. A chan na ddigwydd y cwlwm dysgu mawr yn fynych, fe'i dynodant â'r term CYRHAEDDIAD. Mae CWLWM MAWR neu GYRHAEDDIAD bob un yn ddigwyddiad mor allweddol nes bod rhes o wersi ymarferol a chymharol weithiau yn gorfod oedi am dro i danlinellu ystyr beth sy'n digwydd, ac ymarfer yn drwyadl mewn modd cyferbyniol. Dônt at ei gilydd megis ar groesffordd brysur. Mae yna gynllun y tu ôl i'r cwbl.

Trafodir yr iaith fesul problem, a'r problemau o bosib yn dod o bob cyfeiriad.

Er gwaetha'r sierwydd a'r cryfder sydd yn y fframwaith syml hwn, a'i amlochredd wrth astudio ail-iaith, efallai mai'r paradocs yw mai'r Cwlwm bob tro, sef y diwedd, yw'r peth cyntaf a ddylai fod yn eglur i baratöwr gwersi. Dyna'r nod neu'r lle y mae'n bwriadu'i geisio yn y pen draw, ble mae'n mynd. Dyna sy'n cyflyru'r camre ar y ffordd. Ei waith ef yw paratoi'r dolennau tuag at hynny gan bwyll.

Mae hyn yn wir am holl adeiladwaith iaith. Gellid crybwyll yn y fan hon un patrwm digon pwerus, os eithriadol syml, sef Cwlwm y Gair:

Llafariad	Acen	Cytsain
	ac Ystyr	

a pherthynas y Gair a'r Frawddeg: mae pob tamaid o iaith yn Amryw mewn Undod pellach.

Gair	Cystrawen	Brawddeg
<i>Bricsen</i>	<i>Adeiladu</i>	<i>Tŷ</i>

Mae gan y paratöwr cyrsiau fframwaith yn ei feddwl, sy'n caniatáu iddo arwain Dysgwyr o fricsen i fricsen fel hyn.

\* \* \*

Nid rhediad na chasgliad o Wersi yw'r gyfrol hon, dywedwn eto. Ceisio ystyried y mae broblemau paratoi cwrs ail iaith.

Bwriedir i'r gyfrol hon yn y pen draw fod yn gwbl ymarferol fel llyfr cefndir i bob athro ail iaith yng Nghymru, ond efallai drwy'r arweiniad gan ryw Baratöwr Cyrsiau sydd wedi dadansoddi'r drefn eisoes. Yn bennaf fe'i darperir fel cyfeirlyfr a chyfarwyddyd a phwnc trafodaeth i'r sawl sy'n paratoi'r cyrsiau, ac ar gyfer cynghorwyr iaith. Ond i'r gwleidyddion a'r arweinwyr hefyd, ym maes cyhoeddus adennill yr iaith, dichon y bydd yn fodd i ddangos beth sy'n bwysig, ble y dylid gwario

arian hyd yn oed (e.e. mae 'GWERS LECTURE EXPLIQUÉE', a'i methodoleg a ddisgrifir yn y gyfrol hon, yn egluro pam y mae angen cyfres o lyfrau ail iaith ar gyfer y fath gangen o'r pwnc mewn unrhyw gwrs aeddfed. Dengys hefyd pam y mae 'gweithgareddau' hefyd yn rhan gynhenid o gwrs da (er bod eisiau modd i'w hyrwyddo), a pham y dylid sefydlu cyfres o lyfrau ail iaith i gyflwyno gwybodaeth ddiwylliannol am bynciau eraill heblaw iaith i ddosbarthiadau, a llyfrau cwisiau graddedig), a pham y mae'n rhaid ar hyn o bryd ysywaeth ystyried yr ymgyrch ieithyddol yn amaturaidd hyd yn hyn yng Nghymru, ond yn llawn addewid os darperir adnoddau allweddol ac y canolir ar adennill effeithiol ar gyfer y problemau amryfal. Yn wir, yn ddelfrydol, ni ddylid mesur llwyddiant cwrs yn werthusol nes bod y pethau sylfaenol hyn yn eu lle. Byddai mesur felly, heb adnoddau cwbl foddhaol, yn annheg ac yn amaturaidd. Mae'n amlwg eto y bydd angen cyfres o lyfrau darllen syml o lawer math sy'n cyflwyno crwydradau drwy Gymru, a chyfres o lyfrau cyfan sy'n ymwneud â phynciau eraill megis bioleg neu hanes neu iechyd, a hynny'n syml, o ran iaith ar gyfer oedolyn effro, ac mewn parch at y dysgwr. Y cwestiwn dechreuol yw: Ble mae'n mynd? A sut?

Ym maes Geirfa, bydd nodi 'sefyllfaoedd siarad' gan 'Baratöwr Cwrs' yn tanlinellu nid yn unig y grwpiau geirfaol cyntaf, ond hefyd y canolbwyntiau lle bydd angen eu datblygu'n fanylach yn ôl fel y bydd y cystrawennau hwythau'n ymledu. Pwnc mawr yw dosbarthu ac adeiladu Geirfa yn ôl yr angen a phriodi patrwm a geirfa mewn brawddegau enghreifftiol ac mewn ymarferion amryfal. Nid gwrs unigol yw, ond problem hir-dymor.

Byddaf yn meddwl fod angen i baratöwr cwrs *ystyried* llawer o broblemau sy'n wynebu'r athro hyd yn oed cyn rhoi'r Wers Gyntaf yn y Gymraeg fel ail iaith. Ble y bydd yn dechrau yn y pwynt cychwynnol? Un cwestiwn amlwg y pryd hynny yw'r broblem o sefydlu cywair yr iaith safonol lafar. Deil o hyd ysywaeth yr angen yng Nghymru i sefydlu Model o Ail Iaith Lafar Safonol. Ond trafodir y pwnc angenrheidiol hwnnw'n llawnach mewn man arall, sef yn y llyfryn ar *A fydd y Cymry Cymraeg mewn Pryd* tt. 77-89, ac yn y llyfryn *Canolfan Ymchwil Adennill Iaith*. Cymhars yw'r gyfrol hon ar ei hyd i'r ddwy gyfrol hynny. Ond ceisir cyffwrdd â'r Iaith Lafar Safonol a'r Iaith Lenyddol Safonol yn y gyfrol hon eto.

Felly, bydd rhaid ystyried ble yng nghanol cynhwysion helaeth yr iaith yr ydym yn dechrau? Mae hynny'n golygu dethol pwynt amseryddol yn llym. Wrth gymryd un cam, mae'n angenrheidiol i ystyried ble y bwriedir mynd wedyn gyda'r ail. A'r trydydd. A beth fydd y dull o gyflwyno pob Gwers i'r dosbarth? Faint o le sydd i lais yr athro, a faint i leisiau'r Dysgwyr yn y dosbarth? Dibynna hefyd wrth gwrs ar oedran y Dysgwyr.

Heblaw sylwi ar broblemau'r Dysgwyr eu hun, fe welwn felly fod yna broblemau gan yr Athro, a chennyf innau wrth drafod hyn gyda'r Athro. Ble'r wyf i'n mynd i ddechrau yn y gyfrol



hon? A pham hynny? Ai gyda dadansoddi Geirfa? Pa gywair yn yr iaith a ddefnyddiaf i? Pa ddulliau a ddewisaf? Pa mor gyflym a hir y mae'r gwersi unigol yn arwain ymlaen? Mae'r bwrdd paratodau o'n blaen yn dechrau suddo oherwydd y llwyth o broblemau, rhai y bydd pobl yn dal i'w trafod, yn well na hyn, am ganrifoedd lawer i ddod.

Cefndir yn unig yw i athrawon, tiwtoriaid, cynghorwyr, a gweinyddwyr ar hyn o bryd.

Beth bynnag, bwriaf i bwll y pwnc: y problemau eu hunain. Ceisiaf feddwl gyda'r athro am fathau gwahanol o wersi sy'n ofynnol. Ceisiaf wynebu'r hyn a alwaf yn 'Broblemau'. Ceisiaf fanylu ar agweddau amrywiol yng ngwaith y cwrs. Ond nid sgrifennu gwersi, eithr sgrifennu am egwyddor y gwersi, y cynllun, y cydlynid y byddaf i. Myfyrdod yw hyn bob cam am galon ymarferol y broblem.

Bydd bwriad y gyfrol hon yn canoli hefyd ar gyfuniad o dair gwedd seml:

### **Yr Athro – y Deunydd – y Dysgwr**

Neb na dim arall, yn y bôn. Dyna'r triawd Anrhydeddus. Mae'n rhaid i Baratöwr Cwrs ac i Ymchwilwyr sylwi ar bob un o'r tri, a sicrhau eu bod ill tri yn symud gyda'i gilydd. Ystyr dolennu yw bod y paratöwr cwrs wedi ceisio sicrhau fel arfer fod yna gyswllt rhwng gwers a gwers. Dyna yw graddio patrymau: trefnu bod dolen gydiol yn gosod y wers ddiwethaf yn rhannol yn y wers cynt a'r wers nesaf. Fe ofyn y paratöwr iddo'i hun, 'Sut y gallaf sicrhau bod y dysgwr yn profi olyniaeth gynyddol gysylltiedig yr athro o gam i gam?' Mawrygwn a gwasanaethwn y tri gyda'i gilydd yn gydradd glwm. Ond bydd y tri yn ymdroi gyda deuoliaeth o gyson – yr harmoni rhwng Geirfa a Phatrymau brawddegol.

Pan fyddaf yn defnyddio'r ymadrodd '**Ymchwil Ymarferol**' fel y gwaith priodol i Ganolfan Ymchwil i Adennill, dyna'r cyfeiriad penodol yr wyf yn sôn amdano. Ceir yn y Wefan hon, yn gyfredol â'r llyfryn hwn adroddiad o Gynnig i'r Senedd yn gofyn am Ganolfan Ymchwil i Adennill yr Iaith. Y mae'r llyfryn presennol yn cydio mewn un o swyddogaethau'r cyfryw Ganolfan, ac yn ceisio ystyried un o'i thasgau technegol anochel. Bob tro, wrth geisio deddfu neu wrth geisio llunio polisi, gellir cael ein temptio i neidio dros rai camre elfennol. A gall y rheina fod yn gwbl hanfodol. **Ni ellir gorfodi'n ymarferol Ysgolion Saesneg Cymru i ddysgu ail iaith yn effeithiol heb athrawon cymwys a heb gyrsiau sy'n mynd i 'weithio'. Ni ellir gorfodi'r Gymraeg i fod yn iaith gyhoeddus sy'n mynd ymhellach na hawliau arwynebol i leiafrif bach, heb baratoi a hyrwyddo'r awydd i'r genedl oll feddu ar yr iaith honno a'i mawrygu.** Gwaith hir dymor yw. A thrwy anwybyddu rhai camre, gellir gwastraffu llawer iawn o amser, a methu'n llwyr.

Ar ryw olwg, y mae'r gyfrol hon yn awr yn ddisgrifiad o un wedd ar y gweithgarwch a

ddisgrifir yn y llyfryn hwnnw. Rhan bwysig o waith y Ganolfan honno fyddai: 1. Graddio Patrymau Brawddegol yn olyniaeth ddatblygol fanwl yn ôl egwyddorion cystrawennol clir; 2. Graddio Geirfa; 3. Paratoi Ymarferion arbrofol, Llyfrau Darllen a Dogfennol i wasanaethu'r Cyrsiau Cymraeg sydd eisoes ar gael; 4. Cyflawni gwaith ymchwil gwreiddiol a solet, ac ymchwilio ynghylch Ieithyddiaeth Gymwysedig a Didacteg Iaith gwledydd eraill; 5. Sefydlu, drwy ymgynghoriad ac egwyddorion, Fodel mwy cytûn o Gymraeg Llafar Safonol; 6. Cydweithredu ag unigolion megis y gweithwyr yn y Canolfannau Iaith i olygu ac i gynorthwyo yn ôl y gofyn ar sail Ymchwil y Ganolfan; 7. Trefnu cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol, a Fforwm blynyddol.

Fel y gwelir, y mae'r gyfrol yn manylu ac yn enghreifftio rhai o'r gofynion hyn, a'u cyflwyno'n ymarferol. Dyna o leiaf y bwriad. Mae'r ddau lyfr, yn y rhan hon o'r Wefan, yn gyfuniad sy'n anelu at broffesiynoli Adennill Iaith mewn fframwaith cyflawn.

## 1. Y GRAIDD FRAWDDEG

Gydag oedolion sy'n lawnsio i mewn i'r profiad o ddysgu iaith newydd, mae'n werthfawr o'r wers gyntaf roi delwedd o drefn ac argraff o olyniaeth a fydd yn y gwersi. Hynny yw, caiff y dysgwr hyder wrth ymdeimlo â threfn sicrwydd gan yr athro a'i gwrs. Dechreuir mewn craidd. Ac ychwanegir, newidir, ystwythir o gwmpas y craidd.

Cyd-ddechreuir gyda llawer o bynciau. Bydd y wers gyntaf, a phob gwrs arall, yn wers ar 'ynganu'. Ond nid oes ar hyn o bryd angen am wers benodol ar ynganu. Bydd yr athro'n tynnu sylw at gywirdeb sain wrth fynd yn ei flaen am y tro. Eto, ar y dechrau, bydd yn briodol ceisio ymsefydlu'n benderfynol mewn brawddegau cyfan. Cynigiau mai'r graidd frawddeg gyflawn mewn colofnau yw:

Mae + Guto + yma

Lleiafrif o ieithoedd sydd yn cymryd y drefn allanol hon (Berf + Goddrych + Gwrthrych neu Adferf).

Gweithiwn ar dair elfen. Mewn iaith Indo-Ewropeaidd, yr Enw [Guto] yw'r elfen *Hunan-ddibynnol* sy'n arwain yn *feddyliol* mewn brawddeg. Am hwnnw y siaredir. Ond yn y frawddeg hon, y ferf [mae] sy'n arwain yn '*llythrennol*' o ran trefn allanol. Yn Gymraeg, y Ferf, sef yr elfen ddeinamig mewn amser, sy'n dwyn *Dibyniaeth allanol o'r Radd Gyntaf*. Hunan ddibynnol yw'r Enw wrth ei hochr. Y Ferf sy'n dibynnu'n feddyliol ar yr Enw. Yr Enw yw calon feddyliol y frawddeg. Eto o ran *safle* olynol allanol, yn y frawddeg normal sylfaenol Gymraeg, y Ferf (gair sy'n cynnwys amser) sy'n rhagflaenu yn allanol. Yr Adferf yw'r drydedd elfen.

Dyma ysgerbwd hynod bwysig y frawddeg ganolog gyflawn o ran potensial ac o ran effaith. Gramadeg a Geirfa gyda'i gilydd yn syth. **Allan o'r frawddeg dair elfen hon, drwy drawsffurfio, disodli neu ychwanegu strwythur adeileddol, y tyf pob brawddeg arall.** Strwythur yw'r hyn a ddysgir. Felly, gorau po gyntaf y sylfaenir ac y cadarnheir cystrawen o'r fath ac y tyf popeth arall ohoni. Ac wrth gwrs, cyn gynted ag y dechreuwn ddysgu strwythur brawddegau, fe ddechreuwn hefyd ddysgu Geirfa.

\* \* \*

Dyma enghreifftiau o'r hyn yr anelir ato yn fuan, er mwyn datblygu'r gnewyllyn-frawddeg: dyweder ar y Bwrdd Du. Awn o osodiad i gwestiwn. Hyn, fel y gwelwn yn fuan, yw sylfaen y Fethodoleg Gynnar Orau, sef *Holi ac Ateb*, drwy symud o'r gosodiad i'r cwestiwn, ac ymarfer.

<i>Mae</i>	<i>Guto</i>	<i>yma.</i>
<i>Mae</i>	<i>(ci, llyfr, athro a.y.b)</i>	<i>yma.</i>
<i>Ydy</i>	<i>Guto</i>	<i>yn Aberystwyth? Ydy.</i>
<i>Ydy</i>	<i>(Ifan, Dewi, Wyn a.y.b)</i>	<i>yn Llanelli?</i>

*Mae bachgen yn y tŷ.*

*Mae (merch, cath, bwyd a.y.b) yn y tŷ.*

Erys y sgerbwd hwn o hyd yn fan cychwyn sylfaenol yng nghefn y meddwl i'r **holl** iaith. Fe'i ceir yn fan cychwyn newydd drachefn ymhellach ymlaen yn ein dadansoddiad datblygol. Mae yna broblemau yn y gyfres o frawddegau y bydd yn rhaid eu datrys cyn symud ymlaen yn bell: y cwestiwn er enghraifft a'r ateb.

*Oedd y bachgen yn y tŷ? Nac oedd. (ynganer yr athro nac oedd.)*

*Oedd y bachgen bach yn yr ystafell? Nac oedd. (nag)*

*Oedd (tân, dyn, llyfr a.y.b.) yn yr ysgol? Oedd.*

Sylwer ar 'Yes' yn 'ailadroddiad' y ferf.

Symudir yn gymharol fuan o'r gosodiad i'r cwestiwn dethol, ac o'r cwestiwn dethol i'r gosodiad. Symudir ymlaen mewn gwrs arall o ran amser i'r gosodiad newydd ac i'r cwestiwn nesaf. Gwneir hyn er mwyn sefydlu'n gynnar yr elfennau deuol i ymddiddan, sef holi ac ateb. Sôn yr ŷm ni yma wrth gwrs am nifer o wersi. Cyn gynted ag yr enillir *fframwaith* holi ac ateb, bydd sgwrs yn fwy posibl; a hyn yw'r agoriad felly i'r dull llafar gweithredol drwy amrywio neu ddisodli'r tair elfen yn eu tro. **Holi ac Ateb fydd strwythur allweddol prif ddull y dysgu.**

Sylwer yr athro, yn y patrwm disodli amlochrog hwn, fod cystrawen driol y *craidd ymadrodd* hefyd yn datblygu'n gynnar yn ymadroddion o fewn y colofnau: y bachgen, y bachgen bach. Dyna dair elfen sylfaenol arall yr *ymadrodd enwol* [y+bachgen +bach]: safant o fewn fframwaith y *graidd frawddeg*.

\* \* \*

### *Sylwadau*

Nid trefn datblygu'r dysgu yw hyn eto. Trefn deffroi sylw'r athro yw i fframwaith y datblygu meddyliol. Dechreuwn felly yn y frawddeg seml. Ond anelir at dwf. Cawn weld yr ymestyn drwy drawsnewid yn y colofnau gwahanol neu drwy ychwanegu ymadroddol neu gymalog at y prif gymal. Cawn weld yr ymestyn hefyd drwy amrywio geirfaol. Hyn yw adeiladu iaith oll yn y bôn. Bydd angen gwybod y patrymau syml i gynnal geirfa, a bydd eisiau carfanu geirfa yn ôl sefyllfaoedd siarad. Ac mae defnyddio 'fframwaith' yn allwedd i'r sylweddoliad.

[Bydd awydd gan rywrai i ddiddanu'r gwersi hyn o'r dechrau cyntaf drwy chwaraeon, caneuon, a pherfformio o bob math, yn arbennig gyda phlant. Bydd awydd i ddefnyddio lluniau, ac

yn y blaen. Croeso i bopeth felly. Ond ceisir bob amser yn hanfodol yn y nodiadau dechreuol hyn danlinellu'r galon i'r dysgu, sef adeiladu'r strwythur [neu'r sgerbwd] y gellir ei lenwi, fel y cawn ei weld mewn gwahanol ffyrdd, a dosbarthu geirfa fel y llenwir y patrymau o sefyllfa i sefyllfa. Cedwir, gan luniwr y cwrs, batrwm hanfodol y frawddeg yng nghefn y meddwl, ac yn rhan o'r ymarfer. Beth bynnag yw ymddygiad y wers, y mae'r sylwedd yn ymguddio o'r tu mewn.]

## MEYSYDD GEIRFA

Dosberthir Geirfa yn ôl sefyllfaoedd.

Felly crwydrwn am foment, i'r dosbarthiad ei hun. Cyn cyflwyno i'r athro y rhestr gryno o sefyllfaoedd (y bydd yn ymwneud â hwy o gam i gam drwy gydol y flwyddyn), sylwer fel y bydd yna yn syth *dair sefyllfa eirfaol ynysig* neu wahanol i'r lleill o ran ansawdd. Hynny yw, dyma dri eithriad cynnar yn y sefyllfaoedd *nad ydynt* yn ymglymu wrth y rhediad sefyllfaol a fydd ar gael yn fuan wedyn i ddatblygu'r cwrs. Hwylustod cymdeithasol i'r dosbarth yw nodi'r tri bach yma yn ynysig am fod a wnelont â pherthynas gynnar yr Athro a'r Dysgwr yn syml i ddechrau: ond fe'i helaethir ymhellach ymlaen. Dyma *dair sefyllfa adnabyddus* (eithriadol) mewn llefaru sydd a wnelont ag ymddygiad yn hytrach nag â chynnwys gwersi dosbarth:

1. *Cyfarch ac ateb Cyfarchiad.*
2. *Ffarwelio.*
3. *Diolch.*

Dyna SEFYLLFAOEDD nid i'w datblygu, ond i'w corffori yn *Ymddygiad Dosbarth*.

Dyweder yn awr ein bod yn mynd ati i baratoi darn darllen cynnar yn gyfeiliant i'r graidd-frawddeg. Gwnawn hynny ar sylfaen *Sefyllfa*. A bydd paratöwr y cwrs, o'r dechrau, yn meddu ar **restr hylaw gefndirol o sefyllfaoedd** wrth law, ar gof neu ar bapur megis:

4. *Byw yn y tŷ.*
5. *Disgrifio gweithredoedd syml yn y tŷ.*
6. *Holi a rhoi manylion personol.*
7. *Trafod iechyd.*
8. *Sôn am y Tywydd.*
9. *Disgrifio Lle / Person / Gwrthrych.*
10. *Mynegi Dymuniad.*

Ac yna ymagorir yn fwy personol byth y tu hwnt i'r cnewyllyn dechreuol hwnnw:

11. *Mynegi Hoffter*
12. *Disgrifio a Holi am Ddigwyddiad*
13. *Mynegi bwriad*
14. *Gofyn am Bethau*
15. *Amser ar y Cloc*
16. *Gofyn i rywun wneud rhywbeth*
17. *Gofyn am Ganiatâd a'i roi*
18. *Dymuno'n dda i rywun*
19. *Sôn am arian*
20. *Llongyfarch a Chydymdeimlo*
21. *Rhoi a Derbyn Cyfeiriadau neu Gyfarwyddyd*
22. *Estyn, Derbyn a Gwrthod Gwahoddiad*
23. *Trafod cyfnodau Amser (Dyddiau, Wythnosau, Misoedd, Gwyliau).*

Nid o anghenraid yn y drefn amseryddol honno. Ac ni raid cyflwyno'r rhestr lawn hon i'r Dysgwyr. Rhestr yw hon ar gyfer blwyddyn a blynyddoedd. Ond rhagolwg defnyddiol yw i

athro. Unwaith eto, nid ydym yn meddwl am olyniaeth amseryddol o raid. Sylwi yr ydym er mwyn i athro ymwybod â lled fframwaith y cyfan fel y bydd yn fuan: dyma'r math o broblem sy'n gorwedd y tu ôl i'r holl gwrs.

\*

\*

\*

### *Darn Darllen*

Bellach, ar ôl gweld i ble yr ydym yn mynd, gellir cyflwyno yn y dosbarth, ar sail grwpiau geirfa, 'Ddarn Darllen' mwy esmwyth llinynnog (yn dal yn y trydydd person) sy'n perthyn i'r sefyllfaoedd cynharaf. Dyrnaid bach o frawddegau i ddechrau fydd hyn, gan ymestyn gyda thwf geirfa a phatrymau brawddegol.

Yr un pryd, bydd yr Athro, heb wneud ffwdan o'r peth, yn Dysgu Ynganiad yr un pryd yn gryno, ac yn dal i Gyflwyno'r Dull Holi ac Ateb. Sylwer ar y symudiad o arddull (1) uchod *Mae Guto yma. Ydy Guto yma? Ydy. Mae Guto yn y tŷ. Ydy Mair yn y tŷ hefyd? Ydy.* i ffurf rediadol esmwyth 'storïol' megis (2) *Mae'r tad yn yr ystafell. Ydy'r tad yn y gwely? Ydy, ac mae'r tad yn cysgu. Ydy Guto yn cysgu hefyd? Nac ydy. Ydy e'n gweld y tad? Nac ydy. Ond mae'r tad yn deffro, a Guto yn cael sioc.*

Dyma ddolennu brawddegol tyfiannol. A sylwer eto ar un ffactor a fydd y wahanol i'r *holl* gwrs – sef y Dull Holi ac Ateb.

Ar y dechrau, ceisir **osgoi treigladau**. Ceisir ailadrodd ffurfiau. Yn y darn darllen uchod, bydd y tair ffurf ar **y fannod** eisoes yn dod i'r golwg, a hynny'n gynnar mewn cwrs. Yn ôl oedran y dosbarth, bydd yn ddymunol felly esbonio'r gwahaniaeth yn o fuan rhwng *y, yr, 'r* (*cwlwm bach crwn arall hynod o bwysig yn y rhediad*) a bydd yn rhaid esbonio geiriau technegol fel 'llafariad, cytsain'. Mae hyn yn anochel, ac yn ddatblygiad digon iach. Gellid crybwyll 'trefn brawddeg', a thynnu sylw felly at gwlwm brawddegol pwysig. Ond at ei gilydd, bydd termau technegol yn cael lle bychan mewn cwrs.

### *Ymarfer: llenwi bylchau*

Gellir cynnig ymarferiad o fath 'llenwi bylchau' ar sail y darn darllen:

*Mae ... yma...*

*Ydy...yma? ....*

*Ydy Guto...?*

*Ydy. Mae Siân .... ..*

*Ydy'r.... ? Ydy... ..?*

Llanwer y bylchau â'r geiriau hyn: yn y gwely, hefyd, e'n, 'r tad, Siân, Nac ydy, yn yr ystafell, bachgen yn y tŷ, cysgu hefyd.

## 2. GWERSI DADANSODDI TABLAU

Dadansoddiad yw tablau o'r rhannau a geir mewn problem ieithyddol. Gall tablau fod yn ddefnyddiol i argraffu 'adeiladwaith' ar ddealltwriaeth y Dysgwr. Gallant hefyd fod yn hylaw wrth i athro lunio ymarferion. Eto, gwedd ar ddadansoddiad yw.

Yn *Cymraeg i Oedolion I*, crynhoir pob gwers, o ran polisi, ar un prif bwynt dysgu, yn fynych drwy grynhoi mewn blwch neu dabl. Y Graidd Frawddeg yw'r prif bwynt hyd yn hyn.

Gan mai 'holi-ac-ateb' yw'r prif ymarfer, bydd yr un brif ffurf hon yn ymestyn yn gystrawennol gyferbyniol ond yn araf ddatblygol ar hyd dolennau drwy gydol y gyfrol. Yna, gyda'r camre yn eu tro, crynhoir unrhyw brif bwynt newydd, drwy beth bynnag y bo mewn blwch crynhoi.

Ar ôl cyflwyno'r Eirfa a'r Patrwm Dysgu yn gryno ar y pryd, fe'i dilynir yn estynedig gan ymarferion llafar ac ysgrifenedig. Hwylustod disgrifiol yw hyn.

Sylwer yn y wers a ddyfynnir isod, fod yr Eirfa'n helaeth ar gyfer un wers. Ond ystyr 'un wers' yn y gyfrol hon a thrwy gydol y gyfrol yw 'un symudiad dysgu'. Disgwylir i bob gwers gyhoeddedig, mewn cwrs, ymestyn dros un cyfnod amseryddol, ond gall hynny yn ymarferol amrywio yn y dosbarth yn ôl cymhlethrwydd y deunydd ac yn ôl natur y dosbarth. Wedyn, adolygir yn y wers ganlynol o hyd, cyn cyflwyno deunydd yr 'ail symudiad dysgu', ac yn y blaen, yr hyn a wnaethpwyd eisoes. Ailadrodd rhannol (incremental) ar ôl pob cam pwysig yw egwyddor pob cynnydd.

Dyma Gynnwys Gwers II yn *Cymraeg i Oedolion 1*: [Sylwer mai enwau gwrywaidd sydd.]

### *Geirfa*

bed – gwely	child – plentyn	man – dyn		
book – llyfr	field – cae	money – arian		
box – bocs	floor – llawr	name – enw		
boy – bachgen	food – bwyd	paper – papur		
bus – bws	horse – ceffyl	table – bwrdd		
car – car	house – tŷ	water – dŵr		
[yma – here	acw – there	y, 'r – the	yn – in	ar – on]

---

Mae	Gwilym	yma	(acw)	
Gwilym	is	here	(there)	
Mae	Gwilym	yn y gwely	(tŷ, cae, bws, a.y.b.)	

---

|OES papur yma?

---

|OES mae papur yma

<i>indefinite</i>	_____ dŵr ar y bocs acw?	_____ dŵr ar y bocs acw
	YDY'r llyfr yn y tŷ?	YDY mae'r llyfr yn y tŷ.
<i>definite</i>	_____ dyn yn y bws?	_____ dyn yn y bws.
	_____	_____

(ceffyl – cae; bachgen – bws; enw – papur; plentyn – gwely a.y.b.)

## Ymarfer

(i) In this exercise translate the question and give immediately an affirmative answer:

Is there a boy here? – Is there a child here? – Is there a paper there? – Is the box here? – Is the boy there? – Is the man here? – Is the money here? – Is there water there? – Is the horse there? – Is the name on the paper? – Is the book on the floor? – Is there food in the box? – Is there money under the table? – Is the car in the field?

(ii) [Cyflwyno: 'r / y] In this exercise translate the question and then give any reasonable answer:

Where's the water? – Where's the box? – Where's the name? – Where's the book? – Where's food? – Where's the child?

(iii) [Cyflwyno: 'o dan'] Translate:

Where's the man? – The house is in the field. – The water's under the bus. – There's a boy on the horse. – Where's food? – There's food on the table. – Is there a bed in the house? – Is the money in the box? – Is there a paper on the floor? Yes. – The paper is under the book. – Is the man in the car? – There's a child on the floor. – The name's on the paper on the table.

Sylwch yn y nodiadau hyn, mewn esboniad ac mewn ymarferiad, fod yr adeiladwaith yn cael ei bwysleisio'n dawel yn yr ailadrodd. Mae dadansoddiad iaith yn ôl perthynas popeth yn cael ei ddysgu bron o'r golwg weithiau. Nid casglu geiriau yr ym, ond adeiladu fframwaith yn y meddwl a fydd yn medru bod yn ystwyth ac yn amryddawn. Y tro hwn, fframwaith cyferbynnu OES/YDY sydd. Mae'r ferf BOD mor eithriadol o bwysig fel y dylid ei chyflwyno yn gynnar, yn gyntaf yn gadarnhaol, yn ail yn negyddol, ac yn drydydd yn ofynnol. [mynd–go; cerdded–walk; aros–stay]

Dw i'n	mynd	yma.	
Rwy'ti'n	cerdded	yn y tŷ.	



Mae e'n		yn y cae.	
Mae hi'n		yn y bws.	
Dŷn ni'n	aros	ar y gwely.	
Dych chi'n		ar y bocs.	
Maen nhw'n		acw.	

---

Ydw i? Nac [ynganer *nag*] dw : dw i ddim.

Wyt ti? Nac wyt: dwyt ti ddim.

Ydy e? Nac ydy: dyw e ddim.

Ydy hi? Nac ydy: dyw hi ddim.

Ydyn ni? Nac dŷn: dŷn ni ddim.

Ydych chi? Nac dych: dych chi ddim.

Ydyn nhw? Nac dŷn: dŷn nhw ddim.

Y tro hwn, fframwaith cyferbynnu 'personau'r' ferf BOD sydd.

### 3. OLYNU GWERS: SEFYDLU'R DDOLEN MEWN CWRS

Er nad rhestru gwersi mewn cwrs cyflawn a wneir yn ystod y gyfrol hon, pwysig yw ystyried y broblem ei hun o 'dynnu un wers ymlaen i wers arall'. Beth y mae angen meddwl amdano wrth glymu'r naill wers wrth y llall? Y dolennu.

Dau beth.

A ellir estyn yr Eirfa ymlaen yn ystyrllon, gan ailddefnyddio *Geirfa'r Wers* o'i blaen er mwyn helaethu'r Eirfa newydd yn yr ail wers: sef defnyddio'r hyn a gyflwynwyd eisoes?

A ellir estyn *Patrymau'r Wers* o'i blaen hefyd, y Gramadeg, gan ddefnyddio'r hyn a gyflwynwyd eisoes? A ellir cyferbynnu?

#### Geirfa:

Glynir wrth yr un sefyllfa, neu sefyllfa sy'n gymdoges. Yn y wers o'r blaen cafwyd rhyw fath o amgylchfyd bywyd pob dydd. A byddai ymdroi ychydig mwy gyda Geirfa'r cartref fel yna, y bobl a'u pethau a'u gweithredoedd cyffredin, yn estyniad rhesymegol.

#### Patrymau:

Yn y Wers Gyntaf, cafwyd patrwm *Mae'r dyn yn cerdded*. Yn awr, ceir (a) *Mae'r dyn **wedi cerdded***, a (b) *Mae'r dyn **wedi bod yn cerdded***. Symudwn mewn patrwm sylfaenol gyffredin o'r presennol i'r amser perffaith (yn y gorffennol).

*Geirfa (Cyflwyno drwy Fflachgardiau i'r ddwy golofn gyntaf.)*

ENWAU	BERFAU	ARDDODIAD
trên – train	eistedd – sit	wrth – by
bara a menyn – bread and butter	gorwedd – lie	yn gyflym iawn
ffordd – road	rhedeg – run	– very quickly
het – hat	agor – open	
drws – door	cau – close	
ffenestr – window	torri – cut, break	

#### *Patrwm*

Adeiledir y blwch canlynol gan yr athro, sy'n helaethiad ar y blychau cynt, drwy holi ac ateb gyda'r dosbarth:

Mae'r dyn	wedi	cerdded		ar y ffordd
plentyn		gorwedd		dan y gwely
car			yn sefyll	wrth y drws
ceffyl		bod	yn cerdded	dan y ffenestr
drws				wrth y tŷ

### 3. Ymarfer:

- (i) Pa frawddegau sy'n anghywir neu'n anarferol o ran ystyr wrth ddefnyddio'r blwch hwn yn ffurfiol i gynhyrchu brawddegau patrymog ond yn ddifeddwl am ystyr? [e.e. Mae'r car yn cerdded dan y gwely! *Yr eirfa sy'n amhriodol, yn hytrach nag adeiladwaith y frawddeg.*]
- (ii) Mae un dysgwyr yn gofyn cwestiwn yn dechrau â 'Ble Mae?' / Ail ddysgwyr yn ateb ag ateb synhwyrol. [Gellir defnyddio geirfa'r wers o'r blaen ynghyd â geirfa'r wers hon.]

#### Sylwadau:

Yn y gyfrol *A fydd y Cymry Cymraeg mewn Pryd?* tud. 143, cyferbynnais Hen Ddull Union yn nechrau'r Ugeinfed Ganrif o gychwyn cwrs ail iaith â Dull Graddedig diwedd y Ganrif:

**“Yr Hen Ffordd”** Dyma lyfr. / Llyfr yw hwn. / Dangoswch lyfr. / Beth yw hwn? / Llyfr. / Ai llyfr yw ef? / Ie. Nage. / Mae'r llyfr ar y ddesg. / Rwy'n dangos llyfr.

Sylwch fel y mae'r brawddegau i gyd yn y fan hon yn unigol wahanol o ran ffurf, ar chwâl o ran perthynas â'i gilydd, heb fod y naill o ran patrwm yn arwain i mewn i'r llall. Sylwch nawr ar yr olyniaeth debyg i'w gilydd yn y brawddegau canlynol.

**“Y Ffordd Newydd”** Mae bachgen yma. / Oes bachgen acw? / Nac oes. Does dim bachgen acw. / Ydy e'n cerdded yma? / Ydy. Mae'n cerdded yma gyda'r athro. / Ydy e'n cerdded yn gyflym? / Ydy. Mae e'n cerdded yn gyflym iawn.

Digwydd y rhain tua dechrau eu cyrsiau gwahanol. Nid yw'r ddau gynnig gwahanol o anghenraid yn digwydd yn y wers gyntaf, ond y maent yn rhan o rediad cynnar. Sylwer yn yr ail 'Ffordd' does dim treiglo. Does dim enwau benywaidd. Mae'r naill frawddeg yn dilyn y llall yn gysylltiol o ran adeiladwaith. Mae yna ddeinameg yn y datblygiad meddyliol.

Ar ddechrau'r cwrs yr hyn y sylwir arno yw patrwm y brawddegau. Nid graddio geirfa yw'r unig ystyriaeth wrth gynllunio gwers, er bod y mater yn derbyn peth sylw. Ond dyma frawddeg a ysgrifennwyd ynghylch y ffaith honno:

*'Nid "sefyllfa' ond patrymau sy'n llywio trefn y dysgu ar y dechrau. Ond at y sefyllfa yr ydys yn anelu, yn fuan wedyn.'*

Ceir dwy wedd ar drefn yn y fan yna: deddf y fframwaith sefydlog, a deddf y ddeinameg ddatblygol, gweddau byth-bresennol iaith.

Y tro hwn, fframwaith cyferbynnu yw'r blwch sy'n dadansoddi'n llorwedd y 'rhannau cysrawennol' ar hyd rhediad brawddeg lawn.

#### 4. YMARFER Â BLYCHAU

Nid gwerau yw hon eto (ac yn sicr, nis gosodir mewn lle yn natblygiad cwrs); ond cyflwynir math o batrwm meddwl a fydd yn fuddiol i diwtor a dysgwyr mewn gwahanol wersi. Techneg yw. Er y gall y ddwy lefel a nodir yn gyntaf fod yn seiliau i wersi yn eu tro maes o law, yr hyn a wneir yma yw cyflwyno dau ddefnydd gwahanol cyferbyniol o'r **blychau**, er mwyn argraffu'r ymwybod o fframwaith ar y tiwtoriaid a'r dysgwyr.

Gellir defnyddio blychau i 'ynysu' pob math o bwntiau dysgu. Gwn fod yr ymarfer hwn yn ymddangos mor beiriannol. Ond disgwylir bod yn gynnig eglur ar hyd y cwrs gyda'r dull hwn o gyflwyno strwythur i Ddysgwyr. Dull o grynhoi yw. Dull o adolygu yw yn ogystal ag o gyflwyno. Ond yma dangosir ei ddefnydd cyferbyniol amryddawn wrth ddangos patrwm y meddwl.

##### 1. Adeiladu brawddegau unol, amrywiol.

Mae'n rhaid	i fi	frysio i'r dref.
Mae eisiau	iddo ef (fe)	fynd nawr.
Mae cyfle	iddi hi	beidio ag aros.
Mae'n well	i ni	ddod yn ôl.
Mae'n bryd	i chi	ofyn i'r siopwr.
Mae'n boen	iddyn nhw	ateb, dw i'n siŵr.
Mae'n drueni	i bawb	brynu esgidiau newydd.

2. Symudwn ymlaen, drwy ddefnyddio, i ystyried gwerau i wahaniaethu bwntiau mewn gramadeg ar gyfer tair ffurf ddieithr yn iaith gyntaf y dysgwyr. *Mae, Yw, Sy* mewn colofnau cyfredol.

Dadansoddir tri defnydd, ar ôl gosod yr 'egwyddorion' gerbron:- .

*Wrth ddewis rhwng **mae** ac **yw**, yr hyn sy'n dod ar ei ôl sy'n bwysig ar gyfer dosbarthu patrymau.*

*Mae **'yw'** yn arwain at gyfatebiaeth lwyr rhwng dau air: **John yw hwn** h.y. John = hwn.*

*Gyda **'mae'**, sôn am weithred y goddrych a wneir, neu fe'i dilynir gan adferf neu ymadrodd adferfol: **Mae John yn y dosbarth. Mae John yn eistedd.***

Wrth gyferbynnu sy ac yw, ar ôl *goddrych pwysleisiol*, felly:

ceir (a) yn + berfenw: *John sy'n canu*

(b) yn + cystrawen ddibeniadol: *John sy'n dew. John sy'n arddwr.*

(c) yn mewn ymadrodd sy'n dechrau ag arddodiad: *John sy yn yr ardd.*

Dylai'r wers hon fod yn gyfagos i Wers ar themâu 'yn'.

Gwers yw i ddarganfod amrywebau ymarferol. Dosbarthiad yw o dair ffurf ar drydydd person 'bod'.

MAE	SY	YW
Ble mae John?	<i>John sy'n fawr.</i>	Mr Morgan yw'r prifathro.
Yn yr ardd mae John?	<i>Nofio sy'n braf.</i>	Pa un yw'r prifathro?
Ie: yn yr ardd mae John.	<i>Mr Morgan sy'n brifathro.</i>	Darllen yw fy mhleser i.
Sut mae John?		Deg o'r gloch yw'r amser.
Mae John yn sâl.	<i>John sy'n rhedeg.</i>	Braf yw nofio.
Pryd mae John yn dod?	<i>Beth sy'n bod?</i>	John yw hwn.
Eistedd mae John? Ie.	<i>John sy'n galw.</i>	Amser brecwast yw hi. Nid John yw hwn.
Beth mae John yn ei wneud?	<i>John sy yn yr ystafell.</i>	Beth yw e?
Faint o lyfrau mae e'n eu darllen?	<i>Pwy sy yna?</i>	Sut ddarlun yw hwn?
Pwy mae hwn yn ei weld?	<i>Beth sy gan John?</i>	
Gwilym mae John yn ei weld.		

Ceisier llunio brawddegau pellach ar batrwm y tair colofn hyn.

### *Sylwadau*

Cyn y gwersi hyn, cafwyd uchod frawddeg bwysicaf yr iaith o safbwynt trefn dysgu canolog. Dyna oedd y graidd frawddeg. Wedyn, – ac felly gyda phob symudiad mawr wrth ddysgu, gellid crynhoi y wybodaeth newydd mewn blwch neu flychau dadansoddol, gweledig-ddiagramatig a chyferbyniol, wedi'u seilio ar holi ac ateb. Cyfres o estyniadau neu o gyfnewidiadau yw.

Gall rhywrai achwyn fod hyn oll yn rhy beiriannol ffurfiol. Ond y mae'n hanfodol syml, yn ddisgybledig, ac yn sylfaenol ddifrif. Trefn yw yn y meddwl. Adlewyrchiad o batrwm yn y meddwl yw. Gwaith yr athro yw ychwanegu brwdfrydedd wrth ei esbonio (drwy ganeuon neu chwaraeon a.y.b.).

Sylwer mai *enwau* yn y fan hon sy'n darpar popeth yn yr eirfa newydd bwysicaf (o safbwynt

pennu'r sefyllfa) mewn gwirionedd. Ychwanegiad yw'r ferf a'r adferf, yr arddodiad a'r fannod. Ond cyflwynir y rheini yn olynïad yn y dadansoddiad. Bydd yr athro yn cyfarwyddo hefyd sut y mae defnyddio'r blychau yn ymarferol drwy amrywio sawl brawddeg mewn disodli gwahanol (gyda thipyn o herio). Daw hyn yn amlycach ac yn fwy heriol o wers i wers.

Gall rhai achwyn fod yna ormod o gyfieithu hyd yn hyn yn y dull cyflwyno. Ond ni raid teimlo'n anesmwyth am hynny. Swyddogaeth deall sydd i gyfieithu. Cyflym yw cyfieithu manwl, ac y mae rhythm chwim cyfieithu cwta ar lafar yn bwysig i awyrgylch effro gwers. Mae'n cyfleu'r ddeinameg sy'n rhan o fodolaeth iaith. Drwy gyfieithu llafar mewn unedau byrion i ddrilio, a thrwy bwyntio'n gyson at atebwyr, bydd symudiad rhythm y wers yn fwy dramatig ac yn cael cyffro bod 'ar flaenau eu traed'.

Gall eraill achwyn bod y fframwaith o hyd yn rhy brennaidd. Ond mabwysiadwyd y dull fframweithiol er mwyn tanlinellu bod olynïaeth o ffurfiau yn gorfod cael ei defnyddio yn y bôn. Sut bynnag y bydd yr athro'n melysu'r bilsen bydd rhaid symud o bwynt dysgu i bwynt dysgu oherwydd bod yr iaith ei hun yn fframweithiol.

Dewisir pwyntiau dysgu drwy gydol y cwrs. Detholiad o'r iaith yw pob Gwers, wrth reswm. Ac y mae hynny'n golygu bod yr hyn nas dysgir mor arwyddocaol bob dim â'r hyn a ddewisir i'w ddysgu. Er enghraifft, pwysig iawn yw hepgor Treiglo cyhyd ag sy'n bosibl. Dyna pam y dewisir dysgu enwau gwrywaidd ymhell cyn dysgu enwau benywaidd treigladwy, a rhai enwau 'lluosog benywaidd' cyn yr unigol. Eir o un safle meddyliol at safle newydd.

## 5. DOLENNU GWERSI TREIGLO

Mae Treiglo yn broblem Geltaidd. Datblygodd mewn seiniau yn yr oesoedd cynnar wrth symud o un cyflwr fframweithiol mewn iaith gynnar i fframwaith arall yn ddiweddarach. Mae hefyd yn codi'n gynnar mewn cwrs, a rhaid ei wynebu. Bu chwyldro. Ond gellir ei wynebu'n bwylllog.

I'r dysgwr, dyma yn fynych yw'r brif broblem yn y Gymraeg.

Y gyfrinach yw dosbarthu cyflwyniad y gwahanol dreigladau yn glir ar wahân mewn dosys bach, eu cymryd yn gymharol araf yn eu tro, a dychwelyd atynt yn ailadroddol gyferbyniol drwy gydol y cwrs.

Mae'n wir bod yna duedd i dreigladau o amryw fathau beidio â chael eu defnyddio yn yr iaith is-safonol heddiw. Ond i ddysgwyr y mae rheolau clir yn fantais ac yn dderbyniol i Gymry Cymraeg rhugl sy'n parchu ansawdd yr iaith safonol. Fel arfer, mae dysgwyr am fod yn 'iawn', ac yn ystyried siarad yn raenus naturiol yn weithred anrhydeddus. Artiffisial yw ceisio dysgu iaith chwâl mewn dirywiad; ac mae'n codi mwy o broblemau nag y mae'n eu datrys.

Chwalfa yw'r un peth y mae'n rhaid ei osgoi wrth ddysgu iaith.

Ceir tri threigladau o hyd ar lafar ac ar lyfr: hynny yw, tri math neu ddsbarth o dreigladau. Ceir amryfal ddefnydd o'r tri hyn. Treigladau Meddal yw'r pwysicaf o'r tri, nid yn unig oherwydd ei ddefnydd mewn gwahanol amgylchiadau, ond oherwydd ei barhad cyndyn ar lafar.

Dechreuwn yn gynnwl. Go brin yr eir ati gyda dysgwyr i arolygu *gyda'i gilydd* lawer o'r achlysuron pryd y bydd y treigladau meddal yn digwydd. Fe'i gwneir yn araf. Y tebyg yw mai *yn fydd* yr achos cyntaf mewn cwrs i dreiglo gair ar ei ôl.

Fe ddigwydd treigladau meddal yn gynnar fel rhan o draethiad gyda'r dibeniad: *Mae'r adeilad yn fawr*. (Mae'r *yn* yn absennol yn Saesneg.) – treigladau meddal.

Gan nad yw'r *yn* hwn yn treiglo'r *ll* nac *rh*, ni chrybwyllir hwythau am y tro. Ond gellid gosod gerbron:

c>g Mae'r llawr yn galed.

p>b Mae'r bwyd yn berffaith.

t>d Mae'r cig yn dyner.

g>- Mae'r bwrdd yn wlyb.

b>f Mae'r bachgen yn fyr.

d>dd Mae'r dŵr yn ddwfn.



m>f Mae'r tŷ yn fawr

MAE'R	tŷ		YN		fach		b > f
	plentyn						
	car						
YDY'R			YN		lân?		g > -
DYW'R			DDIM YN		frwnt		
					fawr		m > f

Nodyn:

Ydy'r ceffylau'n lân?

*Nac [ynganiad Nag] ydyn.* Dyw'r ceffylau ddim yn lân.

Ond bydd yn rhaid yn gynnar gyferbynnu'r *yn* nad yw'n treiglo o gwbl: Mae'r bechgyn yn cerdded. Mae'r car yn mynd.

Lle cyffredin arall i gael treigladau meddal yn gynnar fydd enwau benywaidd ar ôl y fannod *y, yr, r*:

*cath, merch, : y gath, y ferch*

*Ymarferiad 1.*

Dyma restr o enwau benywaidd:

cath – cat; gwlad – country; buwch – cow; gardd – garden; merch – girl;  
 cegin – kitchen; dafad – sheep; carreg – stone; tref – town; coeden – tree;  
 menyw – woman.

[Treigladau: *dafad, tref: y ddafad, y dref*] [Gohirir cyflwyno ll ac rh fel rhai heb dreiglo ar ôl y ac **yn.**]

Cyfieithwch:

Is the cat in the kitchen? Is the girl in the school? Is there a sheep in the garden?

He's seeing a woman in the town. She's taking the girl through the town.

You're leaving the stone in the church. They're not calling the cow.

These horses are running in the field. These people are walking through the country.

That tree is in a garden by the river. This road goes through the farm.

[Ar ôl cyflwyno, driliwch y brawddegau, gan amrywio'r rhannau brawddegol ar lafar.]

Ymarferiad 2.

Arefnwch yr ail **golofn** yn ôl trefn y **golofn** gyntaf:

Oes plentyn yn y ffarm?	There's no boy on the road/ today.
Dyw'r dŵr ddim ar y bwrdd.	Are we staying/ by the school?
Maen nhw'n gweld bws dros yr afon.	Do they see the name/ on the paper?
Dych chi ddim yn gadael y dyn a'r baban.	Is there a child in the farm?
Mae e'n darllen wrth y bwrdd yn y tŷ.	They see a bus/ over the river.
Ydyn ni'n aros wrth yr ysgol?	Is the child on the farm?
Maen nhw'n cadw papur a llyfr dan y bwrdd.	The water's not on the table.
Ydy'r plentyn ar y ffarm?	He's reading by the table/ in the house.
Does dim bachgen ar y ffordd heddiw.	They keep a paper/ and a book/ under the table.
Ydyn nhw'n gweld yr enw ar y papur?	You're not leaving the man/ and the baby.

[Ar ôl cyflwyno, driliwch y brawddegau ar lafar.]

Lle pwysig arall y bydd treigladd meddal ar gael fydd ansoddair ar ôl enw benywaidd: *Merch fawr*.  
Dyma flwch perthnasol:

	Tudur		ddyn	mawr
			fachgen	bach
Mae		yn		
	Mair		fenyw	dda
			ferch	dew

Cyfieithwch i'r Gymraeg:

We don't see horses now in this country.

Is there a cow in that field? Yes.

Are the mother and the little daughter staying here tonight? No.

Does this naughty boy keep the dirty cat under the bed?

There's another nice little church in that field.

Where's the fat woman now? She's walking as far as that big stone.

The girl's not coming from the country to the town, is she?

A clean cat is quiet.

Are the other people leaving this garden tonight? No.

The sick man isn't fat now.

Gwaith llafar:

Defnyddiwch ragenwau yn lle'r enwau mewn llythrennau eidalaidd (italics):

Ydy'r *dyn arall* yn y dre?

Mae'r *llyfrau* ar y llawr.

Dyw'r *ddafad* ddim yn gweld y garreg.

Dyw'r *ferch* ddim yn gadael nawr.

Ydy'r *fenyw'n* cadw arian dan y papur?

Gellid **gohirio** Treiglo ar ôl *rhagenwau* blaen am y tro. Ond pan ddaw'r treiglad bellach, gwnele'r yng nghyd-destun adolygu'r gwersi treiglo cynnar hyn. Hynny yw, ailadrodder mewn adolygiad yn gyntaf gystrawen y wers hon, o fewn estyniad geirfa a phatrwm y treiglo newydd. Rhowch 'dy', 'fy', 'ei' (gwryw. a benyw) o flaen *cwch, troed, bysedd, castell, drws*.

## 6. CWLWM I WERSI 'YN'.

Beth a olygaf wrth 'Gwlwm'? Yn achlysurol, wedi cyflwyno pwnc, megis cyflwyno 'yn' gan bwyll dros nifer o wersi a chan olygu gwahanol syniadau, daw yn bryd oedi a thynnu'r cwbl at ei gilydd. Mae iaith yn gyfuniad o symud ac aros, o wahanu ac uno. Felly y bu mewn Hanes.

Mae 'yn' yn broblem fach Gymreig iawn. Cyn cyrraedd y Cwlwm hwn, fe'i cyflwynwyd yn araf i ddechrau mewn brawddegau unigol, heb wneud môr a mynydd o'r gyfundrefn gyflawn, eithr gan ddysgu treigladau meddal y tair enghraifft gyntaf ar y pryd yn eu tro. Ond wedi crybwyll rhai enghreifftiau o 'yn' ar wahân, gellir gosod gerbron dabl go grwn fel casgliad.

Bob hyn a hyn gall fod yn lles gael Gwers Adolygu o'r math hwn sy'n crynhoi nifer o bwyntiau a ymddangosodd eisoes, ond a all gael eu hynysu'n ramadegol yn awr. Bydd y ddolen fel pe bai hi'n dod i gwlwm. Er enghraifft, erbyn cyrraedd y pwynt dysgu hwn, bydd y dysgwr eisoes wedi cyfarfod â sawl *yn* heb eu cyferbynnu'n benodol. Hyd yn hyn, bu problem 'yn' yn achlysurol.

---

<i>Yn:</i>	<b>arddodiad:</b>	Saesneg	<i>in:</i>	treigladau trwynol	
				yn Aberystwyth, yn Hafod, ym Mangor, yng Nghaerdydd.	
	[ <i>Treigladau Trwynol:</i>			Drilio ar ôl <i>yn</i> mewn enwau lleoedd, bob amser mewn brawddegau:	
	c > ngh	mae'n rhedeg yn....	Caerfyrddin	(yng Nghaerfyrddin)	
	p > mh	mae'n cerdded yn...	Penarth	(ym Mhenarth)	
	t > nh	mae'n byw yn....	Tregaron	(yn Nhregaron)	
	g > ng	mae'n aros yn....	Gregynog	(yng Ngregynog)	
	b > m	mae'n chwarae yn....	Bangor	(ym Mangor)	
	d > n	mae'n gweithio yn....	Dolgellau	(yn Nolgellau)]	
				O flaen M... , newidia yn>ym: Manafon (ym Manafon)	
	<i>yn canu:</i>	<b>rhangymeriad berfol:</b>	sing, singing		
			yn canu, yn gweld, yn cerdded	(dim treiglo)	
	<i>yn gyflym:</i>	<b>rhangymeriad adferfol:</b>	(Saesneg – ly 'quickly')	yn cerdded yn gyflym	
				treigladau meddal (ac eithrio <i>ll, rh</i> )	
	<i>yn hir, yn dew:</i>	<b>ffurfio traethiad:</b>	mae'n hir; mae'n dew;		
			'Dim' yn cyferbynnu yn Saesneg (sef 'absenoldeb')		
				treigladau meddal (ac eithrio <i>ll, rh</i> )	

---

Mae 'yn' yn un o'r geiriau cyffredin sydd o bosib wedi tarddu yn yr arddodiad, ond fel arddodiad y mae'n unigryw am ei fod wedi datblygu ystyron mewn ffyrdd annisgwyl. Dyma flwch sy'n 'cyferbynnu'r llythrennau' a dreigla neu beidio ar ôl 'yn'.

*Ymarfer 1: [Patrwm yn cael ei gyflwyno gan yr Athro: Dyffryn Clwyd. Pedwar ateb gan ddysgwyr gwahanol. Ydy e (hi) 'n byw yn Nyffryn Clwyd? Ydy. Mae e'n byw yn Nyffryn Clwyd. Nac ydy, dyw e ddim yn byw yn Nyffryn Clwyd ar hyn o bryd. Mae'n byw yng Nghaerdydd. Ysgogiadau gan yr Athro: Beddgelert, Caerloyw, Bryneglwys, Caersŵs, Dolgellau.*

*Ymarfer 2: [ Athro yn enghreifftio'r pedair llinell gyntaf fel patrwm.]*

Athro: Ble'r ych chi'n byw?

Dysgwr: (yn ateb gyda brawddeg gan gynnwys enw'r lle) e.e. Dw i'n byw yn Nhrefor.

Athro: (yn ychwanegu adferf) Cysurus.

Dysgwr: Dw i'n byw yn gysurus yn Nhrefor.

Athro: Caerfyrddin.

Dysgwr: Dw i'n byw yn gysurus yng Nghaerfyrddin.

Athro: Cartrefol.

Dysgwr: Dw i'n byw'n gartrefol yng Nghaerfyrddin.

Athro: Dinas Mawddwy.

Dysgwr: Dw i'n byw'n gartrefol yn Ninas Mawddwy.

Ac yn y blaen gyda: *parchus, Brithdir, gweddol, Pen-y-groes, diog, Trawsfynydd, cyfoethog, Glyn-nedd, blinedig, Merthyr.*

### Treigladd Trwynol ac Enwau Lleoedd

Help mawr i ddysgu'r Gymraeg yw adnabod Cymru drwy ddefnyddio map. Y mae'n briodol iawn cysylltu unrhyw wibdaith, ymweliad, neu 'drafodaeth ar enwau lleoedd' ag ymarfer â'r arddodiad YN ynghyd ag enwau lleoedd treigladdwy.

Adolygu felly (neu cyflwyner am y tro cyntaf) y treigladd trwynol ar ôl yn (in). Pwysig sylwi nad ydym yn talfyrru yn yn 'n pan fydd yn arddodiad. Felly,

cywir yw: Mae'n denau. Mae'n cerdded.

Ond

cywir yw: Mae ym Mhenfro.

Mae yng Nghonwy.

Oherwydd diffyg cefndir rhai dysgwyr mewn addysg am Gymru, ni bydd ambell un mewn dosbarth yn meddu ar wybodaeth am enwau na lleoliad rhai pentrefi neu drefi, hyd yn oed rhai adnabyddus. Felly, rhag peri swilio, dylid dangos lleoliad yr enwau ar y dechrau, ychydig ar y tro.

Ceisir rhoi MAP o flaen y dosbarth, gyda phwyntiau yn dynodi'r lleoedd ar y map, gydag enwau lleoedd wrth ochr y map. Da fyddai grwpio'r rhestr yn garfanau yn ôl eu hadnabyddiaeth neu

boblogrwydd defnydd, a dysgu neu holi am leoliad pob lle mewn grŵp ar y tro.

- (i) Eler dros y Map yn gyntaf i holi 'Beth yw'r lle yma?'

Bangor, Caernarfon, Wrecsam, Môn, Caerdydd, Abertawe, Casnewydd.

- (ii) Wedyn, gofynner iddynt ateb yn llawnach: gan bwyntio i'r lle:

Dw i'n hoffi aros yn ---

- (iii) Ateber y treigladd bob tro drwy ddefnyddio'r ychwanegiad ar ôl 'yn':

Yr Athro: (gan bwyntio at y lle ac yn dweud) Bae Colwyn

Y Dysgwr: *Dw i'n bwriadu aros ym .....*

Ateber y treigladd bob tro drwy ddefnyddio'r frawddeg cynt, ond gan estyn mewn cadwyn bob tro:

Yr Athro: ( yn pwyntio at y lle 'Dinbych')

Y Dysgwr: Dw i'n bwriadu aros ym Mae Colwyn ac yn Ninbych...

Yr Athro: (yn pwyntio at y lleoedd hyn yn eu tro a'r dysgwyr yn cynyddu bob tro nes methu â chofio'r gadwyn ymhellach) Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Cwm-brân, Caerllion, Caerffili, Cas-gwent, Pontypridd, Porth-cawl, Caerfyrddin, Penfro.

- (iv) Newidier y frawddeg gyflwyniadol ailadroddol: *Dw i wedi mynd ar goll ym Medwellty.*

(gyda'r un math o esbonio ymlaen llaw gan yr Athro; a'r un math o ymateb gan y Dysgwr)

Caergybi, Conwy, Beddgelert, Biwmaris, Cricieth, Porthmadog, Trefaldwyn, Bargoed, Castell Nedd, Castell Newydd Emlyn, Tregaron, Dinbych-y-pysgod.

- (v) Yna, gellir gwahodd y dysgwyr ymlaen yn eu tro i ddangos lleoliad ac i enwi cynifer o lleoedd ag sy'n bosibl, atebion un-gair.

### *Arwyddocâd y Wers*

Pan drafodir Gwersi Rhifo maes o law, sonnir bod gwersi o'r fath yn troi'n fodd i ymarfer ag ail iaith fel **cyfrwng meddwl** yn heriol gyfathrebol. Soniais fy mod ers tro wedi edmygu athrawon ail iaith sy'n cymhwyso'u gwersi i fod yn gyfrwng gwybodaeth. Mae gennyf bennod ar y mater yn y gyfrol *Cyflwyno'r Gymraeg, Llawlyfr i Athrawon Ail Iaith*, Gwasg Prifysgol Cymru, 1964. Mae'r un dull neu gyfrwng i gyflwyno ail iaith ar waith wrth sôn am fuddioldeb gwibdaith addysgol i Sain Ffagan yn y bennod ar 'Gweithgareddau' yn y llyfryn hwn. Felly, yn y fan hon eto, fe ellir cyflwyno ychydig o wybodaeth ynghylch daearyddiaeth Cymru drwy'r ymarferion uchod, ac yn wir drwy'u cymhwyso'n ddeunydd cystadleuaeth rhwng timau.

## 7. DOLENNU HOLI AC ATEB (1) CYTUNDEB

Holi ac Ateb yw'r dull gorau o ddysgu iaith. Mae'n hyrwyddo perthynas dwy ochr.

Ac mae'n gorfodi'r athro i drefnu dolen o ddatblygiad o un orsaf i'r llall.

Ceir dau ddsbarth o gwestiynau (a) Cwestiynau Cytundeb a (b) Cwestiynau Gwybodaeth.

Rhaid eu trafod ar wahân, yn gyd-wybodaeth, gan eu bod mor wahanol o ran adeiladwaith, ond mor debyg o ran effaith.

Trown yn gyntaf at Gwestiynau Cytundeb a phroblem 'Ie'. Fe welir bod tri math o'r rhain, sef: (i) Geiriau Unigol; (ii) Berfau Cynorthwyol; a (iii) Berfau Cyflawn.

Bydd y rhain yn cael eu lledu dros gyfnod o amser, bob un yn ei dro. Ceir dolen, a nifer o glymau ar hyd y ddolen. Ond bydd paratöwr y cwrs yn gwybod lle y mae'n mynd, ac yn dolennu'r broblem o orsaf i orsaf.

*Rhediad o Wersi 'Yes'.*

Dyma broblem Gymreig iawn. **Ceir dros hanner cant o ddulliau o ddweud 'Yes' yn y Gymraeg ar lafar heddiw, credwch neu beidio, – a mwy yn yr iaith lenyddol.**

Y peth cyntaf i baratöwr cwrs i'w wneud yw meddwl am y broblem. Beth sy'n digwydd? Sut y mae ei ddsbarthu? Mae'n un o'r problemau canolog a dechreuol wrth adeiladu'r iaith.

Mae'r broblem yn codi'n fuan iawn mewn cwrs gofalus, hyd yn oed o fewn yr hanner dwsin o wersi cyntaf. Mae'n parhau i ymddangos o'r newydd am flynyddoedd. Felly y mae'n ddoeth i fod yn ymwybodol ohono ac i ystyried math o drefn olynol, achlysurol, ac i ddychwelyd yn gyferbyniol ato gyda chanolbwyntiau o ailadrodd, er mwyn peidio â chymysgu. Mae'r amgylchiadau i'r mathau gwahanol o 'Yes' yn amrywio; a bydd angen ystyried sut y gellir eu dosbarthu'n fwyaf effeithiol.

Fel arfer, bydd yn fanteisiol cyflwyno'r cadarnhaol *gyda'r* negyddol.

Fel arfer yn y Gymraeg defnyddir '*berfau*', yn anad dim, i fynegi 'Yes'; ond ceir dosbarthiadau o ferfau – 'prif ferfau' a 'berfau cynorthwyol', a 'bod' fel berf heb fod yn gynorthwyol, ond yn golygu '*bodoli*'. Weithiau, yn wir mewn llawer iawn o ferfau, y mae'r ateb 'yes' yn golygu adleisio'r ferf a ddefnyddir.

Bob amser, dysgir 'Yes' o fewn amgylchfyd 'Holi ac Ateb', ac y mae'r ffaith honno – yn fwy na chydag ieithoedd eraill – yn rheswm dros gymryd y dull dysgu hwnnw'n sylfaenol i gwrs am y flwyddyn gyntaf. Dyma'r darlun mawr. Mae Holi ac Ateb, yn rhan o gyd-destun ein 'Yes', ac yn

cynnwys:

1. *Geiriau unigol*. Mewn gwirionedd, o ran egwyddor, y tri gair Cymraeg hyn yw'r unig eiriau penodol ar gyfer 'yes'. OES, DO, IE.

2. *Berfau cynorthwyol a chyflawn* (cynorthwyol – auxiliary) [yn y rhain, amrywir yn ôl person a rhif: ond sylwer y dysgwr yn effro – mae 'ydw' yn gyflawn ac yn gynorthwyol: I am, i.e. *Yes, I am.*] Dyma i'r athro rai o'r grwpiau cyntaf o 'yes' i ddechrau:

(a) ydw, wyt, ydy; oeddwn, oeddet, oedd; bydda, byddi, bydd; byddwn, byddet, byddai; byswn, byset, byddai; buasai; a.y.b. I gyd yn 'yes'!

(b) Gwna (h.y. gwnaf – dyma ferf gyflawn, ac mae'n gynorthwyol), gwnei, gwna; a.y.b.

(c) Ca, cei, caiff; a.y.b. – cyflawn a chynorthwyol

(ch) Galla, gallai, gall; a.y.b. – cynorthwyol

Dylwn, dylet, dylai; a.y.b. [un tymph (tense) – cynorthwyol]

3. *Berfau cyflawn* [yn y rhain eto, amrywir yn ôl person a rhif]

A glywi di'r cloc? Clywa. [yn y dosbarth hwn, yn yr iaith lenyddol, yn arbennig, y mae'r nifer o ferfau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ateb 'yes/ no' yn uchel iawn; mewn egwyddor, pob berf.]

Wrth drafod 'Yes' mewn gwers, yr ydym felly'n trafod maes pwysig 'Berfau Cynorthwyol' hefyd. Ymhellach ymlaen, bydd berfau cynorthwyol yn cael eu hychwanegu bron heb sylwi, yn arbennig wrth ddyuno, neu wrth fynegi teimladau eraill: e.e. Myn fynd, Ofna siarad.

Gwelwch felly, yn y gair bach 'Yes' fel y mae graddio iaith a dolennu gwersi mor gwbl bwysig, o gam i gam. Mae calonogrwydd y ffenomen hon yn un o'r ffactorau i gefnogi'r ddadl o blaid hyrwyddo'r Dull Holi-ac-Ateb fel dull llafar sylfaenol yn y Gymraeg.

[Cynhalier Gwersi syml i ymarfer y gwahaniaeth rhwng Oes / Ydy; yna Ydy / Ydych.]



## 8. DOLENNU GWERSI AR FERFAU CYNORTHWYOL

**Yn y Dull a fabwysiadwyd, sef Holi ac Ateb**, y mae'r holi drwy ferfau cynorthwyol yn offeryn hanfodol. Dyma bwnc ar gyfer rhediad o wersi.

GWNEUD, CAEL, DYLAU yw'r Berfau Cynorthwyol mwyaf cyffredin.

Cymerer y rhain drwy'u dolennu yn eu tro, a thrwy ddod â hwy i gwllwm cyferbyniol.

*GWNEUD*

*Wnewch chi agor y drws os gwelwch yn dda? Gwna.*

Will you please open the door? Yes.

*Wnes i ddim agor y drws? Naddo.*

I didn't open the door, did I? No.

*CAEL*

*Ga i agor y drws i chi? Cewch.*

May I open the door for you? Yes.

Am I allowed to open the door for you? Yes.

*DYLAI*

*Ddylai fe agor y drws i'r Trydanwr? Dylai.*

Should he open the door for the Electrician? Yes.

Ought he? Yes.

*Cyfieithwch:*

May I continue the work tomorrow? Yes.

Will you rely on me please? No.

Is he allowed to (May he) throw the food into the box?

Are you allowed to (May you) hide the coat? No.

May I show you my cat? (my cat to you). Yes.

Will he continue to break (**i** + infinitive) the stone? (i.e. does he insist?)

Will you try to sleep (infinitive without **i**) in this bed please?

Will you reach Cardiff in the morning? (i.e. is it your intention).

Answer these questions affirmatively and negatively (giving full negative form.)

Gaiff e ddangos ei law i chi?

Wnewch chi ddibynnu arno fe am help?

Gawn ni daflu'r papurau ar y llawr?  
Wnaiff hi geisio gwneud y gwaith yma heddiw?  
Ga i guddio'r llyfrau yma yn y siop?  
Wnewch chi gyrraedd y môr heno?  
Gawn ni obeithio ei fod e'n dod?  
Ga i barhau'r darllen yn y bore?

Rapid translation (with negative answers) English > Welsh / Welsh > English).

Ga i barhau i aros yn y tŷ yma?  
Gewch chi aros yn y tŷ yma?  
Wnaiff e gyrraedd y tŷ nawr?  
Wnewch chi ddibynnu ar y dyn arall?  
Gaiff hi ddangos ei llyfr i chi?  
Gân nhw obeithio dod yr wythnos nesa?  
Wnawn ni guddio'r peth yn yr ardd?  
Gewch chi daflu'r papurau yn y tân?  
Wnewch chi geisio torri'r garreg os gwelwch yn dda?

*Nodyn Pellach ar 'Cael'*

*Berf amheronol, gyffredinol*

Mae '*Cael*' yn un o'r tair berf 'bwysicaf' yn y Gymraeg – bod, gwneud, cael. Mae'n amryddawn iawn.

Yn ôl rhai ieithyddion, nid oes 'goddefol' (passive) yn y Gymraeg. Mae dwy ffordd o ateb yr angen am fynegi cyflwr goddefol:

Mae John yn agor y drws. Mae'r drws yn cael ei agor gan John.

Hynny yw, y mae *cael* (sydd hefyd yn ferf gynorthwyol adnabyddus) yn cael ei ddefnyddio i'r gwrthrych dderbyn grym y brif ferf, yn oddefol. Mae yna oddefol heb fod yn y trydydd person arbennig (ef/hi): hynny yw, mae'n ddiberson, neu'n drydydd person cyffredinol:

Mae John yn agor y drws. > Agorir y drws gan John.

Beth yw grym terfyniaid – *ir* ac yn ddiweddarach (– *wyd*, – *id*, – *asid*) ?

Dyma, yn fy marn i, fath o derfyniad amheronol (h.y. heb gyfeirio at un o dri pherson arferol gofod sef 'fi, ti, ef'). Hynny yw, mae'r terfyniad amseryddol i ferf, megis *agorais* (gorffennol, person cyntaf), *agori* (dyfodol, ail berson) yn arfer cynnwys goddrych un o dri pherson; ond ni chyfeirir at unrhyw berson penodol o fewn y ferf *agorir*: gall fod yn un o'r tri heb fod yn 'arbennig'. Yn yr ystyr

yna, mae'r trydydd person yn **gyffredinol**. Sylwer ar y cyferbyniad hefyd: *gwêl* (y dyn), *gwelir* (y dyn). Yn y ffurf gyntaf, mae y 'dyn' yn oddrych; yn yr ail mae y 'dyn' yn wrthrych.

Awgrymir dysgu'r 'goddefol' drwy'r ferf gynorthwyol '*cael*' a gohirio'r trydydd person cyffredinol – *ir*, – *wyd*, – *id*, – *asid* i gyfnodau diweddarach o dipyn.

## 9. CWLWM Y GYFUNDREFN FERFOL

Fel gyda'r gair 'Yes' yn y Gymraeg, ac am rai o'r un rhesymau, mae'r Gyfundrefn Ferfol hithau yn y Gymraeg yn gyfoethog iawn. Ceir chwech o amserau sylfaenol.

Ni raid i'r Dysgwr hidio am fawr ond y **Modd Mynegol**. Mae'r Modd Dibynnol (Subjunctive) erbyn hyn wedi cilio nes nad oes ar ôl ond creiriau, megis 'fel y mynner' neu 'fel y bo' – dywediadau nad ydynt fwy nag olion diarhebol rhewedig braidd. Yr hyn sy'n cyfrif yn bennaf oll yn y Gyfundrefn Ferfol yw'r Ferf '*Bod*' yn y Modd Mynegol.

Chwe thymp (tense: amser) sydd ar ôl yn y tabl bellach. Dadansoddiad o amser yw amserau'r Ferf. Ac mae ieithoedd gwahanol yn gallu deall y dadansoddiad hwnnw oherwydd strwythur a all newid dros y canrifoedd. Erbyn hyn, tuedda'r adeiladwaith chweplyg i droi'n bumpyg ar lafar yn y Gymraeg wrth fod dau o'r amserau'n toddi yn ei gilydd.

Dyma'r adeiladwaith sylfaenol chweplyg yn y cywair llenyddol yn *Bod*, cyn y toddi hwnnw:

bûm (buais)	wyf (dw i)	byddaf (bydda)
buaswn (byswn)	oeddwn	byddwn
	sef	
<i>gorffennol</i>	<i>presennol</i>	<i>dyfodol</i>
<i>gorberffaith</i>	<i>amherffaith</i>	<i>amodol</i>

Erbyn hyn, yn y rhan fwyaf o'n tafodieithoedd, tuedda'r amodol a'r gorberffaith i doddi'n un yn ei gilydd: neu y mae un yn lladd y llall: *byddwn i'n hoffi mynd/buaswn i'n hoffi mynd*.

Da i'r athro sylweddoli bod y ferf 'Bod' yn **unigryw**: cyfuniad hanesyddol yw o ddwy ferf. Edrychwn ar golofn 1 a cholofn 3, a gwelwch y gwahaniaeth. Dim ond yn y ferf 'Bod' (o bob berf) i bob pwrpas y mae'r presennol a'r amherffaith yn *bod*. Y pedwar amser arall a geir i'r berfau rheolaidd bron i gyd yw:

rhedais	rheda
rhedaswn	rhedwn

Berf gynorthwyol yw *Bod* gan amlaf; ac yn wir, dyna'i defnydd arferol yn yr iaith lafar safonol. Sylwn yn awr ar y *ddwy ar hugain o gystrawennau ac o amserau yn y Gymraeg!* Mae'r

cyfoeth o ddadansoddi amser yn rhyfeddol. Cynorthwyol yw 'Bod' yng ngholofnau II a III. Dyma'r dadansoddiad isymwybodol Cymraeg o raniadau amser mewn iaith.

I	II	III
dw i	dw i'n rhedeg dw i wedi rhedeg	dw i wedi bod yn rhedeg
roeddwn i	roeddwn i'n rhedeg roeddwn i wedi rhedeg	roeddwn i wedi bod yn rhedeg
fe fydda i	fe fydda i'n rhedeg fe fydda i wedi rhedeg	fe fydda i wedi bod yn rhedeg
fe fyddwn i	fe fyddwn i'n rhedeg fe fyddwn i wedi rhedeg	fe fyddwn i wedi bod yn rhedeg
fe fuais i	fe fuais i'n rhedeg -----	-----

Sylwch ar y bylchau diddorol yn ail linell 'fe fuais i'. Mae esbonio beth sy'n digwydd yn y fan yma a pham yn gymhleth i'w gyfleu wrth roi enghreifftiau o fynegiant yn Saesneg.

Pam?

Oherwydd y ddelwedd isymwybodol i amser gorffennol y ferf 'bod' – buais.

Meddyliwch am esbonio i Sais y gwahaniaeth rhwng 'Fe fuais i yn Aberaeron ddoe' ac 'Roeddwn i yn Aberaeron ddoe.'

Mae 'fe fuais i' yn ymsefydlu ar hyd llinell amser heb edrych ond un ffordd, sef ymlaen.

Os gofynnir, dyna sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng 'Fe fuais i' yn Aberaeron ddoe' a 'Roeddwn i yn Aberaeron ddoe'.

**Gwahaniaeth yng ngolwg (syllbwynt) y meddwl yw. Mae 'fe fuais i' yn ymsefydlu mewn pwynt ar hyd llinell amser heb edrych ond un ffordd, sef ymlaen. Mae 'oeddwn' yn gallu ymsefydlu mewn pwynt amser gyda'r gallu i edrych yn ôl os myn.**

Y cyntaf i ddarganfod y ffaith honno oedd Gruffydd Robert yn ei *Ramadeg Cymraeg, 1567*.

Beth bynnag, digon posibl y bydd rhyw ddysgwr yn holi beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'fe fuais i' ac 'roeddwn i'. Dyma'r ateb. Yn 'fe fuais i' mae'r meddwl yn edrych yn ôl yn gyntaf tua sefydlu pwynt syllu: oddi yno mae'n edrych ymlaen. Yn 'roeddwn i' mae'r meddwl yn edrych yn ôl i'w sefydlu'i hun mewn pwynt syllu, ond oddi yno mae'n gallu edrych yn ôl ac ymlaen.

*Gorffennol*

\_\_\_\_\_ | fe fuais i \_\_\_\_\_  
pwynt >

*Amherffraith*

\_\_\_\_\_ roeddwn i | roeddwn i \_\_\_\_\_  
<pwynt>

e.e. Fe fuais i'n ymweld â'r lle ers mil naw cant a naw.

Roeddwn i'n ymweld â'r lle pan gyrhaeddodd y bus.

Gobeithio bod y cymhlethdod hwnnw, wedi meddwl amdano, yn ymddangos yn oleuach!

Y gwir yw bod pob un o'r safleoedd mewn cyfundrefn yn cael ei ddiffinio o ran llawn ystyr yn ôl ei berthynas i bob un o'r pwyntiau yng nghyflawnder undod y gyfundrefn.

Yng Nghalon y Gyfundrefn, ceir dadansoddiad unigolyddol iawn o amser, ac y mae'n un o briodoleddau arbenigol ac unigryw yr iaith Gymraeg.

## 10. DOLENNU HOLI AC ATEB (2) GWYBODAETH

Ar ôl y dosbarth o 'Gwestiynau Cytundeb', trown at yr ail ddosbarth mawr. Symudwn at wedd arall ddiweddarach ar Gwestiynau (o ran trefn dysgu) o dan bennawd Holi ac Ateb. **Ochr yn ochr â Chwestiynau Cytundeb, ceir Cwestiynau Gwybodaeth.** Hynny yw, nid casglu 'gwybodaeth' (yn yr ystyr o wybodaeth bynciol) o bob math yw Cytuno, er y gall arwain at hynny. Y mae Cwestiynau Gwybodaeth yn cyferbynnu â Chwestiynau Cytundeb am fod yr ateb yn cystrawennu'n wahanol. Holi yw am fwy o fanylion ynghylch yr hyn a ystyrir mewn sefyllfa.

Rhaid rhybuddio eto *nad* gwers yw'r ysgrif hon, ond amlinelliad o wersi'n dolennu, sy'n arwain at gasgliad y Cwlwm cystrawennol. Dyma arolwg o 'broblem'; ac ystyriaeth ynghylch yr ateb i'r broblem honno. Gwersi'n dolennu sydd yma ar gyfer cadwyn sy'n hongian gyda'i gilydd.

Mewn gwirionedd, y ffordd orau a mwyaf ymarferol o feddwl am wers ac am gyflwyno pwynt gramadegol yw drwy ystyried ymarferion. Mewn geiriau eraill, trefnu ymarferion yw calon llunio cwrs. Gwelir felly fod ystyried mathau o ymarferion yn un o'r tasgau mwyaf buddiol i diwtor.

Ceir dwy brif gadwyn sy'n sylfaen i lunio 'Cwestiynau Gwybodaeth', a'r naill a'r llall i'w diffinio fel "rhaid nad ydynt yn cael 'yes' fel ateb." O fabwysiadu Holi-ac-Ateb fel prif ddull dysgu, mae'r dosbarthiad o gwestiyna'n dra buddiol.

### I Y GADWYN ENWOL

Seilir y Gyfres hon ar holi Pwy? Beth? Pa lyfr? P'un + sy:–

Pwy sy yma? Gwilym.

Beth sy'n bod? Dw i'n sâl.

Beth sy'n cadw sŵn? Mae Wil yn gwybod.

Faint o lyfrau sy ganddo fe? Dwsin.

Pa weithiwr sy'n dod yn ei le? Neb.

Faint sy'n dod? Cant, mae'n debyg.

[**Cyferbynier:** Chi sy wedi gwneud y bara? Ie. (Nage) – *cytundeb / anghytundeb*

Y bachgen yma sy'n sâl? Ie.

Plismon yw e? Nage.

Ei gap e yw hwn? Ie, wrth gwrs.]

Beth yw hwn? Dyna focs y bwyd.

Pwy yw honna? Chwaer Gwilym yw honna.

P'un yw'r prifathro? Fe yw'r dyn tal yn y canol.

Faint yw hwn? Pum punt.

Pa ddsbarth yw'r un da? Y dosbarth sy'n cyfarfod am chwech o'r gloch.

Faint o'r gloch yw hi? Hanner awr wedi pedwar.

## II Y GADWYN ADFERFOL (+ Mae, Maen)

Seilir y Gyfres hon ar holi Ble? Sut? Faint? (nid atebir cwestiynau o'r fath â chytundeb.)

Ble **mae** Gwilym? Mae e yma yn y gegin.

Sut mae Mair? Mae hi'n sâl.

Sut roedd y ffarmwr yn mynd? Doedd e ddim yn cerdded.

Faint o'r gloch mae'r plant yn codi? Erbyn brechwast.

Ym mha ysgol mae Siân? Mae hi yn ysgol feithrin Rhydaman.

I ble mae'r byd yn mynd? Dw i ddim yn gwybod.

### *Ymarfer*

*I a II. Cyflwyner 'Cwestiynau llafar i'r dosbarth **am** y dosbarth.'*



## 11. DOLENNU IS-GYMALAU

(Enwol ac Ansoddeiriol)

Mae 'is-gymalau' yn hynod o hylaw wrth ateb cwestiynau gwybodaeth. Ond cyn hynny, mae angen ateb drwy frawddegau annibynnol ar wahân. Math o frawddeg ddeuol yw brawddeg is-gymalog: prif gymal + is-gymal, lle y mae un 'frawddeg' wedi dibynnu ar un arall. Mae hi fel petai dwy frawddeg wedi mynd yn un, gyda'r naill a'r llall yn cynnwys berf (neu ferfau) neu ferfenw.

### *Is-gymal Enwol*

Mae'r is-gymal (yr ail fel arfer) fel pe bai'n 'wrthrych' i ferf y prif gymal. Mae'r gwrthrych yn ymddwyn fel pe bai'n fath o enw, fel yn y brawddegau:

### *Cadarnhaol*

Dw i'n gwybod *ffaith*.

Dw i'n gwybod + <i>Mae e'n dod:</i>	<i>Dw i'n gwybod ei fod yn dod.</i> (Presennol)
Roedd e'n gwybod + <i>Roedd e'n dod:</i>	<i>Roedd e'n gwybod ei fod yn dod.</i> (Amherffaith)
Maen nhw'n gwybod + <i>Bydd hi'n braf:</i>	<i>Maen nhw'n gwybod y bydd hi'n braf.</i> (Dyfodol)
Maen nhw'n dweud + <i>Byddai hi'n braf:</i>	<i>Maen nhw'n dweud y byddai hi'n braf.</i> (Amodol)

### *Gofynnol* (cyfosod heb newid)

Dw i'n gofyn *ffaith*.

Dŷn ni'n gofyn + <i>A yw'n dod?</i>	<i>Dŷn ni'n gofyn a yw'n dod.</i>
-------------------------------------	-----------------------------------

### *Negyddol* (cyfosod)

Dych chi'n ateb + <i>Fydd e ddim yn dod:</i>	<i>Dych chi'n ateb fydd e ddim yn dod.</i>
“ + <i>Dyw e ddim yn dod:</i>	<i>Dych chi'n ateb ei fod e ddim yn dod.</i> [neu adael cyfosod fel yn y golofn o'r blaen]

### *Pwysleisiol*

Dw i'n gwybod + <i>Fe sy'n dod</i>	<i>Dw i'n gwybod mai fe sy'n dod.</i>
------------------------------------	---------------------------------------

### *Is-gynnal Ansoddeiriol*

Dw i'n disgrifio *ffaith*

Cyfosod + treigladd meddal pan fo'r hyn a ddisgrifir yn wrthrych neu'n oddrych.

Dyma'r dyn + <i>Gwelais i'r dyn:</i>	<i>Dyma'r dyn welais i.</i>
--------------------------------------	-----------------------------

Dyma'r bachgen + *Mae'n mynd i'r dre:*      *Dyma'r bachgen sy'n mynd i'r dre.*

Fe welais i'r bobl + *Maen nhw wedi dod yma yn ein lle ni:*

*Fe welais i'r bobl sy wedi dod yma yn ein lle ni.*

Dyma'r dyn + *Fe welais i'r dyn ddoe*      *Dyma'r dyn welais i ddoe.*

Dyma'r menywod + *Fe fyddan nhw'n sefyll ger yr afon:* *Dyma'r menywod fydd yn sefyll ger yr afon.*

Dyma'r menywod + *Roedden nhw'n sefyll ger yr afon:* *Dyma'r menywod oedd yn sefyll ger yr afon.*

(Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng *fod* a *sy*, a.y.b.)

(*fod* gyda chymal enwol.      *sy* a.y.b. gyda chymal ansoddeiriol.)

Dyma'r dyn + *Gwelodd y dyn fi:*      *Dyma'r dyn welodd fi.*

*Sy* + bod yn y presennol yn cyflwyno'r goddrychol yn ansodderiol: *Dyma'r dyn sy'n canu.*

Amser Presennol: 3<sup>ydd</sup> pers. unig. a lluos. – *sy* (am oddrych y cymal).

Amser Perffaith: 3<sup>ydd</sup> pers. sing. a lluos. – *sy wedi* (am oddrych y cymal).

### *Negyddu*

Dyma'r dyn + *Doedd e ddim yn gwybod:*      *Dyma'r dyn oedd ddim yn gwybod.*  
(gollwng 'd' yn 'doedd'; a gollwng 'rhagenw')

Dyma'r meddyg + *mae e'n galw yn y tŷ:*      *Dyma'r meddyg sy'n galw yn y tŷ.*

Dyma'r meddyg + *dyw e ddim yn galw yn y tŷ:*      *Dyma'r meddyg sy ddim yn galw yn y tŷ.*

Dyma'r meddyg + *roedd e'n galw:*      *Dyma'r meddyg oedd yn galw.*

Dyma'r meddyg + *doedd e ddim yn galw:*      *Dyma'r meddyg oedd ddim yn galw.*

### *Ymarfer*

Dw i'n gwybod + *Mae e'n sâl.*      *Dw i'n gwybod ei fod yn sâl.*  
+*Dyw e ddim yn sâl.*      *ei fod e ddim yn sâl.*

### ***Trowch y cymalau hyn mewn ffordd debyg, a chyfieithwch eich canlyniad:***

Roeddwn i'n gwybod + *Roedd e'n iach.*

"      + *fod e ddim yn iach.*

Dw i'n clywed      + *Fe alwodd y meddyg ddoe.*

"      + *wnaeth y meddyg ddim galw ddoe.*

Maen nhw'n dweud + Bydd e'n dod.  
 " + fydd e ddim yn dod.

*Is-gymal Adferfol (Dibynna Adferf ar Ferf a ddibynna ar Enw.)*

Dw i'n dweud **sut** mae'r (yr oedd, y bydd y) *ffaiith*.

Y cysyllteiriau mwyaf cyffredin yw

*Lle:* Eisteddodd Huw *lle'r oedd y cysgod*

*Amser:* Eisteddodd Huw *pan oedd wedi blino*.

*Amod, rheswm, modd:*

*Os oedd lle,* byddai fe'n eistedd. [Negydd: *Os nad oedd lle.*]

*Er bod lle,* doedd e ddim am eistedd. [*Er nad oedd lle.*]

*Petai lle,* byddai fe wedi eistedd. [*Pe na bai lle.*]

*Er mwyn cael lle,* fe eisteddodd e ar unwaith.

*Oherwydd bod yna le,* fe eisteddodd e. [Oherwydd *nad oedd lle.*]

*Eisteddodd* fel y byddai'n cael lle cynnar.

*Mor gyflym ag y gallai,* eisteddodd e yn ei le.

Dyma'r blychau cyfatebol:

Mae e'n dod	os	oes cyfle.	
Fe fydd yn dod	os	ydy'r cyfle ar gael.	
Roedd e'n dod	os	bydd cyfle.	
“	os	oedd cyfle.	
Dw i'n hapus	am	fy mod i'n dlawd.	
	er		
Dw i'n dod	pan	mae   cyfle ar gael.	
Fe fydda i'n dod		fydd	
Roeddwn i'n dod		oedd	

***Ymarfer***

**Lluniwch 6 brawddeg yn cynnwys y canlynol:**

*am fy mod i (because I am) fel nad yw'n gwybod y ffordd*  
*am fy mod i (because I was) pan oedd yn agos*  
*am ei fod e (because he was) pan fyddwch yn prynu rhywbeth*  
*am fod y dyn yn dod os nad oedd hi'n ddigon sych*  
*er bod y car yn fach*  
*er bod y tywydd yn wael*

**Sylwch ar y cwestiwn nesaf a'r ateb. Cyfieithwch hwy:**

*Why did the chicken cross the road?*

*The chicken crossed the road because it wanted to go to the other side.*

**Cyfieithwch y cwestiynau hyn o'r Saesneg i'r Gymraeg. Yna, atebwch bob un yn y Gymraeg:**

*Why did the old man clean the windows? Why did your daughter buy these gloves? Why did his grandfather sell his house? Why did he boil five eggs? Why did the young man grow a beard? Why did the teacher open the doors?*

**Trowch bob un o'r cyfuniadau canlynol yn frawddeg sy'n cynnwys is-gymal enwol:**

Dw i'n gwybod + Mae e'n sâl.  
Roeddwn i'n gwybod + Roedd e'n sâl.  
Maen nhw'n dweud + Fe fydd  
Dw i'n clywed + Fe alwodd y ferch ddoe.

Cyfieithwch, ac yna negyddwch y cymal isradd: (Adroddwch ddyddiau'r wythnos yn gyntaf.)

I promise that I'll be here/ in time.  
They were hoping that he was coming/ on Sunday.  
Let me say that it's next week he's going/ away.  
Let me write that he wants to come/ on Monday.  
I'm glad that the children are coming home/ tonight.  
I'm sure that he's taken the pound.  
We promise that we'll send the money/ on time.  
They told me that we'll send the money/ on time.

Cyfieithwch, ac yna negyddwch y cymal isradd.

*Is-gymal*

Dw i'n dweud sut mae'r (yr oedd y, bydd y) *ffaith*.  
*Lle*: Eisteddodd Huw *lle'r oedd y cysgod*.

*Amser: Eisteddodd Huw pan oedd wedi blino.*

*Amod, rheswm, modd: Os oedd lle, doedd e ddim am eistedd. [Negydd: Os nad oedd lle...]*

*Er bod lle, doedd e ddim am eistedd. [Er nad oedd lle...]*

*Petai lle, byddai fe wedi eistedd. [Pe na bai lle...]*

*Er mwyn cael lle, fe eisteddodd e ar unwaith...*

*Oherwydd bod lle, fe eisteddodd e. [Oherwydd nad oedd lle...]*

*Eisteddodd fel y byddai'n cael lle cynnar.*

*Mor gyflym ag y gallai, eisteddodd e yn ei le.*

**Dyna ni bellach wedi arolygu neu fwrw golwg dros holl sylfeini cyfundrefn holi-ac-ateb, sef canolbwynt dysgu iaith lafar, – holl fframwaith cwestiyna. Mae'n Gwlwm Mawr.**

## 12. DULL DRILIO

**Ar gyfer cwrs llafar cyflym a threfnus, mae techneg drilio yn arferiad i'w sefydlu'n fuan.** Ceir wrth gwrs lawer o batrymau gwahanol mewn drilio. Ond at ei gilydd, y mae'n golygu cadwyno rhediad yn ôl patrwm gosodedig, symud gyda chysylltiadau cyflym rhwng dysgwr a'r athro, a dysgwr 2; neu o ddysgwr i ddysgwr 2 gan ymateb yn syth, heb dderbyn ysgogiad uniongyrchol gan yr athro cyn belled ag sy'n bosib, yn ôl 'egwyddor', (er enghraifft, yn ôl bys pwyntiol yr athro), fel y ceisir enghreifftio. Mae'n golygu *ailadrodd* patrwm neu eirfa. Mae'n golygu *cyferbynnu* rheolaidd. Brawddegau byrion sy'n briodol fel ysgogiad llafar, a bod mor unffurf rhyngddynt a'i gilydd ag sy'n bosibl. Dywedais yn *Cyfeiriadur i'r Athro Iaith t.195*: 'Rhaid cofio y gall drilio diddiwedd fod yr un mor farwaidd â'r hen ddrilio gramadegol. Rhaid hefyd sicrhau bod y driliau yn arwain ymlaen at waith mwy creadigol a chyfathrebol.' Meddai R.L. Politzer, 'Mewn ymarferion disodlol fe newidir eitemau geiriol ond cedwir yr ystyr adeileddol, neu'r patrwm yn gyson.'

Gellir driliau dwyieithog llafar. Ond ymarfer da i'r Athro yw pendroni sut y gall dosbarth ddilyn mathau gwahanol o ddriliau heb ddefnyddio'r famiaith o gwbl. Os yw'n ddril dwyieithog effeithiol, arweinia'n fuan at gyfansoddi uniaith.

Dyma enghraifft o ddisodli elfennau syml yn hawdd ar lafar:

Yr Athro: Mae hi'n yfed coffi.

te.

Dysgwr 1: Mae hi'n yfed te.

Yr Athro: lemonêd.

Dysgwr 2: Mae hi'n yfed lemonêd.

Yr Athro: dŵr.

Dysgwr 3: Mae hi'n yfed dŵr.

Yr Athro: e.

Dysgwr 4: Mae e'n yfed dŵr.

Yr Athro: dŵr yn y bore.

Dysgwr 5: Mae e'n yfed dŵr yn y bore.

Yr Athro: te.

Dysgwr 6: Mae e'n yfed te yn y bore.

*Ar ôl sefydlu dull a phatrwm yr ymarfer hwn, dylid yn fuan ddilyn gydag ychydig eto ar yr un patrwm.*

## *Sylwadau*

Dyma ddau sylw i'r Athro fyfyrion amdanynt ynghylch egwyddor dril:

Menon a Patel: 'Prif amcan dysgu iaith ar y dechrau yw cywirdeb adeiledd yn hytrach na meistroli geirfa eang neu ei defnyddio'n rhugl.'

Lado: 'Cyn gynted ag y gall y dysgwyr ddynwared y frawddeg lafar sylfaenol, y dril mwyaf defnyddiol a mwyaf effeithiol, i ymarfer â'r patrwm, yw disodli neu gyfnewid ar lafar. Mae'n gyflym, yn amlochrog, ac yn dod yn agos at ddefnyddio'r iaith mewn ymddiddan.'

## *Dril Dwyieithog*

Dyma'r dril mwyaf adnabyddus yng Nghymru. Fe'i poblogeiddiwyd gan yr Athro Carl Dodson. Mae'n addas ar gyfer plant hŷn ac oedolion. **Mae'n manteisio ar y famiaith**, dros dro, mewn modd doeth; ac y mae'n gyflym.

Enillir y **cyflymder drwy gadw brawddegau'n gwta, a thrwy'u cadw'n debyg i'w gilydd** ym mhob rhediad agoriadol.

Fel y dywed Fries: 'Y mae gofyn ailadrodd o hyd ac o hyd frawddegau cyfan, cwestiynau ac atebion, nes eu bod yn dod yn **adweithiau awtomatig**.'

Defnydd ymwybodol neu anymwybodol o'r famiaith yw tarddiad llawer o wallau iaith. Cofio patrymau y mae eisoes yn eu gwybod y bydd y dysgwyr. Mae cyfieithu cyflym yn cyferbynnu'n barhaus y ddwy iaith, gan wynebu'r gwallau yn eu ffynhonnell – y gystrawen, yn hytrach nag osgoi hynny fel y gwna dull unieithog i raddau. Drilio *patrymau* sylfaenol yr iaith, dyna'r peth pwysicaf wrth ei dysgu: ymarfer â phatrymau drwy gyfnewid o fathau gwahanol.

**Cam 1: Cyfieithu Cyflym (Enwau gwrywaidd) Yr athro'n defnyddio'r famiaith, y dysgwyr yn glynu wrth yr iaith darged:** yr athro'n defnyddio bys tua'r atebwr –

The big book's on the floor.

The big book's here.

The large bed's here.

The distant field's there.

The nice food's on the floor.

The nice food's here today.

The nice food's there in the field.

The quiet child's there in the field.

The sick child's here in the river.

The money's on the floor.

**Cam 2: Cyfieithu Cyflym (Cwestiynau)**

Where's the book?

Where's the bed?

Where's the nice food?

Where's the quiet child?

Where's the sick child?

Is the big book on the floor?

Is the nice food in the field?

Is the quiet child there in the field?

Is the sick child here in the river?

Is the money on the floor?

**Cam 3: Cyfieithu Cyflym (Enwau benywaidd); cyfieithu dysgwr 1, ateb gan ddysgwr 2:**

Where's the dirty cat?

Where's the clean church?

Is the dirty church here?

Is the naughty girl there?

The sick sheep's in the field.

The tall woman's in the shop.

The clean woman's in the other shop.

The stone's by the tree.

The sheep's by the other tree.

**Cam 4: Estyn y nifer o siaradwyr** [Sefydлу rhyw batrwm o gyfarwyddyd i'r dosbarth fedru ateb yn ei ôl e.e. Yn y fan hon, disgwylir dau ateb *ar ffurf cwestiwn 1*. Yna, cyfieithu *cwestiwn 2*...Yna *ateb*]

Athro: Where's the cat?

Dysgwr 1: Ble mae'r gath?

Dysgwr 2: Mae'r gath yn y cae.

Athro: garden.

Dysgwr 3: Ydy'r gath yn yr ardd?

Dysgwr 4: Nac (ynganer Nag) ydy. Dyw'r gath ddim yn yr ardd.

Athro: Where's the woman?



Dysgwr 5: Ble mae'r wraig?

Dysgwr 6: Mae'r wraig yn y dre.

Dysgwr 7: Ydy'r wraig yn y wlad?

Dysgwr 8: Ydy. Mae'r wraig yn y wlad.

### 13. DULL MIM-MEM

Dull a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus gan yr *Army Specialised Training Program* yn ystod yr ail ryfel byd yw hwn. 'Dynwared a Dysgu ar gof' oedd ei hanfod; a thalfyriad oedd y term hwn o '**mimicry and memorisation.**'

Byddai rhai ar un adeg yn sylfaenu cwrs cyfan ar y dechneg hon. **Dysgid yn gyntaf frawddegau sylfaenol ar y cof drwy ddynwared ac ailadrodd.** Cesglid math o berfformiad mewn *repertoire; hynny yw, adroddid rhubanaid o sgwrs feunyddiol a ddysgid ar y cof*, gan ymledu o sgwrs i sgwrs, am bynciau pob dydd. Ceid rhesi o frawddegau neu o baragraffau tebyg i gasgliad o ymadroddion teithlyfr a werthir i ymwelwyr â gwlad tramor er mwyn dysgu ble mae'r modurdy agosaf, neu'r archfarchnad, neu'r Swyddfa Bost. Hynny yw, dysgid sgwrs barod fel parot.

Yr wyf yn gwrthod defnyddio'r dull hwn ar raddfa fawr. Ond mae yna un eithriad, ac o'm rhan i, gall hyn fod yn fuddiol. ***At ei gilydd, o ran dull (yn hytrach nag o ran cynnwys), twf patrymau yw'r asgwrn cefn i gwrs ac i sgwrs fel arfer.*** Mae'r olyniaeth a'r berthynas ddatblygol mewn cystrawennau yn hollbwysig. Estynnir o ran adeiladwaith gramadegol mewn dull llafar. Hyn sy'n arwain at ddysgu cydlynol. ***Ond gellir eithrio 'Cyfarchiad'*** – hynny yw, darn o sgwrs weddol ystrydebol, i'w ddysgu ar y cof, i ragymadroddi mewn cyfarfyddiad. Bydd rhai athrawon yn hoffi dysgu rhywbeth fel hyn o'r Wers Gyntaf un; drama fach rhwng yr athro a'r dosbarth. Ar unwaith, o'r Wers Gyntaf hyd yn oed, dyma eithrio trefn efallai. Bydd rhai tiwtoriaid yn hoffi ymarfer â defnyddio hyn fel ymarferiad ynganu, neu i 'wresogi' dosbarth bob tro. Ar unwaith, teimla dysgwyr eu bod yn defnyddio'r iaith i bwrpas cymharol realistig. Ac wrth dderbyn y dysgu-ar-y-cof a ailadroddir ar ddechrau gwrs am hanner dwsin o wersi, teimlant eu bod wedi meistroli Darn o Sgwrs 'naturiol'. Cyflwynir y Darn ar y Bwrdd Du neu ar ddalen o bapur.

I diwtoriaid eraill, anhepgor yw sefydlu dull graddedig a phatrymog yn cyflwyno dysgwyr i'r dull sylfaenol unplyg i'r cwrs, ac yng ngwers 1, y mae 'Y Graidd Frawddeg', yn fan cychwyn a rhediad potensial tecach. Sut bynnag, da yw symud ymlaen at Gyfarchiad o ryw fath (mewn 'egwyl' neu 'amrywiad gyda-llaw', ac yn rhan o'r gwaith) yn fuan. Yn wir, dro o'r blaen yng Ngwers 'Y Graidd Frawddeg' uchod, wrth sôn am nod y sefyllfaoedd geirfaol i'r holl gwrs, yr oeddwn wedi awgrymu tair ar hugain o 'Sefyllfaoedd' ar gyfer rhediad amseryddol am olyniaeth fras a go hir gydol cwrs. Enwais yn gyntaf oll Sefyllfa ddethol 1, sef *Cyfarch* ac ateb *Cyfarchiad*. Ond er bod patrwm cystrawennol bob amser yn cael blaenoriaeth ar eirfa, cyfarwyddyd bras oedd hynny, ac nid doeth yw teimlo diffyg ystwythder achlysurol a stiffwydd rhythm gwrs, heb gyfle i eithrio.

Er mwyn cychwyn ar y gwaith, bydd y Dysgwyr yn gwrandao ar yr Athro'n darllen llinell. Adeiledir fesul tamaid cwta. Drwy arwydd llaw pum bys, arwyddir bod pawb yn cydadrodd y

frawddeg: drwy bwyntio ag un bys, cyfarwyddir unigolyn. Ymhellach ymlaen yn yr olyniaeth ailadroddol, gellid dileu dwy linell gyntaf y dysgwyr, gan ddiogelu rhan yr athro. Yna, dilëer fesul cwpled nes bod y darn sgwrs oll wedi'i ddysgu fel **parot**. Hynny yw, ceisier gogwyddo tuag at amrywio '**parotrwydd**' y sgwrs.

Rhyw fath o egwyl neu eithriad yw hyn mewn rhediad cyrsiol. Anelu am dro yr ydym (fel arfer) at ystwythder amrywiaeth rhwng patrwm a phatrwm, o gyferbynnu potensial agored. Mewn gwirionedd, yn yr arolwg presennol, ni oleddfir yn llwyr at 'Mim-Mem' yn ei burdeb. Pwysleisir mwy o ran egwyddor ar batrymau iaith a'u graddio a'u gwrthymateb. Meddai'r ieithydd cymwysedig Lado 1964: 'Tuedda ymarferiad “dynwared a dysgu ar gof” i roi'r un faint o sylw i'r pethau sy'n hawdd ag a roddir i broblemau. Mae'n canolbwyntio'n ormodol ar ddysgu brawddegau neilltuol ar y cof, yn fwy nag a roddir i broblemau; ac ni cheir digon o ymdriniaeth â'r patrymau brawddegol mewn amrywiol sefyllfaoedd.' Math o foeth yn y *régime* yw cyfarch, felly.

Gellid wrth gwrs ddewis rhediad *Cyfarchiad* o sawl math. Nodaf un posibilrwydd:

*Athro: Bore da, bawb.*

*Dysgwr: Bore da.*

*Athro: Pa ddiwrnod o'r wythnos yw hi, heddiw?*

*Dysgwr: Dydd Llun, / neu Dydd Mawrth, /Dydd Mercher, /Dydd Iau, /Dydd Gwener.*

*Athro: Iawn. Sut mae'r tywydd heddiw?*

*Dysgwr: Mae'n sych. / neu Mae'n heulog hyd yn oed. neu*

*Mae'n wlyb. / neu Ac mae'n bwrw glaw bob hyn a hyn. neu*

*Rhyw dywydd di-ddim sy heddiw. Dyw hi dim yn braf nac yn wael.*

Yna, eir ymlaen â'r wers. Gwelir bod elfen o ddewis yn yr atebion 'parot', ac awgrymir disgwyl unigolion i ateb drwy'r rheini. Ymhen hanner dwsin o wersi, estynnir yr ymddiddan hwn.

*Athro: Sut ydych chi heddiw?*

*Dysgwr: Dw i'n teimlo'n flinedig. neu Dw i'n teimlo'n llawn bywyd. neu Eitha da, diolch.*

*Athro: A gawsoch chi noson dda o gwsg?... Ble dych chi'n byw?*

*Dysgwr: Dw i'n byw yn y dre/ pentre. neu Dw i'n byw y tu allan i'r dre./pentre.*

*Athro: Beth amdanoch chi?*

Yna, ymlaen â'r wers drachefn. Math o ymarferiad drwy sgwrs gyffredin iawn yw hyn. Ond ymhen hanner dwsin o droeon cyffelyb, gellid estyn yr ymddiddan eto:

*Athro: Ble gawsoch chi'ch geni?*

*Dysgwr: Ces i ngeni yn Abertawe? Aberystwyth? ac yn y blaen.*

Cyfle yw hyn weithiau ar gyfer Treigladd Trwynol fel y'i trafodwyd yn 6. CWLWM I WERSI 'YN'.

## 14. GWERSI RHIFO A DWEUD YR AMSER

Mae gennym ddau ddull o rifo yn y Gymraeg. Mae'r naill yn draddodiadol: un-ar-ddeg, deuddeg, tri-ar-ddeg, pedwar-ar-ddeg, pymtheg a.y.b. Mae'r llall yn gymharol ddiweddar, er nad mor ddiweddar ag y tybia rhai. Tyfodd yr ail yn braff wrth ddysgu Mathemateg mewn ysgolion, ac wrth gyhoeddi rhifau emynau mewn capel: dau gant pedwar deg ac un. Dyma'r 'dull degol'.

Fel polisi nid wyf yn pleidio arfer amrywebu ffurfiau all-raddedig (h.y. tu allan i ddatblygiad rheolaidd) i ddysgwyr mewn cyfnod cynnar, megis er enghraifft rhai tafodieithol, o leiaf nes cyrraedd gradd uchel iawn efallai yn y cwrs. Ond dyma eithriad. Mae'r dull 'hen ffasiwn o rifo' ar gyfer amser yn dal mor ddwfn gynhenid a chyffredin nes bod priodoldeb y dull yn gorfodi cyflwyniad cynnar ar gyfer 'un-ar-ddeg' a 'deuddeg'. Ar gyfer rhifo cyffredin, cyflwynir y dull degol mewn rhifydddeg yn ymarferoldeb ysgol (wrth ddysgu Mathemateg yn ffurfiol), a chan bobl yn gyffredinol bellach, yn fwyfwy arferol, sef undeg un, undeg dau, ac yn y blaen.

Yn wahanol i ddysgu iaith gyffredin, gellid dysgu rhifydddeg hefyd o fewn cyd-destun dysgu ail iaith. Dyma ymarferiad ieithyddol sy'n wahanol i bopeth arall. Ymddengys yn fwy defnyddiol neu ymarferol. Nid yw'n dibynnu llawer ar ddatblygiad brawddegol. Ac erys yr angen mewn ffordd wahanol, wrth ei wneud, am y dull holi-ac-ateb.

### RHIFYDDIAETH

**Llafar:** elfen bwysig yn y wers fydd cyflwyno Treigladd Llaes ar ôl 'a' , efallai am y tro cyntaf. Dysgir y rhifau'n syml, dyweder hyd at ddau-ddeg.

Adio syml: un a thri, un a phump, chwech a chwech, naw a phedwar.

Yna, ymestyn yn ôl y dull degol, ar ôl 20 hyd 100 = 11 + 15, 13 + 8, 9 + 16, 7 + 26, ymlaen hyd at 100.

Trafod yr amrywio her o broblem i broblem.

**Tynnu** (*Subtract*). Gellid rhannu'r dosbarth yn dîmau. Defnyddio sefyllfa arian.

Sylwer, gyda rhifau, mai'r enw unigol sydd yn rheolaidd ar ôl rhif, lle y bydd y lluosog yn rheolaidd yn Saesneg. e.e. chwe diwrnod, pum bachgen. Sylwer chwe, nid chwech o flaen enw. Pum nid pump o flaen enw.

Gellir defnyddio gydag gwrthrychau, gan gyflwyno gwrywaidd a benywaidd: dau afal, dwy beren, tair, pedair.

O flaen enw, defnyddir *pum*, *chwe*, *can*: pum afal, pump o afalau; pum dyn, pump o ddyinion; chwe afal, chwech o afalau; chwe dyn, chwech o ddyinion; can erw; tri chan ceiniog; can punt; ond cant o ddyinion, cant o geiniogau.

Gyda blwydd, blynedd, mae pum, can, yn treiglo ambell enw: e.e. pum mlynedd, pum mlwydd (oed); pum niwrnod; can mlwydd (oed); chwe blwydd oed, neu chwech oed.

#### DWEUD YR AMSER

Gall cyfarpar fod yn ddefnyddiol: cloc iawn neu gloc carbord y gellir symud ei fysedd. Dyma'r lle y mae'r dull traddodiadol (un ar ddeg, deuddeg) wedi aros yn weddol gyndyn.

Rhoi treigladd meddal ar y bwrdd ar gyfer 'i' o flaen pen yr awr; tynnu sylw at hyn.

Dysgu 'ar yr awr /wedi'r awr / cyn yr awr: mae'n ddau funud wedi un; mae'n chwarter wedi pump, mae'n hanner awr wedi pump; mae'n chwarter i ddau; mae'n bum munud i chwech; mae'n bedwar munud i ddeg.'

Holi ac ateb: 'Faint o'r gloch yw hi? Mae'n ddau o'r gloch. Mae'n un ar ddeg o'r gloch.'

Gyda phlant gellir chwarae 'Faint o'r gloch yw hi, Mr Blaidd? 'Un o'r gloch'. 'Chwarter i dri'.

Ac yna yn sydyn, etyb y dysgwr sy'n actio Mr Blaidd: 'Amser cinio'. A rhed ef/hi ar ôl y dysgwyr eraill, a dal un.

#### DWEUD Y DYDDIAD

Dysgu enwau'r misoedd: Ionawr, Chwefror, Mawrth, Ebrill, a.y.b..

Cyflwyno'r trefnolion: cynta, ail, trydydd, pedwerydd.

[cyfieithu] January the second a.y.b.

Corffori holiad am y dyddiad yn y Cyfarchiad beunyddiol agoriadol i'r Wers, fel rhan o'r rhediad rheolaidd.

[Nodyn: dyma'r pryd y cyfyd un o'r problemau mwyaf mewn iaith lafar ysgrifenedig: ai 'cynta' neu 'cyntaf'/ Ai 'gwela' neu 'gwelaf'? Bûm innau'n gwamalu, am flynyddoedd ansicr. Dyfynnaf Syr Ifor Williams (*Meddwn i*, 56): 'Collwyd ers canrifoedd *f* ar ddiwedd geiriau: ceir *arna* i, mi *gana* i, yn lle *arnaf fi*, mi *ganaf fi*.

'Sylwch fel y mae Ellis Wynne yn rhoi'r ffurfiau llafar hyn yn ei ymddiddanion. Bardd ac Angel yn colli'r *f* fel y lleill ohonom! Siawns na ddylai siarad Cymraeg fel Angel fod o safon ddigon uchel.'

Cofier y ferf 'bod' yn y cyd-destun hwn yn colli 'f': *dw i*.

Gobeithio, pan ddaw *Canolfan Ymchwil Genedlaethol*, y ceir dewrder, sicrwydd, a chydweithrediad cenedlaethol ... a goddefgarwch, er mwyn ymwared â diffyg sefydlogrwydd y cywair dysgu o leiaf.

Estyn y trefnolion, pumed, chweched, seithfed, wythfed; a'r misoedd, May, June, July, August.

Cyfieithu llafar, ac ymlaen tan y diwedd. Pa ddyddiad yw hi heddiw?

Awgrymir dilyn y dull degol ar ôl 10, a nodi'r dyddiad ar ôl y degfed fel hyn, e.e Ionawr y degfed: Ionawr undeg un; Ionawr undeg dau. Wrth ymarfer yn y dosbarth, gall fod yn ddefnyddiol cael

Calendr, sy'n troi drosodd o fis i fis, a phwyntio at rif o'r naill i'r llall.

*Nodyn ar arwyddocâd y Wers: dysgu gwybodaeth drwy ail iaith*

Mae rhifo, yn arbennig wrth ddysgu'r dull degol yn arwain at feddwl am rifyddiaeth fel pwnc y gellir ei dysgu i bawb yn yr ail iaith yn gynnar.

Er pan welais yr athro Moelwyn Preece ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf yn dysgu ail iaith mewn Ysgol Uwchradd Fodern Saesneg yng Nghymer Afan, fe gefais olwg newydd ar y pwnc. Yr hyn a wnâi ef oedd defnyddio'r iaith darged a'r Wers Gymraeg yn gyfrwng i ddysgu gwersi am bob math o wybodaeth, daearyddiaeth, hanes, mathemateg, newyddion y dydd, natur, a.y.b. A hynny o'r cyfnod cynharaf. Dilyn yr oedd ef ei fentor Gwyn Daniel yn Nociau Caerdydd. Cyhoeddwyd amryw o wersi gan Moelwyn yn yr *Athro* VI, IX, XIII, XIV, XV. Cyhoeddodd Gwyn ei arbroffion mewn llyfryn *Daearyddiaeth i Blant*. Datblygiad ydoedd o'r Dull Union, ac y mae gennyf bennod ar y Dull Unieithog hwn yn *Cyflwyno'r Gymraeg, 1964*. Fe'i sylfaenir ar yr egwyddor – **os yw iaith yn cael ei defnyddio i gyfathrebu ac i roi gwybodaeth, yna dylid manteisio ar yr amgylchfyd hwn i gorffori diddordeb diwylliannol a defnyddiol o fewn gwers ail iaith**. Dw i'n cofio galw yn Ysgol y Cymer tua 1960 i wylid Moelwyn yn dysgu gwersi am Dywydd y Byd, Ras Rhwyfo Caergrawnt a Rhydychen, Hanes y Rhufeiniaid yng Nghymru, a Hedd Wyn. Dywedodd y Prifathro wrthyf fod Arolygwyr y Wladwriaeth wedi galw ac wedi dweud wrtho ef: 'Mae'r dyn yn rhyfeddod. Mae'n dysgu popeth drwy'r ail iaith. Mae'n rhaid i chi roi cyfrifoldeb iddo am ddysgu'r Gymraeg drwy'r ysgol i gyd, ac nid ei gyfyngu i un dosbarth yn unig ; a hefyd gynyddu'r oriau i'r Gymraeg.' A hynny a welais i pan elwais yno. Un o brofiadau mawr fy mywyd fel athro fu teithio mewn cerbyd trên gyda Moelwyn (a phedwar athro Cymraeg arall ar ôl bod mewn pwyllgor), a dyma Moelwyn yn sefyll yn sydyn ar ei draed, ac yn dweud yn ei gywair bonheddig, 'O'r gorau, blant, dŷn ni'n mynd i gael gwers ar y Porthmyn.' Ac aeth ymlaen, gan holi ac ateb, yn hwyliog braf, a ninnau oll ar y diwedd yn diolch o'r galon iddo, wedi'n hysbrydoli gan ei hudoliaeth. Ces i wers gan diwtor arall nid annhebyg dro arall mewn trên, sef gan Norah Isaac, ar y ffordd o Gaerfyrddin i Amwythig ar gyfer pwyllgor. Ni chafwyd gwell defnydd trên erioed na'r troeon yna. Gweler a hyrwydder YMARFER CYFIEITHU LLAFAR II a III uchod, ynghlwm wrth estyn dysgu pynciol.

*Nodyn arall*

Awgrymaf na ddylid cyflwyno'r ddau ddull o rifo gyda'i gilydd ar y dechrau. Meistroler un cyn mynd at y llall. Ac felly hefyd gyda'r holl amrywebau: e.e. cyflwyno cywair llafar/llenyddol, iaith safonol/iaith dafodieithol.

## 15. GWERSI NEGYDDU

Yn yr arolwg hwnnw, sy'n bynciol o ran olyniaeth rydd ond sy'n cymeradwyo bod yn drefnol weddol gaeth yn ôl dilyniant cronolegol yn nhyfiant y gwersi, ceir pennod 5. 'DOLENNU GWERSI TREIGLO' oedd y tro cyntaf inni grybwyll negyddu yn benodol. Daeth i'r golwg yno mewn blwch wrth negyddu BOD, a dyma'r math o frawddegau a gawsom ni:

*Dyw'r car ddim yn frwnt.*

*Dyw'r plentyn ddim yn fawr.*

*Dyw'r ferch ddim yn gadael nawr.*

*Dyw'r ddafad ddim wedi gweld y garreg.*

Fe sylwa'r athro mai '*Dyw* e ddim' sydd bellach wedi ennill ei le, – ac nid y '*Dydy* e ddim' a ddefnyddid o'r blaen mewn Cymraeg Llafar Safonol. Dyma ran o'r datblygu er lles. Dylem fod yn barod i ymddiwgyio bob amser.

Yr ail dro inni sylwi ar negyddu oedd '8.DOLENNU GWERSI AR FERFAU CYNORTHWYOL'. Fe'i cyflwynwyd gyda'r berfau cynorthwyol 'Gwneud' a 'Cael':

Wnes i *ddim* agor y drws. Na ddo.

Wnes i *ddim* cau'r drws chwaith. Na ddo.

Na chaiff. Chaiff e *ddim* dangos ei law i chi.

Na wna. Wna i *ddim* dîbynnu arno fe am help.

Na wnawn. Wnawn ni *ddim* ceisio gwneud y gwaith yma heddiw. [Ond: Wnawn ni byth geisio gwneud]

Ac yn y blaen.

Mae'r ddau faes – Y FERF 'BOD' a BERFAU CYNORTHWYOL – yn ddigon gwahanol i'w trafod yn gyferbyniol yn gyntaf. Ond yn awr o dan y pennawd NEGYDDU, eu hadolygu gyda'i gilydd a wnawn gan sylwi ar leoliad y treigladau.

Mae'r dull Cymraeg o negyddu brawddegau yn haeddu sylw penodol mewn rhai patrymau ymadroddol:

Cymharer Dim â Neb: All *neb* ddweud. All e *ddim* dweud. Mae cyferbynnu yn orfodol. O ran safle yn rhediad cwrs, mae'r cyferbyniad hwn yn siŵr o ddigwydd yn weddol gynnar.

*Oes/Dyw* Does dim papur yma. *Dyw'r* papur ddim yma.

*Dw i, rwyt ti, a.y.b.* Dw i'n rhedeg. Dw i ddim yn rhedeg.

Rwyt ti'n rhedeg. Dwyt ti ddim yn rhedeg.

Dyw e ddim, dŷn ni ddim, dych chi ddim, dŷn nhw ddim.

Mae e'n dweud dyw e ddim yn dod.

*Atrefnu brawddeg yn bwysleisiol (Nid, nad):*

Nid fe sy'n dod. Mae'n dweud nad fe sy'n dod.

*Ymarfer: troi o'r dibwyslais i'r pwysleisiol:*

Dyw'r car ddim wrth y drws./ Nid y car sy wrth y drws.

Dyw'r plentyn ddim yn agor y drws. Nid y plentyn sy'n agor y drws.

*Mo, mohono (< ddim o, ddim ohono)*

Welais i mo'r dyn. Wnes i ddim gweld y dyn.

Welais i mohono. Wnes i ddim ei weld. Chlywson ni ddim o'r rhaglen.

Gyda'r amser 'gorffennol' negyddol, cyflwynir y gwrthrych pendant â 'mo' neu 'ddim o'.

e.e. Chlywodd Pedr ddim o'r dyn neithiwr.

Gyda goddrych negyddol enwol, ni threiglir 'dim'.

e.e. Does dim o'r pethau wedi cyrraedd eto. Dyw'r pethau ddim wedi cyrraedd eto.

*Negyddu'r Berfenw*

(i) *Peidio â (ag)*

Mae'n well iddo beidio â mynd. [Erbyn hyn, *peidio* a ddefnyddir gyda gorchymyn, 'peidiwch â mynd' yn hytrach na'r hynafol 'nac eler'.]

(ii) *Heb*

Mae heb gyrraedd eto.

(iii) *Negyddu arferol*

Dyw e ddim wedi dod.

*Ymarferiad*

Trowch y brawddegau canlynol o'r cadarnhaol i'r negyddol; ac yna, cyfieithwch hwy i'r Saesneg.

e.e. Roedd Pedr yn chwarae ar ddydd Mercher. > Doedd Pedr ddim yn chwarae ar ddydd Mercher.

Mae Pedr yn cael gwers yma.

Fe fydd Pedr yn dod gyda Mair.

Fe astudiodd Pedr y Gymraeg.



Roedd Pedr wedi mynd i'r capel.  
Mae Pedr am wrando ar y rhaglen nos yfory.  
Fe fydd Pedr yn rhoi'r ddrama i'w gyfaill.  
Fe ddysgodd Pedr y cwbl.  
Roedd Pedr yn gwyllo'r frwydr ar nos Sadwrn.  
Mae Pedr yn cynllunio'r gwaith yn y stiwdio.  
Fe fydd Pedr yn darlledu gydag Aneirin.  
Fe sgrifennodd Pedr y cwbl.

Atebwch y cwestiynau hyn â brawddegau esboniadol neu â gwybodaeth yn negyddol (nid ag atebion ar ffurf cytundeb nac anghytundeb).

e.e. Ble mae e? Dyw e ddim yma.  
Pa iaith maen nhw'n ei siarad?  
Beth maen nhw'n ei yfed?  
Ble roedden nhw wedi cuddio'r cwpanau?  
Welsoch chi'r peintiwr ar ben yr ysgol?  
Ai acw roedd e'n eistedd yn ystod y wers?  
Glywsoch chi'r rhaglen ar y radio?  
Aeth Pedr i'r ffatri neithiwr?  
Ydych chi'n athro?

*Cyfieithwch eich atebion i'r Saesneg.*

*Gwedd ar Negyddu (yn ddiweddarach): Rhagddodiaid Ansoddeiriau Negyddol: an-; am-; af-; di-*

an- annoeth (doeth)	anweddus (gweddus)
am- amhur (pur)	amarch (parch)
af- aflwydd (llwydd)	aflan (glân)
di- dibwys (pwys)	

*Rhagddodiaid Berfenw Negyddol*

dad- dadwneud (gwneud)	dadorchuddio (gorchuddio)
gwrth- gwrthdystio (tystio)	gwrthwynebu (wynebu)

## 16. DYSGU LLUOSOG ENWAU

A oes angen gwers arbennig ar Luosog Enwau?

Nac oes, ddim nes cyrraedd lefel debyg i ddysgu Cenedl Enwau, ac mewn sesiwn adolygu aeddfed felly. Pan gyrrhaeddir gorsaf o'r fath, gall ffurfioli ambell reol fod yn ffordd daclus o gasglu gwybodaeth at ei gilydd. Tan hynny, gellir cyfeirio at y lluosog sy'n digwydd ar y pryd mewn gwersi, heb ganolbwyntio ar y gyfundrefn gron. Ymddengys yn wedd mor ddiniwed syml ar iaith.

Diddorol i'r athro (neu'r paratöwr neu'r graddiwr) o ran cefndir yw sylwi, er bod saith brif ffordd o luosogi enwau yn y Gymraeg, nad oes ond *dwy* egwyddor sylfaenol, ac erbyn dysgu bydd y dosbarth wedi dod yn gyfarwydd â chwech o'r prif ffyrdd ac â nifer o enghreifftiau.

Gall cofio'r *ddwy* egwyddor hyn hwyluso dysgu'r saith. Dyma'r ddwy:

**newid llafariad, ac**

**ychwanegu, colli, neu newid terfyniad.**

Dyma'r saith ffordd wedi eu dosbarthu'n bedair ar sail y ddwy egwyddor – newid llafariad mewnol a newid terfyniad (a chyfuno'r ddau):

NEWID LLAFARIAD,

e.e. ffordd > ffyrdd; brân, brain; dafad, defaid; llygad, llygaid; bachgen, bechgyn.

YCHWANEGU TERFYNIAD,

Y terfyniad mwyaf cyffredin yw -au e.e. afal, afalau; pen, pennau; trwyn, trwynau; ceg, cegau; llyfr, llyfrau; llong, llongau. Ceir terfyniadau eraill megis e.e. -iau, -ion, -i, -ydd, -oedd, -iaid, -od.

YCHWANEGU TERFYNIAD A NEWID LLAFARIAD,

e.e. bwrdd>byrddau; mab>meibion; gardd>gerddi; gwlad>gwledydd; cadair>cadeiriau; drws>drysau.

COLLI TERFYNIAD, [Cymharol brin ei ddefnydd]

e.e. seren>sêr; mochyn>moch; llygoden>llygod.

COLLI TERFYNIAD A NEWID LLAFARIAD, [Prinnach byth]

e.e. plentyn>plant; deilen>dail; blodeuyn>blodau.

NEWID TERFYNIAD [Prin iawn ei ddefnydd]

e.e. cwningen>cwningod.

## NEWID TERFYNIAD A NEWID LLAFARIAD [Prinnach byth]

e.e. miaren>mieri.

[Ceir ambell luosog yn fwy unigolyddol wedyn.]

### *Sylwadau ar eu defnydd*

Mae Saesneg yn disgwyl i **ferf** fod yn wahanol gydag **enw** lluosog, ond yn Gymraeg defnyddir 3ydd person **unigol** y ferf gydag enw unigol neu enw **lluosog**:

e.e. Mae'r ferch yn gweithio – The girl's working.

Mae'r merched yn gweithio – The girls *are* working.

Yn y cywair llenyddol, mae'r lluosog rhagenwol (3ydd person) mewn is-gymal negyddol yn cadw'r lluosog; ond erbyn hyn, mewn Cymraeg Llafar Safonol mae hi wedi ymsefydlu'n weddol gyffredin yn yr unigol: e.e *Cymraeg Llenyddol*: Hwy yw'r bechgyn a glywodd y newydd.

Hwy yw'r bechgyn na chlywsant y newydd.

*Cymraeg Llafar Safonol*: Nhw yw'r bechgyn glywodd y newydd.

Nhw yw'r bechgyn chlywodd ddim o'r newydd.

Gyda rhai terfyniadau, ceir tuedd i'w defnyddio yn ôl ystyr:

-ion (-on): yn fynych gyda phersonau er nad bob amser: dynion, meibion, gweision, wyrion, esgobion, gwesteion, cantorion, Cristnogion, meddygon, Saeson, Iddewon.

-od: yn fynych gydag anifeiliaid: llew, llewod; cath, cathod; colomen, colomennod;

weithiau gyda phersonau: Gwyddel, Gwyddelod; geneth, genethod; baban, babanod.

Dyna arolwg bras, yn gefndir neu'n sylfaen i ystyried 'addasrwydd' yng nghwrs y paratöwr.

### **Ymarfer**

Casglwch nifer o enwau, a ddysgasoch am fywyd y cartref, y dref, a'r wlad: nodwch eu ffurfiau lluosog, a rhowch hwy mewn grwpiau tebyg i'r rhai a ddysgasoch hyd yn hyn.

### *Lluosogi*

Rhowch luosog y geiriau hyn: cartref, castell, iaith, llawr, cneuen, diferyn, gwynt, bys, nyth, maneg, cwch, gwas, blew, deilen, cwningen, bore, bwyd.

Rhowch unigol y geiriau hyn; chwirydd, brenhinoedd, meysydd, tymhestloedd, ychen, deri, athrawon.

## 17. GWERSI CENEDL ENWAU

Mewn llawer iawn o ieithoedd Ewropeaidd, ceir cenedl i enwau, megis gwrywaidd a benyw (weithiau ceir mwy na dwy genedl mewn iaith). Ni ddigwydd hyn ar gyfer pethau byw a thyfiannol yn unig, ond hefyd ar gyfer pethau difyw. I ddysgwr, poendod mawr yw hyn yn aml.

Mae Cenedl Enwau yn y Gymraeg yn hynod anodd i'w dysgu, yn enwedig am bethau sydd heb fod yn anifeiliaid. Dyma'r rheswm pam y neilltuwyd hyn i bennod benodol. Ac er mwyn i ddysgwr eu meistrolï, y mae pob cymorth, hyd yn oed y lleiaf, yn gallu bod yn helpfawr.

**Drwy arferiad yn bennaf y dysgir cenedl enwau mewn amgylchfyd Cymraeg ei iaith. Arferir treiglo enw benywaidd yn feddal ar ôl y fannod; ansoddair ar ôl enw benywaidd; ac enwau benywaidd ar ôl 'un'** (ac eithrio rhai'n dechrau ag 'll' neu 'rh' – un llong, un rhaff). Felly y dysg plant genedl enwau ar ôl mynych arfer drwy glywed yr arwyddion hyn. Yn y Gymraeg, mae'r genedl felly'n dilyn rhaniad 'rhyw' wrth gwrs ar gyfer pobl ac anifeiliaid: gŵr, brawd, ceffyl; gwraig, chwaer, caseg; ond yn 'ddiryw', gwahaniaethir gyda phethau – e.e. gwr. yw cenedl 'byd, tŷ, bwrdd'; ond ben. yw cenedl 'daear, desg, bord'. Anodd yw dysgu hyn yn fynych i berson sy'n dod yn 'ddiweddar' i ennill yr iaith, ac adnabod enwau 'diryw', ai gwr. ynteu ben. yw'u cenedl. Bydd eisïau 'dysgu a phrofi' yn gyson.

DOSRANIAD AMSER A LLE: ceir rhai rhaniadau bras yn ôl egwyddorion ystyr a sain.

### LLE – BENYWAIDD

A yw'r rhaniad canlynol yn gymorth os cyfyngedig? –

Enwau lleoedd yn fenywaidd: gwlad, ardal, bro, tre, llan, caer; Cymru, yr Almaen, Llŷn, Llandysul, Treffynnon, Caerffili, Ynys Llanddwyn, Enlli, Echni; Mynyddoedd unigol – yr Wyddfa, Carnedd Llywelyn (ond nid y geiriau 'bryn' a mynydd'), y Foel.

Cysylltiedig ag iaith, tafodiaith, Saesneg, Dyfedeg; llythyren, cytsain, llafariad. (ond math o iaith: Cymraeg da – eithriad sy'n arbenigol am y tro).

Coeden, a math o goed: derwen, bedwen, ffawydden, (ond pren yn wrywaidd).

### AMSER – GWRYWAIDD

Mae amryw o'r cyfnodau pwysicaf yn y dosbarth hwn: *tymor* – gwanwyn, gaeaf; *mis* – Ionawr, hydref; *dydd* : diwrnod, Llun (ond nid *gŵyl* na *nos*).

Mae'r berfenwau i gyd yn wrywaidd: brwydro, canu.

Gwêl J.Morris-Jones fod defnyddiau neu sylweddau yn wrywaidd: enwa ef aur, arian, haearn, pres, efydd, pren, derw, ffawydd, glo, maen, pridd, calch, clai, tail, gwair, gwellt, yd, bwyd, bara, cig,

gwaed, gwin, cwrw, dŵr, gwydr, lledr, lliain, sidan, glaw, eira, a.y.b.. Mae'n swnio'n weddol argyhoeddiadol, yn syndod felly mewn gwirionedd. Ond nid yw'n ymddangos yn ddigon dibynnol i fod yn rheol gyson (gydag eithriadau), ar gyfer dysgwyr. Rhyfedd mai gwrywaidd yw halen. Fe atgyfnerthir awgrym J.Morris Jones, mae'n wir, gan enwau benthyc cemegol. I mi, mae'n ddiddorol mai benywaidd yw ffawydden, ond gwrywaidd yw ffawydd (daeth y gogwydd gwrywaidd unigol hwn, efallai, o'r duedd mewn manau i ddefnyddio 'ffawydd' fel lluosog).

## DOSRANIAD SAIN – Y TERFYNIADAU GWRYWAIDD

Rhaid bod yn fwy gofalus wrth chwilio am gymorth pellach i wahaniaethu ar sail rhai terfyniadau, er y gallent fod yn helpfawr mewn dyrnaid o enghreifftiau.

**Mae 'y' yn y terfyniad yn fynych yn wrywaidd ac yn cyferbynnu ag 'e' yn fenywaidd:** Gwyn, Gwen. Felly:

**-yd** (gwrywaidd): bywyd, ysbryd, iechyd, adfyd, byd, bywyd, hyd, yd (ond ceir llawer o eithriadau: celfyddyd, ergyd, dedfryd, rhyd; ac yn sicr, fel y gwelir yn fuan yn achosion -edd, -er, -deb, nid yw 'e' yn elfen fenywaidd ddibynnol o bell ffordd). Bydd eisiau ymatal rhag rhoi rheol; ymddengys i mi yn rhy afreolaidd. Fy nghyngor i yw mai 'rheol' gymharol ddiwerth yw.

**-yn** (gwrywaidd): aderyn, bathodyn, blewyn, diferyn, bryncyn, llecyn, abwydyn, aderyn, adyn, bathodyn, blaguryn, blodeuyn, blewyn, bonyn, brethyn, bryn. (eithriad: blwyddyn). Ymddengys yn werth rhoi rheol betrus i hyn.

Sylwer hefyd ar y gytsain 'd':

**-ad** (gwrywaidd) argyhoeddiad, bygythiad, glanhad, bad, adeilad, adferiad, adfywiad, adolygiad, agoriad, arddodiad, benthyciad, brad (mae un -ad ym mhob cant yn fenywaidd).

**-id** (gwrywaidd): ieuencid, newid (yr unig eithriad o bwys yw 'addewid').

**-dod** (gwrywaidd): annibendod, cybydd-dod.

Dyma arferiad gwerth ei grybwyll, gyda rhybudd. Mae d- yn *nechrau'r* terfyniad hefyd yn wrywaidd e.e. **-deb**: cywirdeb, uniondeb, duwioldeb. Mae yn bwysig wrth gofio' cyferbyniad uchod rhwng 'y' ac 'e': undeb, absenoldeb, anghytundeb, anghywirdeb, amhurdeb, bodlondeb, cenedlaetholdeb.[Ni allaf feddwl ond am *cyllideb* yn eithriad i wryweidd-dra *-deb*; ac mewn gwirionedd, y rheswm yw mai -eb yw'r terfyniad, cyllid+eb, ac y mae 'cyllid' yn fenywaidd. Na chymysger -deb ag -eb].

**Sylwer ar 'd' gwrywaidd ar ddechrau'r terfyniad -der**: yn poethder, blinder, anghyfiawnder, amllder, anhwylder, hyder, cyflawnder, cyflymder, cyfyngder; felly hefyd **-did**: glendid; dra-

glanweithdra, ffeidd-dra; dwr-: cryfdwr.

Gellid meddwl am '-der' er hynny yng nghyd-destun **-er** gwrywaidd; ond mae gormod o enwau benywaidd pwysig yn gorffen ag *-er* i wneud hyn yn 'wrywaidd naturiol' fel baner, tymer, doler, siwmpwr.

Gellid dweud bod yna grŵp cadarn yn gorffen ag 'r' hyd yn oed:

**-er** (gwrywaidd) ager, yn arbennig gyda 'd': cyfiawnder, blinder, anghyfiawnder, amllder, anhwylder, hyder, cyflawnder, cyflymder, cyfyngder).

**-or** (gwrywaidd): brodor, blaenor.

**-ur** (gwrywaidd): papur, pechadur.

**-wr** (gwrywaidd): gweithiwr, gofalwr, (fel arfer ar gyfer pobl, yn gyson: eithriad hŵr) dŵr, stŵr, fflŵr, tŵr, cyflwr, ffwr, pentwr.

[**Gwrywaidd mewn terfyniad yw presenoldeb 'r' fel arfer**, hyd yn oed yn nechrau'r terfyniad:

**-tra** (gwrywaidd): diweithdra, gweddustra.

**-rwydd** (gwrywaidd): symlrwydd, trefnusrwydd, enbydrwydd, aeddfedrwydd, agosatrwydd, arwydd, bodlonrwydd, caredigrwydd, enwogrwydd, newydd.]

A chrybwyllir rhai terfyniadau eraill: yng nghyd-destun '-e' benywaidd er enghraifft:

**-edd** (gwrywaidd): amynedd, anabled, anhunedd, anwiredd, aruthredd, bedd, atgasedd, cabledd, diwedd, cyfartaledd, gwagedd.

Mae 'w' yn llafariad arwyddocaol. Gwelsom -wr eisoes yn wrywaidd. Gellid ychwanegu:

**-wm** (gwrywaidd): afreswm, bacteriwm, botwm, bwrlwm, clwm, codwm, cwm, cwthwm, drwm, gorthrwm, incwm.

**-wch** (gwrywaidd): tywyllwch, heddwch, anialwch, tegwch, blwch, cenedlgarwch, llwch, peswch, harddwch. (eithriadau: hwch, swch)

[Mae'r rhan fwyaf o enwau lle y mae'r sillaf yn *w* seml yn wrywaidd. cf. **w-** gwrywaidd, **o-** benywaidd (cf. 'trwm, trom') Ond meddai J. Morris-Jones, 'exceptions are so numerous that the rule is of no practical value.' Mae hynny'n wir; ond gyda rhai sillafau a ddilyniir gan gytseiniaid, y maent yn weddol gyson, a hyd yn oed yn gyson iawn.]

**-wn** (gwrywaidd): bacwn, basŵn, biliwn, bwn, cwestiwn, defosiwn, dimensiwn, dwthwn, emosiwn, memrwn, opiniwn, pafiliwn (eithriad: ffasiwn, ffortiwn, sesiwn). Gellid crybwyll, ond gyda rhybudd mawr.

**-wrch** (gwrywaidd): ffwrch, iwrch, twrch.

**-wrdd** (gwrywaidd): bwrdd, cwpwrdd, dadwrdd, bwrdd, tabwrdd.

**-wrf** (gwrywaidd): twrf, cynnwrf.

**-wrn:** (gwrywaidd): arddwrn, asgwrn, dwrn, migwrn, siswrn (eithriad: ffwrn)

**-ws:** (gwrywaidd): bonws, calcwlws, clustlws, corpws, drws, firws, tlws.

**-wst:** (gwrywaidd): crwst, dwst, ffrwst, trwst.

Rywsut, y mae yna ryw deimlad ynglŷn â'r seiniau sy'n ddiddorol a dweud y lleiaf. A rhaid bod yr ymdeimlad hwnnw'n tyfu ym mêt esgyrn y siaradwr Cymraeg.

Rhaid oedd wynebu'r broblem hon o genedl enwau, am ei bod mor heriol.

Yr wyf wedi'u cyflwyno fel yna, gydag elfen o ailadrodd grwpïol fel y bydd y darlennydd yn 'teimlo' bod yna ryw synhwyro gwryweidd-dra yn gallu digwydd. Mae yna rai seiniau sy fel petaent wedi gogwyddo'n ormodol tuag at wryweidd-dra cymharol reolaidd mewn hanes iddynt fod yn ddamweiniol. Yn wir, fe ddywedwn i fod athrylith yr iaith fel pe bai wedi symud rywfaint tuag at benderfynu cenedl yn ôl natur y terfyniad – a oedd yn wir yn y Frythoneg hefyd, mae'n bosib. Ond oherwydd yr amrywiaeth helaeth wahanol mewn terfyniadau geiriol, ni lwyddodd yr iaith i sefydlu ond rhai diweddebau cyson y gellid arfer â'u clywed hwy. *At ei gilydd, lôn gaead yw i athro cwrs.*

Yn achos rhai terfyniadau eraill, y peryg yw eu cymeradwyo fel pwynt dysgu:

**-i** (gwrywaidd): tlodi, anfri, asbri, ci, bryntni, kalori, cenlli, cloffni, coegni, coffi, copi, crygni, glesni, drygioni. (gormod o eithriadau i fod o werth: cri, festri, ffansi, ffatri, ffi, ffei, gweddi, gwenci, jiwibili, lori.)

**-iant:** (gwrywaidd): mwyniant, adloniant, aflwyddiant, amrant, arwerthiant, cant, diwylliant, diwydiant. (gyda nifer o eithriadau: nant, gwylmabsant, rhamant, siant, ffolant.) Prin y gellir ei gymeradwyo.

## BENYWAIDD

Nid yw'r terfyniadau go fenywaidd mor niferus o bell ffordd â'r rhai gwrywaidd wrth ogwyddo'n derfyniadol tuag arferiad gwahaniaethu rheolaidd:

**aeth** (benywaidd): Pwysig iawn yw -aeth. Mae'n un o derfyniadau mwyaf ffrwythlon yr iaith, yn arbennig mewn enwau haniaethol: annibyniaeth, athrawiaeth, cosbedigaeth, llywodraeth, aelodaeth, alltudiaeth, anturiaeth, archwaeth, arfaeth, astudiaeth, barddoniaeth, brenhiniaeth, sosialaeth, cenedlaeth, hanesyddiaeth. [Er bod llawer o eithriadau pwysig, h.y. rhai sy'n weddol aml eu defnydd, mae'r terfyniad mor allweddol yn y maes haniaethol fel y dylid ei gadw mewn cof. Rhaid cofio'r eithriadau hefyd ysywaeth: hiraeth, gwahaniaeth, gwasanaeth, amrywiaeth, lluniaeth, llaeth,

maeth.]

Nid wyf yn siŵr a ddylid tynnu sylw at ddim arall, megis –

**-ed** (benywaidd): adduned, baled, basged, colled, dyled, gweithred, sled, uned, (amryw eithriadau: syched, bwced, urddas, palas). Gormod o eithriadau pwysig.

**-eg** (benywaidd): tacteg, techneg.

**-ell** (benywaidd): cylllell, asgell, bwyell, cell, llinell, chwistrell, dichell, fflangell, ffynhonnell, padell, pibell, pothell (eithriadau : castell, cawell).

**-en** (benywaidd): casgen, cansen.

**-es** (benywaidd): angyles, mynwes.

*Gwyliar 'e' felly.*

**-as** (benywaidd): teyrnas, camlas, dinas, priodas, tras, tas, syrcas (amryw eithriadau: blas, pwrpas, urddas, palas).

Pwysig hefyd yw **-fa** (benywaidd): porfa, lladdfa, cloddfa, curfa, geirfa, gwasgfa.

## YMARFER

Pa genedl yw'r enwau â'r terfyniadau canlynol fel arfer:– -wm, -deb, -aeth, -der, -wr, -iant, -ell, -rwydd, -wrch, -fa. Rhowch enghreifftiau.

Pa genedl yw'r geiriau hyn? – firws, cnwd, teyrnas, bacwn, adduned, pibell, trwst, halen, bywyd.

A allech ddweud pa weddau ar AMSER sy'n rhoi enwau benywaidd fel arfer?

Pa weddau ar LE sy'n rhoi enwau gwrywaidd fel arfer?

Rhaid oedd wynebu'r holl broblem am ei bod hi yno. Ac mae gonestrwydd yn gorfodi ateb ei bod yn sefyllfa anodd, fel y mae weithiau i siaradwyr rhugl. Mae'n codi fel pwnc ymholi neu drafod i baratōwyr cyrsiau. Fy marn i yw hyn: mae'n burion codi'r cwestiwn, a phwyso a mesur y dadleuon a'r ffurfiau a ystyriwyd yma; ond at ei gilydd, nid yw'n ystyriaeth ddiogel nac ymarferol mewn cwrs. Dyma faes sy'n denu dyn i chwilio am batrwm dysgu syml. Teg wynebu'r sialens. Ond tecach yw cyfaddef fod ymchwil sy'n methu hefyd yn wedd ar ddysgu ymchwilio.



## 18. GWERSI YNGANU A SILLAFU

Hyd at bwynt aeddfed yn y cwrs, dyweder y drydedd flwyddyn, nid oes angen gwerau neilltuedig i ynganu. Bydd y tair problem, y tynnir sylw atynt yn awr, wedi'u trechu drwy 'ddynwared'. Ond mae'n ddigon priodol bod yr athro ei hun yn ymwybodol o'r tair prif broblem ynganu hyn yn yr iaith Gymraeg o'r dechrau cyntaf, fel y bydd wedi'i baratoi'i hun o'r cychwyn. A da fyddai eu cynnwys yn llif dysgu pethau eraill, heb eu penodoli tan gyfnod diweddarach, – cyfnod Cwlwm.

Dyma'r tair:

Mae'r deuseiniau *ai*, *ae*, *au* mewn gair unsill *pan ychwanegir sillaf arall ato* yn newid eu hansawdd yn y goben i '*ei*' e.e. pan fyddir yn troi o'r unigol i'r llyso, neu wrth droi ambell enw'n ferf. Mae hyn wedi digwydd mewn llaweroedd o eiriau erbyn y bydd y Dysgwyr wedi cyrraedd y fan hon: cyrraedd, cyrhaeddodd; Cymraeg, Cymreigio; traeth, traethau; llai, lleiaf; braich, breichiau; taith, teithio; gair, geiriau; cadair, cadeiriau; cau, caeodd; amau, amheuodd; chwarae, chwaraeodd. Ond ynganer yn '*ei*', er dal i ysgrifennu *ai,ae,au*.

Gyda deuseiniau *ai*, *ae*, *au* ddiacen yn y sillaf *olaf*, sut bynnag, maent yn colli'r ddeusain, ac yn troi'n llafariad sengl. Yng Ngwynedd ac yn Ne-ddwyrain Cymru maent yn troi'n *a*, ac yn Ne-orllewin Cymru ac yn y Gogledd-ddwyrain maent yn troi'n *e*: llongau (ynganer; *llonga*, neu *llonge*); *ysywaeth* > *ysywath*; *ysyweth*, ac *ymadael* > *ymadal*; *ymadel*. Dyma Gymraeg llafar safonol.

[Weithiau cyfunir y ddau newid cae, caeau (ynganer: cae: ceia, ceie). Diddorol o safbwynt seineg yw nodi fel yr yngener y deuseiniau *ai*, *ae*, *au*, cyn y newid, fel dwy sain yn y ddeusain yn dilyn yn gyflym i leoedd gwahanol yn y geg, yr ail ychydig yn fwy caeedig *i*, *e*, *u* yn ôl ynganiad teneuach. Ond yn y deuseiniau *ei*, *eu*, dechreuir â'r *e* denau gan symud i'r *i* sydd hefyd yn denau.]

Problem arbennig ond pwysig yw'r rhagenwau *ei*, *ein*, *eich*, *eu*, sef yn syml *i*, *yn*, *ych*, *i*; lle y tyfodd camynganiad wrth ddarllen yr iaith lenyddol.

Pam y mae angen cywiro'r holl ynganiadau hyn? O safbwynt ynganiad, mae dweud *llongau* gyda *deusain* yn rhoi argraff fursennaidd o lediaith neu o iaith lenyddol. Gyda'r rhagenwau, ceir argraff o anwybodaeth ynghylch orgraff artiffisial heb sylweddoli hanes y gwyrriad.

\*

\*

\*

### *Dyblu N ac R*

Dwy lythyren yn unig a ddyblir yn y Gymraeg, sef *n* ac *r*: e.e. annwyl, hanner; torri, fferru. Ni ddyblir hwythau fel arfer ond pan fo'r sillaf yn acennog, e.e. hanner, hanerog; cynnull, cynnulliad; cyrraedd, cyraeddasant.

Un safle cyfyngedig arall, sy'n eithriad ond yn ddigon adnabyddus, yw negyddu ag *an-* ar ddechrau gair:- annae-arol; annealladwy; annigonol.

Os bydd treigladd trwynol yn y negydd + cytsain yn syth wedyn, un *n* a geir:- trefn, anhrefn; treuliedig, anhreuliedig.

Os dilynir *-n* dan yr acen gan gytsain arall (mae 'i' gytsain, ac 'w' gytsain, yn bwysig), un *n* a geir: Annibynnol, Annibynnwr; ond Annibyniaeth, Annibynwyr.

### *Ff a Ph*

Saif *ff* a *ph* am yr un sain.

Ni cheir *ph* ond fel treigladd o *p* ar ddechrau gair fel arfer e.e. penelin, ei phenelin.

Fe'i ceir hefyd mewn geiriau benthyg yn y Beibl: e.e. Pharisead, Philistiad.

Rhoddir *ff* ar ddechrau, yng nghanol, ac ar ddiwedd gair, e.e. ffrind, Gorffennaf, gorffwys, corff.

Eithriadau lle y cuddir treigladd llaes o fewn gair: blith draphlith, triphlyg.

### *Termau*

*Acen lem: acen ddyrchafedig: é*

*Acen leddf: acen ddisgynedig: à*

*Acen grom: acen hir: â*

Soniais i o'r blaen, nad oedd dim angen gwersi ynganu penodol ar y dechrau, gan ein bod y pryd hynny yn dymuno i'r pwyslais fod ar adeiladwaith patrymwaith brawddegol, mor unplyg ag a oedd yn bosibl. Mae hyn yn golygu (a) gosod esiampl o ynganu eglur ar y pryd, yn arbennig gyda deuseiniaid, mor eglur â chyda'r seiniau i gyd, (b) cywiro'r ynganiad anghywir lle bynnag y bo'n digwydd, wrth fynd ymlaen yn naturiol.

Ond gyda'r tri phwynt uchod, pan fydd y dosbarth o ddysgwyr wedi cyrraedd aeddfedrwydd ac ymsefydlu mewn thema batrymol, dylid rhoi gwrs i'r tri phwynt ynganol hyn: Cwlwm fel petai yw mewn ynganiad.

Eto, yn gyffredinol, erys *ynganu* yn bwnc i'w ddysgu drwy efelychiad o'r Wers Gyntaf ymlaen.

## 19. GWERSI AM Y CYWAIR LLENYDDOL

Os bydd yr Athro yn defnyddio rhyw ddull llafar o ddysgu'r iaith, a'r disgybl yn debyg o weld Cymraeg llenyddol yn gyhoeddus, buan iawn y bydd y Dysgwr yn sylwi ar wahaniaeth rhwng Ffurfiâu Llenyddol a Ffurfiâu Llafar. Nid oes angen gwneud môr a mynydd o hyn. Ac ni raid ar y dechrau ond ateb ymholiadau. Mae'r cywair llenyddol, am resymau hanesyddol, wedi bod yn fwy ceidwadol na'r llafar, yn bennaf oherwydd bod cyfieithwyr y Beibl wedi pellhau ychydig oddi wrth y llafar (neu'r sathredig fel y'i tybid). Gellid gohirio gwersi penodol ar y mater hwn tan ddiwedd cwrs yn y Gymraeg.

Mae'n amlwg bod ychydig mwy o bellter rhwng yr iaith lafar lenyddol safonol nag a geir yn Saesneg. Mae'r iaith lenyddol safonol wedi ymsefydlu'n gryf iawn yn y Gymraeg oherwydd dylanwad parhaol traddodiad llenyddol ceidwadol ymhlith beirdd a llenorion proffesiynol ac uchelwrol, o'r chweched ganrif hyd heddiw. Bu'r Eglwys Gatholig hithau yn rym ceidwadol yn ei chyhoeddiadau ar un adeg yn ogystal ag Ysgolion y Beirdd. Ond yn bwysicach, pan ddaeth y Diwygiad Protestannaidd, cafwyd cyfieithiad o'r Beibl gan ysgolheigion hyddysg iawn yn y Traddodiad Barddol fel William Salesbury, John Davies a William Morgan. Cafodd un arloeswr arall yn nechrau'r Diwygiad Methodistaidd, Griffith Jones o Landdowror, ddylanwad aruthrol ar Addysg mewn Oedolion yn y ddeunawfed ganrif, a bu'r Diwygwyr ar ei ôl ymhlith llu o bobl a hyfforddai'r werin i ddarllen y Beibl a llyfrau crefyddol eraill. O'r herwydd, cafwyd gwerin hynod ddarllengar a soffistigedig yn ddiwinyddol, ac aeth addysg a darllen Cymraeg fel tân gwyllt ar led ymhlith tlodion Cymru.

Pan gafwyd deffroad mewn ysgolheictod Cymraeg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, un peth a wnaeth ysgolheigion fel John Morris-Jones oedd atgyfodi hen safonau sillafu. Yn ddiweddarach, pan gododd Syr Ifor Williams a'r Athro G. J. Williams, clywsom her i gymryd yr iaith lafar safonol hithau o ddifri fel pwnc addysgol a pharchus bwysig. Sylwasant fod y fath beth yn bod, ochr yn ochr â thafodiaith. Bu tipyn o wrthwynebiad. A hyd yn oed heddiw, nid yw'r model a ddefnyddir yn ddigon sefydlog ysywaeth. Ac am lawer o resymau, deil llunwyr cyrsiau i deimlo diffyg hyder, ac anghysondeb. **Gwell peidio â chymysgu cyflwyno'r ddau gywair i ddysgwyr.**

Cododd nifer o gyrsiau dysgu ail iaith o bryd i'w gilydd, a'r rheini'n anelu fwyfwy yn ddiweddar bellach at ddarparu model ar gyfer dysgu'r Gymraeg fel ail iaith a fyddai'n fodel naturiol, ac eto na byddai'n swnio'n arbennig o dafodieithol, eithr yn rhugl ddiuedd a dilys.

Priodol yw gwrando ar un o'n prif ieithyddion yn traethu ar y mater o fod yn geidwadol neu beidio. Dyma Ifor Williams yn lleisio'i amcanion ym 1935: 'Rhaid i ni bellach gytuno [ Cytuno! Nid

oeddem ac nid ydym eto wedi cytuno! R.M.J. 2004] ar safonau iaith lafar a fydd yn deilwng o Gymro a fydd yn ei barchu ei hun, ac yn parchu ei Gymraeg, iaith y medr yr Ysgolion Elfennol a Sirol ei mabwysiadu drwy'r wlad o Gaergybi i Gaerdydd, o Rosllannerchrugog i Abergwaun, iaith y gall Cymro o'r Gogledd ei harfer ar lwyfan ac ar aelwyd yn y De, a Chymro o'r De yn gyffelyb yn y Gogledd. Y mae mwy yn y glorian na chael Cymraeg naturiol i gymeriadau ar lwyfan drama. Ein dyletswydd yw mynnu Cymraeg graenus at angen bywyd bob dydd, iaith y medrwn ei siarad, heb gywilyddio ohoni mewn unrhyw gwmni, ac eto iaith na bydd rhithyn o rodres mursennaidd ynddi i dramgwyddo'r gwrndawyr.'

Iaith i ddramodwyr, ar gyfer dialog mewn storïau, ac i gyfryngwyr a chyfieithwyr, dyna a oedd mewn golwg i raddau helaeth ar y pryd. A dyna, dybiaf i, a oedd ar waith ar y dechrau. Bu hi'n broblem i Saunders Lewis. Bu'n bwnc trafod i'r cyfryngau.

Yna, aeth Ifor Williams ati i ailfeddwl ac i gynnig enghreifftiau penodol o anawsterau. Ac er gwaethaf pob ewyllys da, wele'r problemau'n codi: "Nid yw *gore* yn anghywir na *gora* chwaith, mwy na *pethe* na *petha*. Ond os yw gwahanol gyrrau'r wlad i arfer yr un ffurfiau, rhaid i ni dderbyn y ffurfiau llenyddol, *gorau*, *pethau*. [R.M.J. Hynny yw, eu hynganu mewn dull llafar yn ôl cyfarwyddyd athro'r cwrs, er defnyddio'r rhain fel ffurfiau ysgrifenedig ar y cywair llafar]... Am y pethau hynny sy'n gyffredin i bob tafodiaith, megis *chi* yn lle *chwi*, medrwn dderbyn y ffurf *chi* a'i harfer yn ddibetrus. Felly hefyd y gwnawn â'r ferf a'r arddodiad yn *-nt*. Collwyd y *-t* ar y diwedd ers mil o flynyddoedd, ac ni welaf ddim yn erbyn *canan hw* neu *canan nhw* [R.M.J. Problem a setlwyd ym mhob cwrs bellach] .... I mi o leiaf y mae *amdany-nhw* yn swnio'n dlydach, hoywach, sioncach na'r ffurf ..... *amdanynt hwy*....' [R.M.J. I mi, ni chredaf fod tlysnï, hoywder, na sioncrwydd yn berthnasol.]

Mewn man arall ym 1930, mae'n gofyn 'beth yw cywirdeb iaith lenyddol', gan fod rhai beirniaid yn clebran am egwyddor 'cywirdeb', 'siarad fel llyfr': 'Pa lyfr? Ai'r safon yn *Y Drysorfa Fawr*, ai ynteu'r *Eurgrawn*? Pwy a ddilynwn ni, Ellis Wynne yn *Y Bardd Cwsc*, ai Ellis Wynne yn y *Llyfr Gweddi*? Ai Ellis Wynne ai ynteu Edward Samuel? Morgan Llwyd ai Charles Edwards? Dr. Lewis Edwards ai Syr Owen Edwards? *Brutusiana* David Owen, *Homiliau* Emrys ap Iwan, *Cerdd Dafod* Syr John Morris-Jones, p'run?' [Sylwer ar sylwadau cyffelyb yn y bennod uchod 14 Gwersi Rhifo a Dweud yr Amser.]

Ofnaf fod mawr angen i rywun sgrifennu Hanes a gwneud dadansoddiad o natur a hanfod yr iaith lenyddol o hyd. Ofnaf mai Morris-Jones a enillodd am y tro, beth bynnag oedd dyheadau Edward Anwyl, Syr Ifor ac eraill. Yr oedd amgylchiadau o'i blaid ar y pryd. Ond ni allai aros fel yna – hyd yn oed o fewn defnydd llenyddol. A dyma ddedfryd penderfyniadol Syr Ifor, ei hoff ddisgybl: 'Y mae ffydd rhai o'n llenorion gramadegol yng nghywirdeb gogoneddus yr hyn a alwent hwy yn

iaith lenyddol, yn ddigrif ryfeddol; neu o leiaf, buasai'n ddigrif pe na bai am effeithiau dinistriol y gred hon ar ffyniant a datblygiad naturiol yr Iaith Gymraeg.'

Diau gennyf, pan gawn y Ganolfan Ymchwil Genedlaethol, y cawn arweiniad cliriach ar y math o egwyddorion a ffeithiau yr oedd Syr Ifor yn cyfeirio atynt, peth a fydd yn gaffaeliad i'r Iaith Lafar Safonol yn ogystal ag i'r Iaith Lenyddol. Mae'r peth yn bosibl. Byddai'n symbol cenedlaethol o ddifrifoldeb ynghylch yr Adennill Iaith. Bid a fo, o safbwynt y mater presennol, yr hyn sy'n bwysig yw bod y Mudiad a symudodd i baratoi defnyddiau dysgu ail iaith yn y cyfnod diweddar wedi penderfynu fwy neu lai'n unfryd (beth bynnag a wnâi'r dramodwyr neu'r pregethwyr) mai Model o'r Iaith Lafar Safonol oedd y model cyntaf i'w fabwysiadu. A thua diwedd y cwrs, gellid rhoi sylw gofalus mewn dosbarth da i gynnyrch y cywair llenyddol.

\* \* \*

Mewn gwirionedd, o safbwynt Dysgwyr, ychydig yw'r dyrnaid o eiriau neu ymadroddion sydd yn ofynnol i'w meistroli. Dyma'r rhai blaenaf:

Sylwer ar y cyferbyniad rhwng y llafar a'r llyfr yn

**1. Terfyniadau Berfol (yn arbennig yn y Ferf 'Bod')**

Dw i	Yr wyf i		Dŷn ni	Yr ydym ni
Rwyt ti	Yr wyt ti		Dych chi	Yr ydych chi
Mae e	Y mae ef		Maen nhw	Y maent hwy
Mae hi	Y mae hi			

Cystrawen Negyddol

Gwneud

Dw i ddim	Nid wyf i		Wna i ddim	Ni wnaf i
Dwyt ti ddim	Nid wyt ti		Wnei di ddim	Ni wnei di
Dyw e ddim	Nid yw ef		Wnaiff e ddim	Ni wna ef
Dyw hi ddim	Nid yw hi		Wnaiff hi ddim	Ni wna hi
Dŷn ni ddim	Nid ydym ni		Wnawn ni ddim	Ni wnawn ni
Dych chi	Nid ydych chi		Wnewch chi ddim	Ni wnewch chi
Dŷn nhw ddim	Nid ydynt hwy		Wnân nhw ddim	Ni wnânt hwy

*Cofier bod y llyfrau gorau ar gyfer ysgolion yn y pedwardegau megis Llyfrau Ysgrifennu Cymraeg, D.J. Williams, Gwasg Aberystwyth yn dal i gyfrif 'gwnai'ff' yn 'anghywir'.*

Sylwer ar fframwaith yr amseroedd (*tenses*):

Buais i	Dw i	Bydda i		Bûm i	Yr wyf i	Byddaf i
(Byswn i)	Roeddwn i	(Byddwn i)		Buaswn i	Yr oeddwn i	Byddwn i

Mae 'nhw' yn hytrach na 'hwy' yn dderbyniedig ym mhobman, er imi glywed 'hwy' mewn pocedi bach o hyd er enghraifft yng ngogledd Sir Benfro; felly 'chi' a geir bob amser yn lle 'chwi.'

2. Yr ail fater sy'n dra phwysig ac yn wir broblem mewn ynganiad wrth drafod y cywair llenyddol a'r cywair llafar, wrth synied am iaith lafar ysgrifenedig, yw'r rhagenwau blaen:

fy	ein		y, yn, yng (hefyd fy)	yn
dy	eich		dy	ych
ei (gwr. a ben.)	eu		i	i

Gwelir bod 'fy' yn broblem arbennig sydd o hyd yn ansefydlog rhwng amryw o'r cyrsiau, ac yn broblem sy'n amrywio yn ôl cytsain flaen y gair a ddefnyddir: *yn siwgr i, y meddwl i, yng nghot i*. Hynod ddiddorol i mi oedd sylwi bod Cynog Dafis, y gwleidydd, yn ei Hunan-gofiant difyr a phwysig *Mab y Pregethwr*; wedi ymatal rhag defnyddio'r ffurf *fy* drwy gydol y gyfrol. Ei egwyddor oedd nad oedd am gynnwys ond brawddegau y gallai eu defnyddio'n naturiol ei hun – heb sgrifennu ond ar gyfer oedolion.

Ni raid ychwanegu o hyd fod ffurfiau llafar ysgrifenedig yn fynych yn aros yn ddadleuol ac yn betrus i diwtoriaid, er eu cicio o gwmpas dros rai blynyddoedd.

3. Y trydydd mater sy'n llai pwysig yw ynganiad *ac, nac*. Er ysgrifennu *ac, nac*, yr ynganiad traddodiadol yw ag, nag. Gellid bod yn bendant ar hyn. Dyna sy'n naturiol.

Mae'r *f* ar ddiwedd llawer o eiriau wedi hen ddiplannu, fel y sylwodd Ifor Williams – rheda i, arna i, yr ola; ond y mae rhai yn honni eu bod yn ei chlywed o hyd. Daliwn ysywaeth yn llai pendant ar hyn.

4. Y prif amrywiad yng nghystrawen yr iaith lafar sy'n wahanol i'r iaith lenyddol yw negydd y ferf: 'dw i ddim yn gwybod; alla i ddim bod yn sicr'. Claddwyd *ni, nid* gan yr iaith lafar safonol, er bod tuedd – yn rhyfedd iawn gan ynganwyr lled lythrennol i geisio bod yn fwy 'gofalus' gyda hyn na chyda gwahaniaethau eraill, ac yn tueddu i 'adfer' *ni, nid* yn barchus. Mae'n bryd eu claddu yn yr iaith lafar safonol, a'u cydnabod gan bwyll yn y llenyddol.

## GEIRFA LAFAR

Hyd yn hyn, wrth gyferbynnu'r iaith lafar safonol a'r iaith lenyddol, buom yn trafod materion gramadegol, sillafol, neu ynganol. Ychydig o bwytiau felly ar y cyfan a erys yn dramgwydd. Pan drow'n at eirfa tafodiaith, cawn fod yr iaith lafar safonol, fel y'i ceir gan gyhoeddwyr radio at ei gilydd, yn dderbyniol ddealladwy beth bynnag yw tafodiaith eu rhanbarth. Hynny yw, ceir ychydig o amrywebau geirfaol pwysig; ond y maent yn weddol gyfarwydd ym mhobman, a heb beri anhawster. Y rhai amlycaf yw – gyda/ efo; yn awr/ rwan; gwelais, ddaru i mi weld (a'r holl ferfenwau yn yr amser gorffennol). Ceir ychydig o eiriau eraill sy'n llai cyffredin. Ond bydd

siaradwyr llythrennog at ei gilydd, yn eu cyfrif yn ddiddorol ac yn lliwgar, yn chwareus ac yn hwyliog, efallai, er bod lleiafrif sy'n cael bod pob dieithrwch yn beth i'w unffurfioli yn ôl eu dull eu hun. Mae cenedl rhai enwau weithiau yn amrywio hefyd rhwng rhanbarthau: yn y Gogledd y mae cyflog, cinio, munud, troed a swper yn wrywaidd, ond yn fenywaidd yn y De. O'r ochr arall y mae clust, cwpan, tafarn yn fenywaidd yn y Gogledd ond yn wrywaidd yn y De. Mae'n ffasiwn gorbwysleisio'r gwahaniaethau hyn ar y ddwy ochr, y 'ceidwadwyr' a'r 'tafodieithgwn'.

Y duedd yw i'r iaith lenyddol a'r iaith lafar glosio at ei gilydd. Fel y mae'r iaith lafar safonol mewn cyd-destun addysgedig yn tyfu, felly hefyd y gwelir yn yr iaith lenyddol ddatblygiad tuag at lafareiddio fwyfwy.

## 20. GWERSI LECTURE EXPLIQUÉE

**Troir Darn Darllen yn Wers sy'n Holi ac Ateb ynghylch y 'cynnwys':** hynny yw, ei droi yn 'bwnc trafod', dyna i mi yw gwrs Lecture Expliquée.

Y detholiad doethaf yn fy mhrofiad i ar gyfer y fath waith yw dewis *darllen o lyfr pynciol* neu ddarn o *lyfr gwybodaeth* a fwriadwyd ar gyfer estyn meddwl dosbarth ychydig, ac felly dânt yn aeddfetach drwy'r ail iaith. Fe drafodant y darllen felly am fwy o resymau na dysgu iaith yn unig. [gw. Y sylwadau ym Mhennod 14. Gwers Rhifo a Dweud yr Amser.]

Mae twf medr i *ddeall* darn darllen yn rhwyddach nag i *gynhyrchu* darn darllen. Ac y mae'r holi ei hun yn awgrymu geirfa a chystrawen ar gyfer yr ateb. Hynny yw, y mae'r darn darllen yn cynnig peth cynhaliaeth i'r trafod ei hun. O ran dull gall y wers dyfu gyda lleiafswm o ddeunydd i fod maes o law yn drafodaeth ar lenyddiaeth sylweddol.

Meddai P. Hugholdt: 'In reading we do not need to supply the gender, number, and case of articles and nouns. We need not supply the tense, mood, and position of the verbs; nor are we impelled to puzzle over the origin of the elements in idiomatic expressions in their difficult, elusive aspect. The author has taken care of all these problems. He leaves us only the task of understanding it and interpreting what he has written.'

Cymraes a ysgrifennodd y llyfr safonol yn Saesneg ar y pwnc *Lecture Expliquée*, University of London Press, 1938. Erys gwerth y dull hwnnw'n bwysig iawn o hyd, gredaf i, er y gellid amau llawnder ei brwdfrydedd hi: 'The belief is growing that lecture expliquée, which is the examination of any passage read in order to understand it thoroughly and to be able to explain its meaning, should be the core of the teaching of a foreign, or a second language, or indeed of the mother tongue. According to French criterion it is the principal 'exercice de la classe', 'le plus important des exercices scolaires,' and it is an art in which the French excel.'

Dyma ymdriniaeth felly ar 'Ddull' yn hytrach na 'Deunydd' dysgu ail iaith. Ond yr wyf yn ystyried hyn yn ddull ymarferol campus, a thybiaf y bydd yn ddefnyddiol yn ystod blwyddyn gyntaf, ac efallai misoedd cyntaf y cwrs. Mae'n ddull elfennol iawn o ran ffurf wedi'i seilio ar 'holi ac ateb' syml.

*'Ar y dechrau dyma'r ffurf a gymer y gwaith – cyflwyno'r darn o ryddiaith neu o farddoniaeth ar lafar gan yr athro ac yntau yn ei gysylltu â'r hyn a ddarllenwyd eisoes neu â phrofiad y plant drwy eu holi; darllen ar goedd; holi ac ateb yn peri aml ddefnydd o'r geiriau yn y darn; diffinio geiriau ac ymadroddion; weithiau sylwi ar sut y gweithreda rheolau gramadeg.*

'Ni raid dweud ei bod yn anhepgorol i gyfaddasu'r darnau a'r dull i oedran y disgyblion a bod y gwrsi yn cael eu cyflwyno yn yr iaith a ddysgir ...



'Gwir werth y *lecture expliquée* yw ei bod yn hyrwyddo cynnydd systemig mewn geirfa drwy gymorth cydweddiad a chymdeithasiad syniadau. Dysgir geiriau yn gyntaf yn eu cyd-destun, ac yn y modd hwn fe'u cysylltir hwy â'r realiti a fynegir ganddo.'

Rhaid pwysleisio y gall ymarfer o'r dull hwn fod o werth heddiw ymhen rhagor na deg a thrigain mlynedd wedi ysgrifennu'r geiriau hynny, a diddorol yw sylwi ar y pwyslais yno a roddir ar adeiladu geirfa yn systemig, h.y., graddio geirfa.

Dylid, hefyd, raddio'n drwyadl y cwestiynau a ofynnir yn ymholiad y *lecture*.

Dichon na fyddwn yn cytuno heddiw mai 'cnewyllyn' a 'hanfod' ein dull o lynu wrth yr iaith darged yw'r '*lecture expliquée*' ac na ddylid byth ddefnyddio dim ond y famiaith. Deil, er hynny, i fod yn ymarfer defnyddiol dros ben. Cofier, hefyd, y gellir defnyddio darn a astudir yn y modd hwn fel symbyliad i waith creadigol – disgrifiad llafar, gwaith ysgrifenedig, drama, meim, a.y.b.

#### DARN DARLLEN A'I DDEFNYDDIAD FEL TESTUN I'W DRAFOD.

Hoffaf y dull holi-ac-ateb sydd mewn *Lecture Expliquée* am ei fod yn aros yn yr iaith darged cyn belled ag sy'n bosibl. O safbwynt y dysgwr hoffaf y 'dril dwyieithog' yntau am yr un rheswm, er bod yr athro yn gallu defnyddio iaith ddechreuol y dosbarth fel ysgogiad i gyfieithu byw a chyflym yn ôl rheoleidd-dra dril. Gellir yn hwylus gyfuno *Lecture Expliquée* a dril.

Mae lle pendant i ddril. Ond nid dril yw popeth. Mae'r athro sy'n gorddefnyddio dril yn lladd diddordeb dysgwr yn fuan: mae'r sawl sydd heb ddefnyddio dril o gwbl yn esgeuluso un o adnoddau addawol a gwerthfawr anianawd pob dysgwr. Pleidiaf lyfrau gwybodaeth, am eu bod yn gorfodi meddwl drwy'r iaith.

Byddwn yn hoffi gweld llawer mwy o gyfrolau 'gwybodaeth' mewn iaith ar lefelau gwahanol i ddysgwyr ail iaith. Mae mawr angen hefyd gasgliad o ysgrifau a storïau a darnau drama y gellir eu defnyddio mewn dosbarthiadau ar gyfer trafod a drilio. Cyfeirio yr wyf yn y fan hon at ddarnau darllen sy'n ychwanegu at dwf gorwelion y dysgwr. Ymarferiad ffurfiol yw; ond gall arwain at drafodaeth mewn oed.

Mewn pamffledyn a gyhoeddwyd gan yr Urdd gyda'r cylchgrawn *CYMRAEG*, Ionawr 1963, awgrymwyd y drefn hon i'r wers fel posibilrwydd:

Darllen y darn yn uchel, o frawddeg i frawddeg, o gwmpas y dosbarth.

Esbonio cystrawennau a geirfa newydd.

Dril dwyieithog.

Holi ac ateb uniaith.

Nodir yma yn awr ddau ddarn darllen. Gyda'r un cyntaf, ychwanegaf (i) ddril dwyieithog i'w

'saethu' at y dysgwyr ar ben bys. Gyda'r un wedyn, ychwanegaf (ii) holi-ac-ateb yn yr iaith darged.

### *Darn Darllen 1*

*Yr wythnos ddiwetha fe aethon ni i grwydro drwy rai o'r siroedd yng ngogledd Cymru. Roedd hi'n daith hyfryd iawn. Pan oedden ni'n mynd drwy Lanberis, fe welson ni'r Wyddfa a'r mynyddoedd sy o'i chwmpas. Wedyn fe groeson ni'r afon sy rhwng Sir Gaernarfon a Sir Fôn – afon Menai – ac fe ddaethon ni'n fuan i'r pentre yna, Llanfair-rywbeth neu'i gilydd; mae enw hir iawn arno. Mae rhyw bobl wedi dyfeisio'r enw yma er mwyn tynnu ymwelwyr o Loegr, ac yn wir y mae llawer o Saeson yn dod i weld y pentre bob blwyddyn, ac maen nhw'n prynu cardiau post ac enw'r lle arnyn nhw. Yn Sir Fôn fe welson ni rai melinau gwynt wedi gorffen eu gwaith erbyn hyn, er bod llawer o wynt yn chwythu dros yr ynys o hyd. Ar ôl teithio o gwmpas yr ynys fach, fe ddaethon ni'n ôl i Fangor. Mae pont hir yn croesi'r afon yn y fan yma, ac mae yna goed ac ynysoedd mân yma ac acw ar hyd yr afon yn gwneud darlun eitha tlws. Fe arhoson ni ym Mangor, ac fe fuon ni'n crwydro yn ôl ac ymlaen yn Sir Gaernarfon am weddill yr wythnos. Roedd hi'n hyfryd gweld y mynyddoedd, y pentrefi bach a'r pethau diddorol eraill sy yng ngogledd y wlad.*

*Dyma'r cyfieithu cyflym.*

Athro: Last week we went

Dysgwr 1: Yr wythnos ddiwetha fe aethon ni

Athro: Last week you went

Dysgwr 2: Yr wythnos ddiwetha fe aethoch chi

Athro: We came last week

Dysgwr 3: Fe ddaethon ni yr wythnos ddiwetha

Athro: We saw the name

Dysgwr 4: Fe welson ni'r enw

Athro: We saw the man

Dysgwr 3: Fe welson ni'r dyn

Athro: We saw the man in the river

Dysgwr 1: Fe welson ni'r dyn yn yr afon a.y.b..

### *Darn Darllen 2 [ar ffurf dialog]*

*Dyma dyrfa! / Oes, mae llawer wedi dod at ei gilydd. / Pryd mae'r ddrama'n dechrau? / Am hanner awr wedi chwech. / Faint o'r gloch yw hi nawr te? / Chwech. / Dim ond chwech? / Ie. / Mae'r bobl yma wedi dod yn weddol gynnar ond ydyn nhw? / Does dim llawer o le yma. / Ac mae'n debyg bydd rhaid i rai pobl fynd adre heb gael tocyn. / Fe gafodd y drysau eu hagor am hanner awr*

wedi pump. / Beth yw enw'r ddrama? / **Blodeuwedd.** / O! Dw i'n gwybod. Y stori am y ferch wedi cael ei gwneud o flodau. / Dyna chi. Y stori o'r Mabinogion. Merch heb berthynas oedd Blodeuwedd am ei bod wedi cael ei gwneud o flodau. / Roedd hi'n anlwcus. / Doedd hi ddim yn perthyn i neb, ac roedd hi'n wyllt iawn. / Pwy yw'r awdur? / Mae'r ddrama wedi cael ei sgrifennu gan Saunders Lewis. Mae hi'n siŵr o fod yn ddiddorol. / Ydy Saunders Lewis wedi sgrifennu llawer o ddramâu? / Ydy'n wir. Fe yw dramodydd gorau Cymru yn ein dyddiau ni. Ac mae rhai o'i ddramâu wedi cael eu chwarae yn y dre yma'n ddiweddar./ Ust! Mae'r ddrama'n dechrau.

*Dyma'r holi-ac-ateb*

Beth oedd enw'r ddrama? Pwy oedd y dramodydd? A sgrifennodd e lawer o ddramâu? Ym mha lyfr dych chi'n darllen y stori? Pa fath o ferch oedd hi: dywedwch ddau beth amdani? Ydych chi'n gwybod rhywbeth am Saunders Lewis? Ydy e'n dal yn fyw? Ydych chi wedi gweld y ddrama? Ydych chi'n mynd i'r theatr ambell waith? Ble mae'r theatr? Ydych chi wedi gwyllo'r ddrama hon ar y teledu erioed? Fyddwch chi'n gwylid rhaglenni Cymraeg weithiau? Beth yw'ch barn chi am y rhaglenni hynny?

### ***Llyfrau Darllen***

Un o'r sectorau mwyaf datblygedig a blaengar sy'n galonddid i'w weld ym maes bywiog Cymraeg i Oedolion yw prosiect AdAS. Fe'i bwriadwyd ar gyfer y rhai a fu'n dysgu'r Gymraeg ers blwyddyn neu ddwy. A chafwyd Golygydd dawnus ym Meleri Wyn James. Ceir chwe chyfrol er enghraifft yn y gyfres **Ar Ben y Ffordd**: dwy ar Lefel 1 (Mynediad): sef *Camu Ymlaen* a *Ling-di-long*; dwy ar Lefel 2 (Sylfaen): sef *Mynd Ymlaen* a *Nerth dy Draed*; a dwy ar Lefel 3 (Canolradd), sef *Ar Garlam* a *Cath i Gythraul*. Mae'r deunydd yn y rhain yn ddelfrydol o fewn yr amodau da y mae hi'n eu gosod iddi'i hun, sef darllen rhydd ac amrywiol.

Beth, felly, yw'r gwahaniaeth rhwng datblygiad mor foddhaol â hyn a'r hyn a anogir yng nghrynsyth y gyfrol hon (a'i rhagarweiniad *Canolfan Ymchwil i Adennill Iaith*)? –

1. Mewn cyfres gyfeiriedig bynciol, bydd undod deunydd yn gweddu i thema benodol: megis crwydro pob sir yn ei thro, trin mabolgampau, daearyddiaeth y byd, hanes cyfnodau yn eu tro, llenyddiaeth Gymraeg, diddanwch y radio a'r teledu, bioleg, iechyd, coginio, a.y.b..
2. Mae angen mwy o holi ac ateb: cwestiynau cytuno(neu beidio)/ cwestiynau gwybodaeth.
3. Mae angen mwy o lymder unol a chysondeb wrth gyflwyno iaith lafar safonol.
4. Gellir bod o'r herwydd yn fwy dethol wrth raddio'n eirfaol o fewn ystyriaethau pynciol.

[Down yn ôl o hyd i rinwedd Canolfan Ymchwil Genedlaethol.]

## 21. GRADDIO GEIRFA

Dyma enghraifft o faes lle yr wyf wedi diwygio fy meddwl yn llwyr.

Bûm yn traethu fy marn o'r blaen yn:

*Graddio Geirfa* a gyhoeddwyd gan Adran Addysg, Prifysgol Cymru, Aberystwyth ym 1962.

*Yr Athro*, Medi 1962 a Chwefror 1964.

*Cyflwyno'r Gymraeg*, Gwasg Prifysgol Cymru, 1962, y bennod gyntaf.

*Cyfeiriadur i'r Athro Iaith, Rhan II D-N*, 1974 (Adrannau 'Gair', 'Geirfa', a 'Graddio Geirfa')

Bu'r rhain yn sylfaen i'r dewisiad o Eirfa a ddefnyddiwn yn y gyfres *Cymraeg i Oedolion I a II*.

Ceisiasf ddadlau dros fy safbwynt presennol.

Ar y pryd, yn y chwedegau a'r saithdegau, bu 'graddio geirfa', yn arbennig ar sail *cyfrif* amllder defnydd o eiriau ar lafar neu mewn llyfrau, yn dechneg boblogaidd, ddrud a hwylus. Fe'i gwnaethpwyd gan dîmau niferus ar gyfer sawl iaith (yn arbennig Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg). Yr oedd adnoddau gan ieithoedd mwyafrifol yn cyflawni canlyniadau ar y pryd ymhell y tu hwnt i gyrraedd ariannol iaith leiafrifol fel y Gymraeg. Buasai'n haws cynhyrchu'r nod yna'n rhwyddach heddiw yn oes y cyfrifiaduron.

Ond sylwodd Dr Helen S. Eaton, wrth nodi tebygrwydd y geiriau a ddôi i'r brig yn y cyfrifiadau o'r pedair iaith a enwais fod yna gyfatebiaeth agos rhwng yr *amllder defnydd o'r geiriau a fynegai'r un syniadau* ym mhob iaith. A chynigiodd hi ddamcaniaeth: 'The list will serve as a practical tool in ascertaining a basic vocabulary for any language – at least any European language – for, if users of four different languages concur in the need of a means of expressing these concepts most frequently, it is justifiable to suppose that people using still other languages would also feel the same need.'

Ar y sail yna, cyfieithais, a defnyddiais restr Eaton wedi'i lleddfu gan rai darnau eraill o ymchwil, megis astudiaeth Cyril Hughes o eirfa plant iaith gyntaf 5 Oed yng Ngheredigion.

Deil y darnau ymchwil a wnaethpwyd yn y cyfnod 'cyfrif amllder' yn ddiddorol o hyd. Ond symudwyd pwyslais i gyfeiriadau eraill. Bûm innau, o'm rhan i, am flwyddyn o ymchwil yn Québec (ar y pryd, y ganolfan ymarferol a mwyaf catholig mewn ieithyddiaeth gymwysedig a didacteg iaith yn y byd), a symudais i yno fwyfwy i gyfeiriad '*Geirfa Sefyllfaol*' – o wahanol fathau. Gwaith Ymchwil 'yn ôl gwahanol anghenion' yw'r hyn a gymeradwyaf yn bennaf bellach.

Yn y *Cyfeiriadur II* (y cyfeiriais ato uchod), nodais ambell egwyddor: 'gwell yw defnyddio ffurf symlaf geiriau'n gyntaf (e.e. yn unigol, yn wrywaidd, fel enw, heb dreiglo, a.y.b.). Gellir adeiladu ymhellach ymlaen ar lu o eiriau ar ôl meistroli eu ffurf symlaf, e.e. llunio cyfansoddeiriau o eiriau a ddysgwyd eisoes ar ôl meistroli eu ffurf symlaf, ffurfio berfenw o enw, ansoddair neu

adferf o enw, enw o ansoddair, a.y.b.' Hynny yw, grwpio.

Dadleuais o blaid egwyddor arall: 'Y mae gan bawb ohonom o leiaf ddwy eirfa wahanol:

- (i) Geirfa ddeallol oddefol. Dyma'r un helaethaf, sef yr eirfa a ddeallwn o'i gweld mewn llyfr neu o'i chlywed ond nas defnyddiwn ein hunain.
- (ii) Geirfa lafar weithredol. Mae hon yn llai helaeth o lawer. Dywedir bod eisiau pum gwaith cymaint o ymdrech i feistroli geirfa weithredol ag i ddysgu ar gyfer deall yn unig.'

**Yn *Graddio Geirfa* nodais hefyd restr o eiriau benthyg (gan mwyaf) o'r Saesneg, yn Gymraeg, y gellid eu defnyddio'n gynnar mewn cwrs, yn arbennig mewn cyd-destun anweithredol-lafar ond goddefol-ddefnyddiol mewn darllen. Felly y gellir helaethu llydanrwydd deall geirfaol yn gynnar a thrafod yn y darllen lawer mwy o bynciau.**

Erbyn hyn, fel y nodais ym Mhennod gyntaf y gyfrol hon, fe ellir gwneud rhestr o *sefyllfaoedd 1-23*, a dethol geirfa seml a fydd yn ymarferol ddefnyddiol ar unwaith mewn cyd-destun llafar cartrefol cynnar ac o fewn dull holi ac ateb. A hyn a bleidiaf yn gynhesaf mwyach.

### *Cyflwyno Geirfa*

Gyda dysgu yn ei thro i ddosbarth, ar hyd y broses reolaidd o gyflwyno Geirfa, buddiol yw ymdroi gyda chlymau geirfaol – gyda grwpio wedi'u carfanu'n ôl ystyron cymdogol, neu ymarferion cyferbynnu ystyr. Os gellir amrywio'r dull o gyflwyno'r grwpiau hyn, gorau i gyd. Dyma ychydig o ymarferion enghreifftiol:

#### A Ceisio'r un od

Y mae gair allan o'i le ym mhob un o'r rhestrau hyn. Dywedwch pa un yw, a rhoddwch eich rhesymau dros ddweud hynny:

e.e. To, mur, lorri, drws, ffenestr.... Nid rhan o adeilad yw lorri.

[Geirfa ddefnyddiol i feysydd yr Ymarferiad: llysiuyn, ffrwyth, dodrefn, berf, mesur]

Gorwedd, dechrau, rhedeg, cymryd, awr, aros.

Ionawr, Hydref, Sadwrn, Awst, Ebrill, Tachwedd.

Afal, oren, banana, gellygen, meipen, eirinen.

Bachgen, milwr, gwraig, teleffon, mab.

Bwrdd, cadair, trol, cloc, darluniau.

Eirlys, Nia, Pryderi, Buddug, Angharad, Dyddgu.

Pen, llygad, dant, het, clust, trwyn, talcen.

Rhaw, fforch, cribin, rhaca, morthwyl.

Caws, ymenyn, wyau, llefrith, hufen, llaeth enwyn.

Moron, betys, tatws, pys, eirin, ffa.

Eidal, Almaen, Twrci, Aifft, Ynys, Sbaen, De Affrica.

Desg, cloch, bwrdd du, berfa, mainc, athro.

Afon, twll, llyn, môr, nant, ffos, camlas.

Tŷ, pabell, bwthyn, cerbyd, plas, caban.

Blwyddyn, eiliad, modfedd, mis, wythnos, munud, awr.

Modryb, cefnder, cyfnither, chwaer, gwraig, Nadolig.

Penfelyn, cornchwiglen, gylfinir, gwyddfïd, glas y dorlan.

Derwen, onnen, corsen, bedwen, masarnen, gwernen.

Brithyll, eog, hydd, ysgadenyn, lleden.

Telyn, piano, pib, cwmpawd, crwth, trwmped, corn.

Llathen, modfedd, rhan, troedfedd.

Taten, cig moch, caws, gŵydd, twrci.

Melyn, poeth, gwyrdd, glas, du.

Berwi, teithio, cynnau, ffrio, oeri.

Braf, cynnes, hwyr, disgwyl, lwcus.

Collen, ysgallen, rhedynen, brwynen, hesgen.

Cynfas, gwrthban, clustog, adeilad, cwrlid, gobennydd.

Briallu, dant y llew, gwelltglas, rhosyn, gold y gors.

Peiriant, cwch, llong, bad, cwrwgl.

Gormod, Nadolig, amser gwely, hanner nos, cyn hir.

### B Cwblhewch y tabl

cyffredin	prin
diwyd	-----
i lawr	-----
-----	afiechyd
digonedd	-----
-----	prysur
tlodi	-----

----- ysgafn  
 gwell -----  
 ----- gwerthu  
 llenwi -----  
 ----- rhewi  
 caru -----  
 ----- dod  
 ----- -----

C Gorffennwch y brawddegau hyn:

Rhedai'r bachgen cyn gynted â'r -----  
 Yr oedd y môr yn glir fel -----  
 Canai'r eneth fel yr -----  
 Daeth Ifor i'r ystafell cyn ddistawed â -----  
 Yr oedd traed y baban yn oer fel -----

CH Sylwch ar y ddwy golofn a chwblhewch y golofn olaf

llaw maneg	troed	-----
ceffyl ystabl	buwch	-----
tŷ muriau	cae	-----
dafad ddu	gafr	-----
llyfr llyfrgell	dillad	-----
tywyll golau	hwyr	-----

Mae angen cyfrolau o groeseiriau i Ddysgwyr.

Casgliad Cyffredinol ynghylch Graddio Geirfa bellach

Yn fy marn mwyach, awgrymaf mai'r egwyddor a bleidiaf heddiw yw: yn lle dibynnu ar ystadegau ynghylch y defnydd moel mewn ymddiddan wrth Raddio Geirfa, dosbarther grwpiau geirfaol yn ôl Sefyllfaoedd. Yr wyf wedi trafod a nodi'r rheini'n benodol ar dud. 13 yn y gyfrol hon. Gellid defnyddio *Graddio Geirfa* o hyd (neu'n well o bosib gyfrif defnydd yn ôl cymorth cyfrifiadurol diweddar o'r iaith lafar) fel ychwanegiad neu addasiad o'r cyfryw sefyllfaoedd.

## 22. GWEITHGAREDDAU

Dyma'r rhan o'r cwrs sy'n allgyrsiol. Ond hyn fydd y bennod hwyaf. Cyd-gyrsiol yw mewn gwirionedd. Mae'n rhan o bob cwrs, beth bynnag fo'r fethodoleg o ddysgu. O ran gwerth, ac ysgogiad, ac ymarferoldeb, gall fod mor bwysig â'r cwrs swyddogol.

Egwyliau yw 'gweithgareddau'. A gallant fod yn 'eithriadau difyr' yn y graddio. **Ystyr 'Gweithgareddau' yw estyn y gwaith yn y dosbarth i mewn i gyd-destun lle y mae'r Gymraeg yn fwy naturiol;** i mewn i ryw fath o fywyd bob dydd. Sylweddolodd rhai tiwtoriaid-gynghorwyr nad ynys ar-wahân oedd y dysgu. Roedd awydd ac angen gan y dosbarth – ac ofn weithiau – i symud ymlaen ac i mewn i amgylchfyd siaradwyr rhugl – nes iddynt ddod yn gwmni normal.

Mi all gweithgareddau fod o lawer math, yn drefnedig ac yn amrywiol, a phrofi'n ysbrydoliaeth i ddysgwyr. Mae'n gwneud y gwaith dosbarth ei hun yn fwy diddorol ac yn fwy ystyrllon o'r herwydd. Ac eisoes, y mae rhai 'mannau' i ymwelwyr – fel **Amgueddfa Sain Ffagan** – wedi'u paratoi eu hunain i groesawu dysgwyr. Maent yn paratoi dalennau bach i ddisgrifio'r pwyntiau diddorol, cwestiynau neu holwyddoregau i'w hateb, a hyd yn oed cynrychiolydd o arweinydd yn y lle i arwain grwpiau o ddysgwyr o gwmpas y fangre.

Ond weithiau bydd y tiwtor ei hun yn paratoi ymlaen llaw fel yna, yn enwedig os yw'n credu yn yr egwyddor o **gydweithredu â hyrwyddwyr eraill yr iaith.**

Byth ar ôl ymweliad o'r math yna, fe all taith i'r dysgwr drwy'r wlad fod yn brofiad mwy difyr a dyfnach ei arwyddocâd nag erioed o'r blaen. O hynny ymlaen, mae'n gwneud crwydro drwy'r wlad yn brofiad cyfoethog. Mae'r cyswllt rhwng y dysgwr a gwlad Cymru yn dyfnhau. Teimla'r dysgwr yn fwy teyrngar, yn wir yn fwy cyfrifol. Mae'n perthyn yn llawnach.

[Hyderwn y ceir **llawlyfrau taith** wedi'u hysgrifennu yn ddwyieithog i ddysgwyr, nid mewn 'iaith i siaradwyr Cymraeg' nac i siaradwyr Saesneg, ond mewn cystrawennau a geirfa ddethol a helpfawr ond yn rhydd i dyfu yn yr iaith. Dyma waith i'r Ganolfan Ymchwil genedlaethol.]

Mae ymweld â sefydliadau cenedlaethol fel yr Amgueddfa Genedlaethol neu'r Senedd yn rhoi ystyr i Gymru. Ac y mae mannau o ddiddordeb i'w gweld ym mhobman ym mhob cwr: y **Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth (sydd eto wedi darparu dalennau a chyfarwyddyd i ddysgwyr)**, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, Castell Caernarfon, Castell Harlech, Gardd Goffa Hywel Dda (eto, wedi paratoi cyfarwyddyd) yn Hendy-gwyn, Canolfan Goffa Senghennydd, Abaty Glyn y Groes, Ynys Llanddwyn, Canolfannau Coffa Diwydiant y Llechi, Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Beddgelert, Yr Amgueddfa Ddiwydiannol, Pantycelyn, Castell Caerffili, Amffitheatr Caerllion, Castell Dinefwr a Chastell Carreg Cennen, Canolfan Ymwelwyr Llanycil y Bala, Gwersyll Urdd Gobaith Cymru Llangrannog (sydd eto'n barod i ymwelwyr), Eisteddfod



Genedlaethol Cymru, Cwm Rheidol, a Gŵyl Gerdd Dant, a.y.b..

Gyda gweithgareddau sy'n cael eu trefnu i grŵp dysgu, nid yw unrhyw ymgais i drefnu amser arbennig gwahanol i arfer yr iaith yn hawdd. Mae oedolion yn fynych yn rhwymedig o ran amser yn eu galwedigaeth. Mae ambell ddysgwr yn cael anhawster iechyd, ac mae gan rywrai weithiau ddiddordebau eraill. Gall y gorau o'r trefnu, a'r mwyaf diddorol o fannau ymweld, droi i fod yn anghyfleus. Er hynny, er gwaethaf absenoldebau, gall fod yn fuddiol i athro fynd ymlaen â gweithgaredd. Hyd yn oed gyda dyrnaid bach, gall yr achlysur fod yn gofiadwy ac yn werthfawr.

I mi, mae yna dri gweithgaredd tra phwysig a gynyddodd yn ystod y blynyddoedd diweddar: mae'r tri'n gyfredol, yn gyd-ddefnyddiol, ac yn para drwy'r flwyddyn:

### Cynllun 'Ffrind-Iaith'

Dyma drefn un-ac-un, y Cymro neu Gymraes rugl a'r Dysgwr, a chyfle i gytuno gyda'i gilydd i gyfarfod – i siopa, i fynd i Gyngerdd neu Ddrama neu Wasanaeth mewn Capel, neu wibdaith ac ymweld â lle o ddiddordeb cyffredin, neu weithio ar rywbeth ar y cyd, beth bynnag; dod o hyd i amser i sgysio'n naturiol. (Mae yna un dref eisoes lle y ceir ugain o ffrindiau iaith.)

### CYD (Clonc, Clwm, Sgwrs a Choffi)

Cymdeithas agored i bawb gyfarfod â'i gilydd, uwchben paned i gloncian, ar un achlysur penodol bob wythnos. (Ceir llawer o gymdeithasau eisoes, ers tro, yn disgwyl am ragor.)

### Cwis Llyfrau

Drwy gydweithrediad y Llyfrgell Leol, bydd rhai llyfrau dethol yn cael eu benthyca neu'u prynu gan grŵp sy'n cystadlu â grŵp arall, [Gwn am amryw] er mwyn ateb cwestiynau megis: Ble oedd hyn a'r llall yn digwydd? Beth ddigwyddodd wedyn? Pwy oedd yn gwneud hyn? Sut math o berson oedd hwn a'r llall? Beth yw enw'r awdur? Enwch ddau awdur Cymraeg arall. a.y.b..

Drwy gymdeithasu ar y cyd, yn arbennig i ddysgwyr a Chymry gyda'i gilydd, gall dwy ochr y genedl, y rhai sy'n cadw'r iaith a'r rhai sy'n ennill yr iaith weddnewid morâl yr iaith. Gall ymrwymiad y Cymry Cymraeg yn achos adenillwyr y Gymraeg roi sbonc newydd i'r Dyfodol.

Bydd mwy a mwy o **Gymry Cymraeg** yn gweld yr adferiad. Byddant yn teimlo eu bod yn rhan o adnewyddiad. Ers blynyddoedd, teimlasant eu bod ar i lawr. Rhoddai hynny ymdeimlad o adfeiliad (*decadence*). Tyfai gwacter ystyr efallai; ond gallant weld o fewn blwyddyn ffrwyth eu hadfywiad eu hun. Byddant yn rhan gynhenid o gynnydd. Tyf undod yn y genedl. Yr ydym oll yn rhan o'r un argyfwng: gwenwyn diffyg hyder sy'n rhannu'r wlad, yn Fro Gymraeg a'r gweddill. Ond yr ydym yn un gyda'n gilydd drwy'r iaith yn yr un Fro. Gwelwyd yn Iwerddon y methiant trist o neilltuo'r Gaeltacht. Mae yna amrywiaeth yn ein gwlad ni, wrth gwrs, o ranbarth i ranbarth; ond un ffisig sydd: mae Cymry Cymraeg wrth ymuno â'r Dysgwyr yn creu nerth undod atgyfodiad iaith.

Daw cymaint o les i'r Cymry Cymraeg ag i'r Dysgwyr. Drwy roi, fe gânt. Dyma beidio â dibynnu ar bobl eraill i adfywio ac achub yr iaith. Dyma beidio â throsglwyddo cyfrifoldeb. Dyma ymyrryd yn y dirywiad yn uniongyrchol, a symud y pwyslais yn y seice cymdeithasol o'r canol a'r awdurdodau i'r bobl eu hunain. Brwydr yn erbyn diogi yw.

Mae teithiau cerdded Cymdeithas Edward Llwyd a chyfarfodydd o Ferched y Wawr yn rhoi croeso arbennig i ddysgwyr.

Yn y dosbarth gall tiwtor dorri ar draws rhediad di-dor y cwrs er mwyn cael math o egwyl pryd y bydd modd siarad a dysgu ychydig bach am Hanes Cymru. I ddysgwyr gall hyn fod yn ddadleniad. Agoriad llygad yw gwybod yn fras am rai o brif bwyntiau Hanes ein llenyddiaeth hynaf a hanodd o'r Alban ac o Gymbria. Mae gwybod am y Mabinogion a'u hynafiaeth yn bwysig. Datguddiad yw sôn am Gynganedd a'i thwf. Mae sylweddoli'r cannoedd o feirdd a geid yng Nghymru rhwng y 6ed ganrif a'r unfed ar bymtheg, a bod llawer mewn print, yn addysg ynghylch twf gwareiddiad yng Nghymru. Dylai dysgu am y wlad ddyfnhau mwynhad ohoni.

Roedd Moelwyn Preece yn Ysgol Uwchradd Fodern y Cymer wedi llunio gwersi yn yr *Athro* ar Bantycelyn (ix, 253); y Normaniaid (ix, 335); Dewi Sant (x, 276); Mari Jones (x, 276); y Rhufeiniaid (xi, 274).

Pan gawn Ganolfan Ymchwil, bydd modd cynllunio'n systematig gyfrolau i Ddysgwyr sy'n llawer mwy trwyadl a phroffesiynol a chynhwysfawr gyflwyniadol ar Hanes Cymru. Mae amlinelliad o gwrs hanes yn yr ail iaith i blant ysgol gynradd yn yr *Athro* vi, rhif 5. Os oes Cymry Cymraeg brwd eisiau protestio ynghylch hawliau, dyma faes iddynt: hyfryd fyddai'u gweld hefyd yn neilltuo peth o'r amser sbâr hwnnw i godi'r hen wlad yn ei hól yn gadarnhaol. Erys diffyg mawr yn ein hysgolion, mae'n wir. Ond caiff yr ysgolion eu rhagfarnau gan y gymdeithas.

Mae deall diwylliant gwledydd tramor yn bwysig; ond pwysicach fyth i bob un yw deall y wlad sy'n gartref iddynt. Dyma'r ffordd i bawb wreiddio a deall mwy am etifeddiaeth ein pobl.

Gellir hefyd drefnu sgwrsiau mwy ffurfiol i ddysgwyr fel y gwnaethpwyd mewn dau o leiaf o gapeli Cymru. Mae yna hiraeth ar y wlad am i'r ddwy ochr gyfarfod â'i gilydd.

Ac wrth gwrs, yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ceir darpariaeth benigamp yn flynyddol ym Mhabell y Dysgwyr ac yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn, yn ogystal ag mewn Cystadleuthau penodol i Ddysgwyr. Oherwydd gwasanaeth S4C, ceir hysbysrwydd hynod werthfawr ar y Teledu sy'n ysbrydoliaeth i lawer... Dyma enghraifft o egwyl o'r fath: –

### *Nodiadau ar gyfer Sgwrs am Enwau Lleoedd*

Mae pawb wedi sylwi ar enwau lleoedd sy'n dechrau gyda'r geiriau **Llan** ac **Aber**. Tybed faint y gall y dosbarth ei gofio, pe gofynnid, sawl enw lle sy'n dechrau â'r gair **Llan**? Gall yr athro

brocio â geiriau sy'n dechrau yn ôl trefn yr wyddor o bryd i'w gilydd yn yr ateb – yn ôl Llan +a, Llan +b – a.y.b.: Faint o enwau lleoedd a wyddoch chi sy'n dechrau â LLAN?...

megis Llanandras, Llanbadarn, Llanbedr-pont-Steffan, Llanberis, Llancarfan, Llandaf, Llandegfan, Llandeilo (Sawl Llandeilo sydd yng Nghymru? O leiaf 27.) Llandinam (cartref y dyn a adeiladodd ddociau'r Barri), Llandochoau, Llandrindod, Llandudno, Llandybïe, Llandysilio (cartref y bardd Waldo Williams), Llanddarog, Llanddewi (Sawl Llanddewi sydd? 23), Llanddowror (cartref Griffith Jones, a ddechreuodd y dosbarthiadau nos i ddysgu darllen i oedolion yn y ddeunawfed ganrif. Ef oedd arloeswr y Diwygiad Mawr i Bantycelyn a Howell Harris a Daniel Rowland.), Llanedeyrn, Llanelli, Llanfachraeth, Llanfair (Sawl Llanfair sydd? 30), Llanfihangel (Sawl Llanfihangel? 84!), Llangadog, Llangamarch, Llangawsai, Llangefni, Llangennech, Llangoed, Llangollen, Llangrannog, Llan-gwm, Llangybi, Llangyndeyrn, Llangynog, Llanhari, Llanidloes, Llanilltud, Llanisien, Llanllwni, Llanllyfni, Llan-maes, Llannerch, Llannon, Llanpumsaint, Llanrwst, Llanrhaeadr, Llanrhystud, Llan-samlet, Llansanffraid, Llansannan, Llansawel, Llansteffan, Llantrisant, Llanuwchllyn, Llan-wern, Llanwnda, Llanwynno, Llanybydder, Llanymawddwy, Llanystumdwy.

Pam y ceir y fath ddefnydd o'r gair 'Llan'?

Oherwydd bod pentrefi neu drefi yn tueddu i gael eu hadeiladu o gwmpas *eglwys*.

Ond pam *Llandeilo*, a *Llanddewi*, a *Llanbadarn*?

Dyma enwau sy'n rhan bwysig o hanes Cymru. Rhwng y bumed a'r seithfed ganrif, fe gafwyd adfywiad mawr iawn yn erbyn yr hen baganiaid a oedd yn aros mewn pocedi yng Nghymru ers y Rhufeiniaid. Y fyddin Rufeinig yn bennaf a ddaeth â Christnogaeth i Gymru yn ystod yr ail a'r drydedd ganrif. Fe daniodd y dystiolaeth wedyn dan arweiniad Illtud, Dewi, a Theilo. Nhw a'u tebyg a newidiodd fap Cymru. Daethant ag addysg ac amaethyddiaeth well, a physgota a meddyginiaeth a chyfraith a llenyddiaeth fwy eang. Gelwir y cyfnod hwn yn 'gyfnod y seintiau'. Dyma'r cyfnod pryd y troes yr iaith Frythoneg yn Gymraeg, fel y trodd yr Iaith Ladin yn Ffrangeg yn Ffrainc. Dyna'r pryd y dechreuodd llenyddiaeth Gymraeg, – yn arbennig yn y chweched ganrif. Yr oedd hi'n Oes Aur yn Hanes Cymru yn natblygiad undod y wlad. Dyma'r llannau yn ymledu i bob cornel. Ymhellach ymlaen yn Hanes Cymru, ar ôl y Diwygiad Protestannaidd a'r Diwygiad Methodistaidd, dyma Gristnogaeth yn awr yn enwi amryw leoedd Cymreig eraill ar ôl lleoedd yn y Beibl. A ellwch chi enwi rhai? Bethel, Bethlehem, Soar, Gosen, Nasareth, Bethesda, Babel, Bethania, Beulah, Carmel, Horeb, Jordanstown, Hermon, Libanus, Nebo, Peterston, Peterwell, Salem, Saron. Faint o'r rhain dych chi wedi clywed amdany'n nhw? Dyma ail don enwau lleoedd sy'n adlewyrchu hanes Cristnogol Cymru.

Dowch inni droi at grŵp arall o enwau sy'n gyfarwydd i bawb yng Nghymru ac i lawer y tu allan.... Sef *Aber*:

Gawn ni gasglu rhai o'r rheini gan y dosbarth? Mae rhai yn dweud mai lle i afon gyfarfod â'r môr yw Aber. Allwch chi feddwl am rai o'r rheini, y rhai ar lan y môr?

Aberystwyth, Aberaeron, Aberdaron, Abertawe, Aberdyfi.

Ond ble y ceir Aber heb fod ar lan y môr?

Aberdâr, Abercynon, Aberhonddu, Aberpennar.

Beth felly yw ystyr lawn Aber?

Lle cyfarfod yw rhwng dŵr a dŵr, weithiau dau neu dri dŵr fel Abertridwr, (afonydd yn cyfarfod er enghraifft, mewn llyn o bosib).

A ellwch feddwl am enwau lleoedd sydd yn dechrau â'r gair *tref* neu *tre*?

Tredegar, Treherbert, Treorci, Trefglwys, Trefforest, Treffynnon, Tregaron, Tre-fin, Tre'r ddôl.

Ond mae rhai manau sy'n cael eu hadeiladu neu eu gwneud gan bobl sy'n adlewyrchu gwaith y lle megis diwydiant neu drafnidiaeth neu weithredoedd ym mywyd y trigolion. Un o'r ffeithiau mwyaf trawiadol yw'r ffaith fod Cymru'n enwog ym Mhrydain am ei *chestyll*. Dywed hyn lawer am y gwrthryfelwyr yn ymladd am eu rhyddid yn erbyn y Brenin Edward o Loegr: Castell Aberystwyth, Caernarfon, Biwmaris, Caerfyrddin, Conwy, Harlech, a rhai cestyll Cymreig fel Castell y Bere a Chastell Dolwyddelan a Llanberis. Oherwydd hyn fe geir amryw enwau lleoedd yn cynnwys y gair Cas neu Gastell neu Gaer: fel Cas bach, Cas-flaidd, Casnewydd, Castell Caereinion, Castellnewydd Emlyn. Ac yna, Caerdydd, Caerffili, Caerllion, Caergybi, Caerfyrddin, Caernarfon, Caer-went. Tuedda'r ceirydd i fod yn hŷn ac yn fwy o faint, rhai ohonynt yn mynd yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid.

Ond ceir amryfal enwau ar leoedd eraill sy'n sôn am weddau eraill ar waith a bywyd lleol, megis y ffaith fod nifer o dai fel arfer yn cael eu hadeiladu gyda'i gilydd weithiau lle y bydd *Pont* bwysig yn croesi afon: Pontypridd, Pontarfynach, Pontcanna, Pontllanfraith; neu *Borth* – Porth-y-rhyd, Porthceri, Porthaethwy lle y gall 'porth' olygu drws neu borthladd.

Ceir hefyd enwau ar leoedd yng Nghymru oherwydd tebygrwydd i rannau'r corff. Trosiadau yw'r rhain, megis pen, tâl (talcen), trwyn, safn, braich, cefn, cesail, bron, ysgwydd, troed. Nodwch leoedd y gwyddoch amdanynt sy'n cynnwys y rhannau hyn.

### CASGLU PRIOD-DDULLIAU

Yn ein cangen leol o CYD, mae un o'n haelodau selotaf yn casglu priod-ddulliau Cymraeg

fel hobi. Mae'n dysgu un newydd bob wythnos; ac yn ceisio ffordd i ddefnyddio'r priod-ddull hwnnw yn ei sgwrs. Pan ddaw i'r dosbarth, mae'n codi'r geiriau newydd hyn gyda'i ffrindiau. Ac yn fynych, mae ganddyn nhw rai i'w hychwanegu.

Dyma sylfaen i'ch casgliad chi o briod-ddulliau. Dysgwch nhw a cheisiwch eu defnyddio mewn traethodau. Ychwanegwch at y casgliad: *mynd dros ben llestri; yr hwch yn mynd drwy'r siop; rhywbeth ar y gweill; talu'r pwyth yn ôl; tân siafins; pryd o dafod; heb flewyn ar ei dafod; dim Cymraeg rhyngddyn nhw; dim gobaith caneri* (Beth a feddyliwch yw tarddiad y priod-ddull hwn? Fe ddywedir mai dyma'r truan a gludid i'r pwll glo ac a roddid mewn mannau i arwyddo a oedd nwy marwol peryglus yno); *ar ben fy nigon; yn y pen draw; tân ar fy nghroen; eisiau bod yn geffyl blaen; llwybr tarw; ar ben fy nhennyn; yn y pen draw; ar ben arno.*

Llanwch y bylchau o'r rhestr gymysg mewn llythrennau italaidd ar y gwaelod. Cofiwch dreiglo lle bydd eisiau. Yna ychwanegwch yn y bylchau at y casgliad canlynol: fel cyn arwed â'r draenog; cyn dewed â hwch; – cyn goched â ...; cyn ddued â'r ...; cyn ddyfned â'r ...; cyn falched â ...; cyn galeted â ...; cyn syched â...; cyn wynnied â'r ...

*corcyn; paun; brân; crib ceiliog; eira; môr; dur.*

### *Diarhebion*

#### *Esboniwch hwy:*

Rhaid cropian cyn cerdded.	Gorau arf, arf dysg.
A ddwg wy a dwg fwy.	Eira mân, eira mawr.
Enw da yw'r trysor gorau.	Fe gwsg galar, ni chwsg gofid.
Un wennol ni wna wanwyn.	
Ennill ceiniog a cholli punt.	Gorau cam, cam cyntaf.
Gormod o bwdin daga gi.	A ddwg y bedol a ddwg yr ebol.
Gormod o ddim nid yw dda.	Bach a fydd bach er cymaint ei awydd i fod yn fawr.
Petai gwraig gystal ar droed ag ar dafod, ni fyddai raid wrth filgi.	

#### *Esboniwch y rhain.*

Gwell hwyr na hwyrach.	Gwell hir wedd-dod na drwg briod.
Gwell synnwyr na chyfoeth.	Gwell un 'dewch' na dau 'ewch'.
Gwir a saif.	Gwell un gair gwir na chan gair teg.
Gŵr cywir yw amser.	Ni châr buwch hesb lo.

Ni chân y gog ond a ganodd.  
Nid oes o rodd namyn o fodd.

Nid â bwyell mae canu crwth.  
Nid yw'r haf yn para byth.

*Ar waelod y rhestr hon fe roddir casgliad cymysg o'r geiriau llanw. Dodwch hwy yn y bylchau iawn. Ac esboniwch hwy wedyn:*

O gyfoeth y daw gofid.  
Os mynni glod bid farw.  
Pan gyll y call, fe gyll ymhell.  
Tor dy wisg yn ôl y .....  
Trech awen na dysg.  
Y fesen yn ..... a ddaw.  
Yng ngenau'r sach mae cynilo.  
Yn araf deg mae dal iâr.

O fugail aeth Dafydd yn llywydd llu.  
Pan fo llawer yn llywio, fe sudda'r .....  
Tafod hir, llaw fer.  
Trechaf treisied; gwannaf gwaedded.  
Unwaith yn ddyn, a dwywaith yn .....  
Ym mhob gwlad y megir glew.  
Yn araf mae mynd .....

*llong; ymhell; brethyn; blentyn; dderwen.*

## **CYD**

Dyma'r pennaf o'r Gweithgareddau.

Mae CYD yn llawer mwy na gwirfoddoli. Canfyddiad trawiadol iawn ynddo'i hun yw gwirfoddoli di-dâl, ym maes egni. Mae'n weledigaeth ddeinamig gadarnhaol. Ond y mae'r ail gam – gwirfoddoli i beth? – yr un mor bwysig. Gwirfoddoli i gwllwm perthynas yw: i fath o deulu. Dyw gwirfoddoli ddim yn ddigonol ar ei ben ei hun, felly, megis iaith ei hun. Fe'n crewyd ni i deulu. Gwirfoddoli i fath o gymdeithas, felly, yw'r cwlwm: i fath o gytundeb, i gyd-symud mewn modd sylfaenol greadigol.

Mae hynny'n creu sefydliad deinamig sy'n sylfaenol i natur ddynol y dysgwr a'r cydymaith rhugl mewn cymdeithas. Drwy sefydliad felly y gellir parhad. Ond gellir mwy na hynny. Mewn perthynas ffyddlon a rheolaidd o'r math hwn, ceir mwynhad. A'r math hwn o fwynhad yw'r nod.

Un o'r pynciau cyson a drafodir gyda budd mawr yng nghyfarfodydd gwirfoddol CYD yw llyfrau. Cam pwysig ymlaen yn natblygiad CYD fu cysylltu'r symudiad â darllen a thrafod, weithiau â chwisiau a chystadleuthau ynghylch y llyfrau. Mae llyfrau'n darparu cymeriadau, digwyddiadau, ac amgylchiadau sy'n crisialu bywyd dychmygol a real. A rhywsut, mae'r delweddau bywydol hyn yn lledu ac yn estyn dysgu iaith, ac yn clymu cymdeithas a'i dyfnhau.

## 23. DULLIAU

### *Yr Eirfa a'r Patrymau Gramadegol*

Mae gan bob athro ei ddull ei hun o ddysgu. Gyda rhywrai, mae'n cymryd amser i athro neu athrawes ddod o hyd i'w arddull ei hun. Yn hyn o beth gall fod yn werthfawr i bob un feithrin a dethol y ffordd y mae am arbrofi gyda'r gwaith; ac yn hyn o beth, does dim un *ffordd* unffurf o gyflawni'r dasg.

Ond y mae pawb yn mynd i wynebu rhai o'r un problemau. Da yw trafod y rheini. Ar y pwyntiau mwyaf anochel, sy'n dod ar draws llwybr pawb y bu'r gyfrol hon yn ymdroi, megis yr angen i sefydlu olyniaeth wrth ledi geirfa, a lledu cyfuniad patrymau. Nid un dull sydd. Nid 'dull' oedd y pennawd uchod, ond 'dulliau'.

Buwyd eisoes yn cyffwrdd â'r mathau hyn o ddulleg ac o ymarfer:

*Ymarfer â Phatrymau; Holi ac Ateb; Lecture Expliquée; Mim-mem; Drilio; Ynganu.*

Ni ellir yn y Gymraeg osgoi'r cwestiwn o ddiben wrth drafod model o iaith, boed yn *Iaith Lafar Safonol*, yn *Iaith Lenyddol Safonol neu'n Dafodiaith*. Ac y mae dewis o'r fath yn dylanwadu ar ansawdd ac arddull y cwrs. Efen wrth benderfynu dull yw hynny.

Rhaid i bawb sy'n mynd i baratoi cwrs newydd feddu ar ryw gefndir o Ymchwil, neu o fyfyrddod.

Yr un pryd, wrth geisio bod yn gatholig, mae'n anochel hefyd fod pob un yn y maes yn meithrin argyhoeddiad ynghylch cyflwyno. A'r argyhoeddiad gennyf i o ran Dull yw mai *Holi ac Ateb* yw'r sylfaen orau yn ystod rhan gyntaf cwrs i Oedolion. Allan o hynny neu o'r tu mewn iddo, y tyf *Drilio ac Ymarfer â Phatrymau* ac y symudir ymlaen ar ffurf *Lecture Expliquée* sy'n estyniad; ac yna, ceir *Ymddiddan Rhydd*.

Mae amrywio dulliau dysgu yn amheuthun i fywyd dosbarth: actio, canu, cyfieithu, chwaraeon, ysgrifennu llythyr neu ddyddiadur, ymddiddan rhydd. Cyflwynir y rhain gan drefn benodol arall ar y dechrau, sef gwrando-siarad-darllen-ysgrifennu. Ond wedyn cyd-ddigwyddant.

Wrth ystyried y ddau fath o Ddeunydd yn y Cwrs, sef yr Eirfa a'r Patrymau Gramadegol, yr wyf am ganolbwyntio am dro ar Eirfa, fel y symlaf o'r ddau. Y mae trafod yr amrywiaeth o ddulliau o gyflwyno Geirfa yn dal yn wir hefyd i raddau helaeth ar gyfer cyflwyno Patrymau Gramadegol.

'Ymarferion' fydd y term technegol ar gyfer y 'mynegiant' o ddulliau. A thrafodwn rai

posibiliadau o blith ymarferion er mwyn amlygu rhai ffyrdd o drafod y broblem o gyflwyniad.

## COLOFNAU

Gofynnir i'r dosbarth ddarllen y geiriau canlynol, ac yna eu dosbarthu'n barau 'cyferbyniol' mewn pedair colofn: Enwau, Ansoddeiriau, Berfau, ac Adferfau:

Gosodir yn gyntaf bedair enghraifft, sef

<i>Enwau</i>	<i>Ansoddeiriau</i>	<i>Berfau</i>	<i>Adferfau</i>
gŵr, gwraig	cynnar, hwyr	mynd, dod	i lawr, i fyny

Mae'r geiriau canlynol yn rhestr gyflawn, wedi'u cymysgu. Doder hwy'n barau cyd-ystyrlon neu gyfatebol o dan y penodau priodol: e.e. caled, meddal; mab, merch.

Caled, cryfhau, mab, yma, tywyll, gwerthu, pen, heddiw, allan, caledrwydd, echdoe, cofio, byr, yn ôl, colli, gorffwys, ar frys, acw, buwch, trymder, cynffon, dydd, cau, ewythr, ymlaen, gan bwyll, ennil, derbyn, hir, tarw, bach, yn segur, drud, cychwyn, araf, erioed, brenhines, disgyn, pell, modryb, yn wellwell, anghofio, iechyd, trwm, goleuni, ateb, hen, sefyll, mawredd, drwy deg, gwaith, darllen, sâl, colli, lleiaf, esgyn, uchel, byth, tenau, meddal, meddalwch, i mewn, rhad, cael, ysgafn, gwanhau, merch, acw, cyflym, agor, nos, yfory, drwy hagr, gorffwysfa, sgrifennu, iach, salwch, gweithio, tew, agos, bychander, tywyllwch, cynnig, mawr, prynu, ysgafnder, ifanc, gorwedd, ddoe, yn weithgar, brenin, cyrraedd, mwyaf, isel, gofyn, draw.

## CWIS

Gellir defnyddio Cwis fel rhan o waith dosbarth, neu fel eitem yn Eisteddfod y Dysgwyr. Mae 'cwisiau' yn ddull ychydig yn all-gyrsiol o gynnal holi-ac-ateb, ac yn rhan o 'Weithgareddau'. Gellid cyfyngu ar faes y Cwis os bydd y dosbarth yn weddol unffurf o ran swyddi neu ddiddordebau: clwb rygbi, er enghraifft neu wleidyddiaeth:

e.e. Beth yw enw *Prifddinas* Iwerddon, Unol Daleithiau America, Ffrainc, Yr Eidal, Sbaen, Portiwgal, yr Almaen, Sweden, Norwy, Awstralia, Tsheina, Japan, Corea?

Beth yw enw cyntaf prif weinidog Cymru, yr Alban, Lloegr?

Beth yw enw Arlywydd America, Rwsia, Ffrainc?

Beth yw enw gweinidog Tramor Prydain?

Enwch y mynydd uchaf (a) yn y byd, (b) ym Mhrydain, (c) yng Nghymru.

Rhowch enwau tri aderyn sy'n dechrau â'r llythyren B.

Rhowch enwau'r llythyren gyntaf a'r olaf yn yr Wyddor Roeg.

Rhowch enwau'r llyfr cyntaf a'r llyfr olaf yn (a) Yr Hen Destament, ac yn (b) Y Testament Newydd.



Ar ba ddyddiad y mae Dydd Calan?

Pryd mae'r diwrnod mwya hir yn y flwyddyn?

Pryd mae'r diwrnod mwya byr yn y flwyddyn?

Pryd mae'r dydd a'r nos yr un hyd yn ystod y flwyddyn?

Pryd mae'r gwcw'n dod i Gymru?

Pa gysylltiad o ran sŵn sy'n gyffredin i Wlad Iorrdonen ac i Rydaman?

[Amman yw prifddinas gwlad Iorrdonen]

Ceir rhagor o ddefnydd Cwisiau yn *Cymraeg i Oedolion II*, 1966, tt 105-109.

#### DAN Y CAPTENIAID

Dyma'r naw capten: (a) adrodd (b) moronen (c) llwy bwdin (ch) swyddfa (d) diogel (dd) maes (e) clust (f) chwarelwr (ff) Gwyddel

Cymerwn eu bod yn cynrychioli dosbarth o ystyron. Gosodwch y geiriau canlynol yn rhes odanynt yn ôl safle'r capten: hynny yw, grwpio yn ôl ystyr, sefyllfa, neu ffwythiant. Mae dull y pos hwn yn fuddiol wrth *feddwl* ynghylch geirfa:

cenedl, llechi, rhydd, llaid, ysgyfaint, rhostio, bresychen, pabell, penelin, pobydd, ateb, cylllell, dyffryn, mynd â, pwdin reis, clywed, peryglus, llwy de, theatr, ewin, gŵydd, caws, ffermwr, peidio â, llyn, pafiliwn, desg, llo, cawl, athro, fforc, ynys, teleffonio, coleg, lliain, cenedlaethol, praid, dŵr, Sais, mochyn, gwallt, castell, llwy fwrdd, glöwr, Iwerddon, gêm, pilio, oren, rhaeadr, gên, cig eidion, llwyfan, sosban, Rhufain, gyrrwr, amddiffyn, gwefus, cystadlu, gwin, peiriannydd, yr Almaen, parc, llygad, pysgodyn, ffeiliau, siŵr, llygad, anifail, Prydain, pen-lin, tsips, stumog, morwr, gwartheg, rhestr, chwysu, blasus, darllen, wyneb, milwr, ysgwydd, garddio, cae, bawd, streic, cyhyrog, annwyl, cyfrinachol, llidiart, byddar, cynffon, pysgotwr, cegin, gweirglodd, preifat, ysgrifenyddes, clawdd.

*Enwch y geiriau uchod y gellir dweud eu bod yn perthyn i fwy nag un capten.*

#### ARDDYWEDIAD

Dyma ymarferiad achlysurol prin, esoterig hyd yn oed. Ni fydd angen ei ddefnyddio ond rhyw ychydig o weithiau yn ystod y ddwy flynedd cyntaf. Ond gall fod yn offeryn hylaw. Mae'n cymell gwranddo'n astud, yn helpu cynaniad, ac yn hyrwyddo'r cyswllt rhwng y llafar a'r llyfr.

## CYWIRO GWALLAU

Gellid casglu camgymeriadau dienw gan y Dysgwyr. A gall pob un yn y dosbarth fod yn athro i'w cywiro.

## ATREFNU CYFIEITHU

Gofynnir am atrefnu rhestr 2 i gyfateb i restr 1: gellid *cyferbynnu* neu *gyfystyru*.

ychydig o amser yn ôl	a month ahead
glanhau'r car	a fortnight ago
agor yr amgueddfa	moving from the house
amser cinio	a short while ago
mewn pythefnos	another foot
dysgu ei ran	locking the library up
cloi'r llyfrgell	breakfast time
ymhen mis	cleaning the car
un droedfedd arall	closing the museum
mudo o'r tŷ	learning his part

## GWAHANIAETHU

Gofynnir am frawddegau i ddangos y gwahaniaeth rhwng –

Cymru, Cymry; glân, glan; adnabod, gwybod; melin, melyn; rhy, rhu; cynghorion, cynghorau; oes, ydy; mewn, yn; y, yr; ydyn, maen.

\* \* \*

Weithiau, gellir defnyddio gwahanol ddulliau er mwyn dysgu'r un peth, yn syml er mwyn amrywio. Nid nod y Dysgwr yw *adeiladu* ffurf frawddegol, eithr *defnyddio* brawddegau'n ymarferol. Mae bryd y Dysgwr ar gyfansoddi'n bwrpaslon, yn sydyn reddfol. Ar gyfer hyrwyddo hynny y defnyddir drilio, disodli, ac ymarfer â phatrymau, gan arwain at ymddiddan rhydd. Ceisiais dynnu sylw yn y fan hon at wahanol fathau o ymarferion gan fod amrywiaeth yn bwysig ac yn gymorth i fywydu dosbarth. Ond y mae paratöwr cwrs yn ymwybodol iawn – drwy'i ddefnydd o ailadrodd a chyferbynnu, llenwi bylchau e.e. newid berfenw i ffurf bersonol mewn darn darllen, rhoi rhagenw yn lle enw, newid amser berf drwy gydol paragraff, a.y.b. – o Undod cyflawn cyfansoddi Cwrs, ac felly'n cadarnhau o hyd hen egwyddor Amryw mewn Un.

## 24. NODYN AR YR IAITH LAFAR SAFONOL

Bu llawer o waith ar hyd y blynyddoedd yn yr ymdrech i gytuno ar Fodel neu ar Gyd-fodelau (De a Gogledd) i ddysgwyr o'r Iaith Lafar Safonol. Cytunwyd gan bawb profiadol sydd wedi dysgu dros gyfnod o amser fod y fath ffenomen ar gael. Ond mae'n anochel fod y pwnc hwn yn cael ei drafod yn gyfochrog â safonau'r iaith lenyddol. Rhan o gwrs cyflawn yw esbonio'r gwahaniaethau rhwng y ddau gywair. A cheisiais uchod lunio nodyn *Gwers ar y Cywair Llenyddol*.

Bûm yn gadeirydd ar Bwyllgor CBAC ar *Ffurfiâu Ysgrifenedig Cymraeg Llafar* CBAC 1997. Bellach, drwy brofiad y mae angen bod yn hunanfeirniadol o hynny, a derbyn diwygiadau neu gywiriadau sydd wedi codi wedyn. Dylai hir brofiad bellach fod wedi sefydlu rhai gwelliannau, ac arddangos gwendidau pwyllgora ar hyn.

Ond ni chafwyd digon o gytundeb cyffredinol. Yr hyn a ddigwyddodd weithiau oedd derbyn ffurf anfodddhaol a oedd yn y rhestr, a'i gwneud yn arferiad, ac yna wrth gwrs, yn geidwadol, ei charegu'n ffurf i'r Sefydliad. Ac nid dyna'r ffordd i sicrhau sefydlogrwydd.

Lluniais bennod yn *A fydd y Cymry Cymraeg mewn Pryd?* 2011 (Y Wefan), tt. 77-89 'Model Iaith Lafar Safonol (Ysgrifenedig)' oedd teitl y bennod. Bu'r bennod yn ceisio trafod rhai o'r problemau sydd wedi aros yn y frwydr o blaid 'cytundeb'. Bûm yn ceisio gwylid y duedd yn ystod y tair blynedd diwethaf yn arbennig, gan obeithio bod rhai o'r problemau a godais yn y bennod honno yn dechrau setlo fwyfwy. **A thybiaf fod angen Canolfan Ymchwil i ystyried yr anghenion.**

Nodaf rai *enghreifftiau* o drafferthion ymarferol sy'n rhwystro Model i'r dosbarthiadau rhag ymsefydlu. Ceir dwsinau cyffredin o'u math; ac mae hi'n broblem ddifrif.

Mae'r ferf 'bod' wedi cael gwared gan bwyll â 'Dydy e'. e.e. 'Dydy e ddim yno.' Y gwir yw, roedd 'Dydy e' yn ffurf hollol annaturiol. Mae 'Dydy o ddim' yn cael ei ddefnyddio, mae'n wir. Ond mae'r llafar safonol [didafodiaith, ond Model y De] yn derbyn 'dyw e ddim', er mor fyw yw'r posibiliadau tafodieithol, ac mae'n ymddangos mai dyna sy'n fwyaf boddhaol. Yr un pryd, erys o hyd yn ffurf ogleddol (Dydy o ddim) ac yn llafar safonol ogleddol.

Mae'r ffurf ar gyfer terfyniad person cyntaf y ferf, cadw neu golli 'f' yn dal yn destun dadl: gwnaf / gwna, rhedaf / rheda, gallaf / galla, medraf / medra. Mae 'dw i' hefyd yn ymwarded ag 'f' yn yr un ffordd. A theimlaf mai dyna sy orau mwyach, ac yn gyson felly, gyda'r berfau eraill. Cf. yr arddodiaid *arna i, amdana i, ata i, ohono i, dana i, wrtho i, hebdo i, drosto i*. [gw. Sylwadau Ifor Williams ar hyn yn y drafodaeth ym mhennod 19.]

O'r problemau eraill a erys yn gyndyn rhag iddynt ildio i unrhyw fodel, yr amlycaf sydd ar ôl yw'r ymgais i drafod 'fy'. Ailadroddaf neges CBAC ym 1991: 'ysgrifennu *y* + treigladd trwynol lle y bo'n bosibl, ac *yn* gyda phopeth arall – *y nhad, yn afal i, yn siswrn i.*' Efallai bellach mai aros gydag **yn** yn unig fydd orau. Yn ei hunan-gofiant, y mae Cynog Dafis wedi osgoi 'fy' yn gyfan gwbl. Dyna i chi ryfeddod mewn hunan-gofiant.

Yn ystod y bennod cyn hyn, enghraifft seml a normal a gododd i mi oedd y ffurfiau 'hwyaf' a 'byrraf'. Mae yna sawl broblem yn y fan yma heblaw 'hwyaf' a 'byrraf'. Gellir cymeradwyo 'hira' ar gyfer 'hwyaf', a chadw 'byrraf'. Ond pam, os yw 'hwyaf' yn safonol ar lafar? Os yw 'mwyaf twym' a 'mwyaf oer' yn gyffredin, pam lai na 'mwyaf hir'? a 'lleiaf byr' fel pâr naturiol. Y gwir yw, mae'n annheg gadael yr athro na'r tiwtor yn weddol amddifad, ac yn gyfrifol am ormod o **benderfyniadau llac** a chyffredin. Rhaid i rywun neu rywrai adolygu'r problemau hyn oll yn fwy trwyadl dros gyfnod hir o amser, heb adael bylchau dyrys. Mae'n hen hen bryd sefydlu ateb sy'n trafod egwyddorion ac yn dynodi esboniadau sut y daethpwyd i ben â phenderfyniadau cadarn.

Ymhlith y problemau a gododd wrth sefydlu confensiwn sillafu'r iaith lafar safonol y mae 'Yr ydym ni. Nid ydym ni. Nid ydynt hwy' / 'Dŷn ni. Dŷn ni ddim. Dŷn nhw ddim'. Meiddiwyd torri confensiwn yn y fan hon felly wrth ddodi acen grom uwchben yr 'y' er mwyn gwahaniaethu rhwng 'dyn' (gŵr y ddynes) yr enw a 'dŷn ni' (ydym ni) y ferf.

Mân broblemau gwasgaredig o'r math yna yw'r rhai pennaf a erys, mae arnaf ofn, er bod angen bob amser am gasglu egwyddorion. Y gobaith pennaf yn y dyfodol yw y bydd Canolfan Ymchwil gennym a fydd yn gallu myfyrio, rhannu gwybodaeth, trafod, a chytuno ar egwyddorion a ffurfiau, ac yna y bydd yno gysondeb cryno (wedi ymgynghori eang) yn tyfu wrth lunio cyhoeddiadau mewn llafar safonol yn y dyfodol, cysondeb lle yr esbonnir y rhesymau dros y dewis.

## 25. NODYN I'R ATHRO AR LENYDDIAETH GYMRAEG

Weithiau, y mae dosbarth neu unigolion o ddysgwyr mewn oed yn chwilfrydig ynghylch llenyddiaeth Gymraeg. Ac fe holant ar eu liwt eu hunain. Ond hyd yn oed os na ofynnant, mae'n briodol, rywbryd, i athro ar ôl ychydig o flynyddoedd gyda nhw, 'grybwyll' neu 'ddweud gair' am ein llenyddiaeth. Nid darlith, ond tamaid byr o leiaf i aros pryd.

Efallai y bydd llinyn bach o nodiadau cryno yn cynnig sgerbwd cyflym.

Cefais sioc yn ddiweddar wrth sylweddoli'r bwlch mawr rhwng yr wybodaeth helaeth a oedd gan fyfyrwyr chwarter canrif yn ôl am gydol ein llenyddiaeth, o'i chyferbynnu â phrinder addysg gyffredinol myfyrwyr Cymraeg eu hiaith heddiw. Cafwyd cilio. *Ychydig yw'r sylweddoliad sydd gan y Cymry Cymraeg heddiw am faintioli anghyffredin ein llenyddiaeth, am ei hynafiaeth, na'i dylanwad byd-eang.* Ychydig o bwyslais a glywsant yn eu haddysg am safon ac ansawdd llenyddiaeth. Nid ydym am ryw reswm yn synied y byddai addysg gyffredin y Cymry *Di-Gymraeg* yn amgen, er y gallai dyn ddisgwyl y byddai diwylliant eu cefndir cyffredinol yn cynnwys rhyw sylweddoliad bod eu gwlad wedi bod am gyfnod yn un o wledydd mwyaf cyfoethog ei llenyddiaeth yn Ewrob. Anwybodaeth gyffredinol ronc yw hyn. *Roeddwn i wedi synied bod pobun yng Nghymru yn gwybod o hyd y ffaith seml fod llenyddiaeth Gymraeg yn hynafol iawn.* Roedd dyn yn agor yr *Oxford Book of Welsh Verse*, gol. Thomas Parry 1962 gynt – sy'n dal fel y detholiad gorau o'n prydyddiaeth er mawr gywilydd i ni – ac yn y fan yna, mae'r casgliad yn dechrau gyda **Thaliesin ac Aneirin yn y chweched ganrif**. Yn yr Alban ac yng Nghymru, yr oedd y beirdd Cymraeg hyn yn canu gydag eraill. Ond ni wyddom am waith beirdd eraill y pryd hynny ond eu henwau bellach, megis Blwchfardd, Cian, a Thalhaearn. Canwyd telynegion ac arwrgerdd nodedig iawn er y dechrau. Codent ysgolion barddol, mae'n debyg, a pharhaodd y traddodiad drwy'r seithfed ganrif. Yn ôl pob tebyg llunient gerddi soffistigedig a gwâr.

Ceid wedyn yn y **nawfed ganrif** ganu gwahanol, **sagâu barddol** ar hyd gororau Cymru, weithiau gyda thinc mwy telynegol. Yr oedd y gerdd (199 o linellau) 'Armes Prydain' hithau, a luniwyd tua 900, yn fynegiant cynnar pwysig ac anghyffredin o genedlaetholdeb.

Hynny yw, chwep ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid ceid corff cadarn o lenyddiaeth ac iddo arbenigrwydd Ewropeaidd o ran safon ar y pryd.

Wedyn, cefais sioc fwy. Yr oedd y **Mabinogion** a fu mor adnabyddus hyd yn ddiweddar ymhlith y Cymry Cymraeg wrth gwrs, mor rhyfeddol o adnabyddus, wedi cael eu cyfieithu i'r Saesneg mor aml yn y ganrif ddiwethaf nes fy mod heb sylweddoli bod llawer iawn o bobl ddiwylliedig yn ein gwlad heddiw heb yr un clem bod y chwedlau cain hyn ar gael o gwbl. Yr oedd y Pedair Cainc (dwy o'r De a dwy o'r Gogledd) mor wahanol ac eto mor unedig eu cyfansoddiad

cain. Cynhwysent gymeriadau traddodiadol arwrol a themâu rhyngwladol a blas mor Gymreig arnynt. Peth prin yn yr Oesoedd Canol yn unman yw cael llawysgrifau o'r cyfnod hwnnw sy'n cynnwys corff o ryddiaith storïol mor hynod gaboledig. Cyfieithwyd y rhain i amryw o ieithoedd yn yr ugeinfed ganrif. Ond yr oedd y Rhamantau eisoes yn hysbys drwy Ewrob yn yr Oesoedd Canol.

Dyma ddiwylliant Cymraeg sy'n dal yn ddieithrwyd ac yn gudd i lawer iawn o'n cyfoeswyr addysgedig.

Drwy gydol y canrifoedd hyn rhwng yr unfed ganrif ar ddeg ac ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg cafwyd trideg saith o **Ogynfeirdd**. Meddylwch. Mae ar gael 12,500 o linellau o waith y beirdd hyn, yn ganu mawl, yn ganu crefyddol, ac yn ganu serch. Mae'r cwbl wedi'i olygu gan ysgolheictod modern. Hyd yn ddiweddar, nid oedd neb ers canrifoedd yn clywed llawer am waith y beirdd hyn. Darganfuwyd Llawysgrif Hendregadredd ym 1912 ym mhlasty Hendregadredd 'in an old bachelor's wardrobe in an old disused bedroom.' Dyma brif ffynhonnell gwaith Beirdd y Tywysogion. Dangosodd Daniel Huws i'r rhan fwyaf o'r llawysgrif honno gael ei hysgrifennu yn Abaty Ystrad Fflur tua 1300 yn fuan wedi cwmp Tywysogaeth Gwynedd. Mae cryn dipyn o'r gwaith hwn yn farddoniaeth hyfforddedig fawr. Ond barddoniaeth anodd ysgolheigaidd yw.

Cyfrifir mai Cynddelw Brydydd Mawr oedd y mwyaf o'r beirdd hyn, ac erys 48 o gerddi ar ei ôl. Cafwyd barddoniaeth gaboledig a phroffesiynol gan unigolion a oedd wedi'u hyfforddi mewn ysgolion barddonol. *Yn eu plith ysgrifennwyd – gan Ruffudd ab yr Ynad Coch – y gerdd orau erioed gan Gymro.* Dyna'i gerdd farwnad i Lywelyn yr Ail, ar ffurf delwedd o ddiwedd y byd. Ond faint o'n pobl sy'n gwybod am hyn?

Arweiniodd hyn oll at uchafbwynt egni dychymyg llenyddol Cymru **yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg**, pryd y cododd ein bardd mwyaf oll sef **Dafydd ap Gwilym**. Cafwyd amryw feirdd nodedig iawn fel Iolo Goch, Gruffudd Gryg a chriw nodedig o feirdd eraill yn gyfoeswyr i Ddafydd. Yna yn y bymthegfed ganrif ('**Y Ganrif Fawr**' yn ôl Saunders Lewis) a hanner cyntaf yr unfed ar bymtheg, cawsom y cyfnod mwyaf egniol a llewyrchus yn hanes ein llenyddiaeth.

Byddaf yn synied mai'r peth mwyaf anghyffredin ac annisgwyl yn hanes y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd codiad y **Gynghanedd**. Nid un bardd oedd yn gyfrifol am y rhyfeddod hon. Gwaith cyfansawdd oedd, ac yn wir yn isymwybodol ddatblygol y'i cafwyd. Dyma yn ôl pob tebyg y gelfyddyd seiniol fwyaf cywrain ym marddoniaeth y byd. Dywedwyd am y grefft hon yn *The Princeton Encyclopedia of Poetry and Poetics*, '**the most sophisticated system of sound-patterning practised in any poetry in the world.**' Profir bod yna wedd isymwybodol gynulleidfaol wedi bod i'r datblygiad, wrth weld cywreinrwydd twf y gyfundrefn o feiau a gafodd ei chyfrif yn awdurdodol, heb esboniad ar y pryd, ac a ddatblygodd yn araf deg, rhwng y beirdd a'i gilydd heb ddeall pam, ond sylwi ar ôl iddo ddigwydd. Cyfundrefn nid annhebyg o ran arafwch y

sylw ysgolheigaidd ynghylch ei ffurfiant oedd y cynnyrch isymwybodol o gyfundrefn treigladau caled a ddatblygodd, gyda rheoleidd-dra araf-wawriol, drwy gyfuno cytseiniaid meddal: dyma ddatblygiad sy'n dal i dyfu'n fwyfwy amlwg ymhlith beirdd diweddarach heb fod yn ymwybodol. Hynny yw, mae trefn y Gynghanedd yn dal i dyfu. Mae'r grefft yn ei llawnder yn dra astrus i'w meistrol'n gryf, ac o'r tu mewn i delynega melys ac ysgafn y'i cafwyd ar ei godidocaf. [Dychwelir i fanylu'n fwy amyneddgar am y ffenomen hon ym mhennod nesaf y gyfrol bresennol.]

Canai **Dafydd ap Gwilym** am grefydd, serch, natur, ac yn waelodol am y rhyfeddod ohono'i hun a'i chwithdod a'i sgeptigrwydd a'i syfrdandod personol; weithiau'n storïol, ond bob amser yn seinber arbrofol. Gadawodd gorff sylweddol o gywyddau ar ei ôl. Pan ganai ef am uchelwyr, canai fel un cyfartal â hwy ac yn achos Ifor Hael gyda hoffter annwyl a oedd yn fwy na'r hyn a geid yng ngherddi clod y beirdd crwydr arferol. Darluniai hefyd, ymhlith y cerddi niferus i ferched, mewn dwy gyfres, ddwy gariadferch gyferbyniol – y naill oedd Morfudd, gwraig anffyddlon i un o fasnachwyr Aberystwyth, creadures nwydwyllt, a Dyddgu oedd y llall, y foneddiges fwy anghyrraedd. Rhan arall o'i hwyl oedd y ffug farwnadau i'w gyfoeswyr barddol dawnus: yr enwocaf oedd Gruffudd Gryg, yna Madog Benfras, Gruffudd ab Adda. Cyfoeswr galluocaf Dafydd oedd Iolo Goch: ef oedd bardd llys Owain Glyndŵr, yn Sycharth. Ond canai hefyd ganeuon serch dramatig. Heblaw cymhwyso traddodiad ysgafn y cywydd i gyflawni gwaith urddasol y noddwyr uchelwrol, fe luniodd Iolo Goch gywydd annisgwyl o wreiddiol i foli swyddogaeth y 'llafurwr' a chywydd arall ar ffurf breuddwyd i Gastell Cricieth. Efallai mai cywydd Llywelyn Goch ar farwolaeth ei gariadferch Lleucu Llwyd oedd y fwyaf calonrwygol o'r holl gywyddau hyn.

Yn gyfoed â hwy ceir dechreuadau beirniadaeth lenyddol Gymraeg gan Einion Offeiriad a Dafydd Ddu Hiraethog yn y disgrifiadau arloesol o gyfundrefn astrus y gynghanedd.

Pan ymagorodd y **bymthegfed ganrif**, fe gafwyd **cnwd o benceirddiaid eithriadol o fedrus** – Guto'r Glyn, Dafydd Nanmor, Lewys Glyn Cothi a Gutun Owain. A dau a safai ychydig ar wahân i'r llall – Siôn Cent a'i ddychan a'i ddelwedd greulon o farwolaeth a Gwerful Mechain, bardd benywaidd mwyaf yr iaith cyn Ann Griffiths. Yn y bymthegfed ganrif roedd y cyfuniad o grefft gaboledig a hiwmor, angerdd hiraethus, amlochredd testunol, caredigrwydd personol, a dwyster ysbrydol yn amheuthun o fewn traddodiad a fawrygai werth a phwysigrwydd bywyd gwareiddiedig.

O 1536 ymlaen fe geid chwyldro. Ymddengys fod newid chwyrn cymdeithasol a llenyddol wedi digwydd. Newidiodd ein llenyddiaeth yn sylweddol iawn.

Eisoedd rhwng y chweched ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg, adeiladwyd y **myth unedol o Gymru**. Sefydlwyd **ymwybod o ffin, yr iaith, y we grefyddol o lannau, y ddeddf, a'r traddodiad o ganu mawl ledled y wlad a greai fath o ddiffiniad o genedl, gyda theuluoedd yn cyd-wau drwy'i gilydd.**

Bron yn ddisylw i drwch y boblogaeth, am ddau gan mlynedd, o **1536 ymlaen** yr oedd math o ganolbwynt newydd a symudodd yn nisgyrchiant y wlad gan ddechrau ymffurfio y tu allan iddi. Canolwyd y grym yn awr fwyfwy yn Llundain: o ran masnach, arian, deddf, ffyrdd, addysg, delwedd uwchraddoldeb, ymfudo, y meddwl cymdeithasol. Ar ôl 1536, dechreuodd y canu mawl a'r nawdd i farddoniaeth a'r hyfforddiant barddol wywo. Llithrodd gwreiddioldeb llenyddiaeth Gymraeg. **Sylfaenwyd canu rhydd cynnar**. A symudodd y pwyslais hyd yn oed yn y traddodiad cynganeddol fwy drwy'r dosbarth canol newydd i'r werin. Yr un mor drawiadol, onid yn fwy felly, oedd sefydlu **Rhyddiaith Fodern Hiwmanistaidd** y Dadeni Dysg a'r Diwygiad Protestannaidd, y naill yn rhan o'r llall. Dyna'r pryd yr arloeswyd mewn ysgolheictod a **dysg Gymraeg fodern**, gyda dylanwadau o Filan a'r Iseldiroedd, gyda Gruffydd Robert, William Salesbury, Siôn Dafydd Rhys, William Morgan, a Dr John Davies, amryw yn gyfieithwyr. **A'r pennaf o'u campau oedd y Beibl**. Profodd hyn yn ddylanwad ieithyddol, llenyddol a diwinyddol newydd ac yn arweiniad o fath i lenyddiaeth a oedd yn colli gwreiddioldeb i raddau, am ddwy ganrif a hanner, hyd at Syr John Morris-Jones. Cafodd ddylanwad ysgubol.

Symbol o'r gwrthdrawiad rhwng dau fyd – byd Cymru'r Oesoedd Canol a byd y Dadeni oedd y ddadl bwysig a gafwyd rhwng Edmund Prys y bardd amaturaidd a'r meddyliwr modern o Feirionydd a Wiliam Cynwal y bardd proffesiynol a'r ysgolhaig traddodiadol henffasiwn. Cafwyd ffilyd o gyfieithiadau gan bobl fel Morris Kyffin, Huw Lewys a Rowland Vaughan, a'r hyn a alwyd yn 'feddwl y cyfieithydd'. Yr unig feddyliwr a rhyddieithydd creadigol sylweddol oedd Morgan Llwyd a luniodd sawl cyfrol a gyflwynai alegoriaeth liwgar a myfyrdod profiadol dwys.

Un newid arwyddocaol yn hynt ein llenyddiaeth oedd y tro a gafwyd o Groniclau'r Oesoedd i Haneswyr lliwgar a bywiog y Diwygiad Protestannaidd yn *Y Ffydd Ddi-ffuant* Charles Edwards 1677 a *Drych y Prif Oesoedd* 1740. Newidiodd y dull o feddwl am hanes ein gwlad er mwyn dehongli sut y crewyd Cymru ddiweddar. Dechreuwyd meddwl mwy am Gymru fel uned ysbrydol nag a wnaethpwyd ers canrifoedd.

Heblaw Morgan Llwyd, yr unig ryddieithwr gwreiddiol eithriadol ddawnus oedd Ellis Wynne a'i *Gweledigaethu y Bardd Cwsc* 1701. Dan ddylanwad *Los Suenos* gan Quevedo, yr hyn a wnaeth Ellis Wynne oedd cyflwyno inni Ddinas megis Llundain, lle y ceid tair stryd yn fframwaith o dair gweledigaeth – Strydoedd Balchder, Elw, a Phleser. Yma y cawn ddychyan 'bwrlesg' dinesig a fuasai'n symbol o'r Gymru Newydd. Nid hynny oedd nod Ellis Wynne yn fwriadus. Ond hynny a gyflwynodd ef yn anymwybodol. Cafwyd grym y byd newydd: Llundain, prifddinas i Gymru fodern. Ac yn wir, allan o honno, cododd math o Gymru newydd – y Cymmrodorion a'r Gwyneddigion ynghyd â Lewis Morris a Richard Morris a'r math o 'bobl busnes' newydd a ymgasglodd o'u deutu, gyda'r radical athrylithgar Iolo Morganwg (o'r Ymoleuo Cymreig), a hedyn



yr Eisteddfod gynulliol a fuasai'n tyfu'n symbol torfol ac yn gynullfan i fawreddogrwydd poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ddiwydiannol. Dechreuwyd cefnu ar yr hen Gymru fugeiliol, a dechrau o'r newydd ail-sefydlu Cymru gosmopolitaidd.

Ochr yn ochr â Llundain, yr oedd yna ddau chwyldro a ymagorodd yn y ddeunawfed ganrif, ac a ymestynnodd ac a ymledodd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn elfen mewn chwyldro bydeang. Yn gyntaf, cafwyd **profiadaeth egnïol a ffrwythlon y Diwygiad Methodistaidd**, gyda'r meddwl Calфинаidd, gwerinol. Dyma fudiad torfol a lwyddodd drwy'r Seiadau a'r Ysgolion Sul i sefydlu **llythrenogrwydd ymhlith oedolion a phlant**, ac a unodd Gymru o'r newydd wedi'r chwalfa wleidyddol a llenyddol a ddigwyddasai. Cafwyd pregethwyr teithiol, cylchgronau, llyfrau print a dadleuon diwinyddol a bywiogrwydd deallol. Dyma a grewyd gan fawredd llenyddol William Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths ac eraill, mewn telynegion cyfriniol ac arwrgerddi ysbrydol myfyriol. Yn ail, cafwyd Chwyldro Diwydiannol a fu'n ddylanwad bydeang yn y wlad ddiwydiannol gyntaf yn y byd newydd oherwydd glo, copor, a phlwm. Symbol priodol oedd adeilad y Gyfnewidfa Lo (a'i chyfrifoldeb o benderfynu prisiau) a ddisgrifiwyd gan un hanesydd fel 'adeilad pwysicaf y byd ar y pryd'. Bu cyfoeth y Cymoedd, er gwaethaf creulondeb a garwder yr effaith ar iechyd meibion a merched, a'r gamdriniaeth i blant, yn fodd i arafu'r allfudiad a ddigwyddodd gymaint mwy na'r hyn a gafwyd oherwydd tlodi cefn gwlad yn Iwerddon. Gogwyddodd hyn (er gwaetha'r trueni a'r gwarth ymhlith gwaelodion y dosbarth gweithiol) at ddiwylliant gwerin bywiog, gan roi hwb i'r **Eisteddfod**, a pherfformio Cantata, cyngerdd, a drama ar raddfa dorfol. Cafwyd agylchfyd cymdeithsasol modern a gwreiddiol.

**Allan o'r werin ddiwydiannol hon cafwyd nofelydd Cymraeg pwysicaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg**, sef Daniel Owen a'i bedair nofel, y Dreflan, Rhys Lewis, Enoc Huws, a Gwen Tomos, ac ef efallai yw ein nofelydd Cymraeg mwyaf o hyd. Nofelydd oedd a greodd gymuned o gymeriadau, a darlun dychanus o ffordd o fyw, a mynegiant cymhleth o wrthdrawiad rhagrith a chredu treiddgar os bregus, nes bod ei gymhlethdod yn cwmpasu mwy na rhagrith fydol, ond rhagrith adfeiliol Gristnogol, ac felly a godai'n uwch nag allanolion moesoldeb yr efengyl gymdeithasol yn unig. Canfu fyd cyfoethog ei brofiad.

Yna, **tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg**, fe ddigwyddodd ffrwydrad o frwdfrydedd go anghyffredin ymhlith y Cymry – oherwydd twf addysg boblogaidd. Gallwn ddeall y twf mewn diwydiant a llythrenologrwydd. Ond mwy anodd yw esbonio maint y *gwladgarwch* newydd – yr **Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol, yr Anthem Genedlaethol, Rygbi, yr Eisteddfod Genedlaethol, yr adrannau Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru, a'r brifddinas botensial a phetrus yng Nghaerdydd**. A chyda hynny, Iaith Lenyddol Safonol a Llenyddiaeth Newydd egnïol iawn. Yr oedd y deffroad cenedlaethol i raddau'n fydeang – yn rhan

o'r Chwyldro Ffrengig a'r Chwyldro Americanaidd ac o dwf Imperialaidd y gwledydd mawr. Y gymysgedd od hon o hyder ac israddoldeb a wnaeth Gymru gymhleth heddiw.

Cafwyd Adfywiad arbennig iawn yn llynyddiaeth Gymreig yr ugeinfed ganrif. Yr oedd hynny o addysg a gafwyd ynghylch Hanes Cymru ei hun a chyfoeth mawr ei thraddodiad yng nghyfnod euraidd 1036-1536, bellach megis dim ar ôl 1536 ymhlith trwch y boblogaeth, am ganrifoedd. Fe'i diogelwyd gan ysgolheigion ynysig gwasgaredig, bid siŵr. Ond ni chaed eto Brifysgol Genedlaethol tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yr oedd diffyg addysg ddiwylliannol gatholig a diffyg canolfannau trafodaeth a diffyg ystyrol i ganolfan wleidyddol yn golygu ceidwadaeth esthetig. Yr oedd mawreddogrwydd ymerodrol Llundain wedi cyfyngu ar orwelion y meddwl Cymraeg. Caed hwyl leol a theuluol mewn cymunedau cynnes ond gwasgaredig ar ffurf hen benillion a chanu rhydd cynnar o ran helaethrwydd, a chynganeddu dirywiedig, ac wrth gwrs lewyrch deallol a phrofiadol gyda Phantycelyn a'i ddilynwyr ym mlodeuad byd yr emyn. Ond newidiodd y sefyllfa ar ôl i **Syr John Morris-Jones** gymryd yr arweiniad a chodi nythaid o feirdd seciwlar, ac un rhyddieithydd. Cafwyd ysbrydoliaeth **Owen Edwards**.

Rhwng 1900-1936 cafwyd iaith lenyddol geidwadol safonol a dyhead ceidwadol Ramantaidd gan Syr John. Yn ei sgil, dilynodd **T. Gwynn Jones**, a oedd yn fardd ffrwythlon ac yn gyfieithydd amlieithog (a gyfieithodd *Ffawst*, Rhan I Goethe, gydag arddeliad arbennig) a ddilynwyd gan gyfieithu amlieithog swmpus. Beirdd cynnil eu cynnyrch oedd y lleill, **W.J. Gruffydd, R.W. Parry, a T.H. Parry-Williams**. Yr oedd eu profiad a'u barn grefyddol ill pedwar yn adlewyrchiad teg o sgeptigrwydd rhyddfrydwyr dechrau'r ugeinfed ganrif. Ond llwyddent i gynhesu'r chwaeth gyffredin gyda'u gwladgarwch a'u rhamantiaeth gymedrol. Ymdebygent i rai o brif feirdd Sioraidd eu cyfnod yn Saesneg.

Tua chanol y ganrif bu dwy wraig ddawnus, sef **Kate Roberts** (yn arbennig gyda storïau *Ffair Gaeaf, Te yn y Grug* a'i nofeligau *Tywyll Heno* a *Stryd y Glep*) ac Elena Puw Morgan a'i nofelau *Y Wisg Sidan* ac *Y Graith*, yn llunio'n gyfredol waith a haeddai sefyll ysgwydd yn ysgwydd â'r beirdd.

Yn y cyfnod rhwng 1936 a 1970 cafwyd newid go newydd eto, gyda chenedlaetholdeb llymach ac adfywiad mwy ymosodol mewn Cristnogaeth uniongred gan nythaid o feirdd. **Saunders Lewis yn ddiâu oedd llenor mwyaf yr ugeinfed ganrif. Bardd a dramodydd** oedd ef yn bennaf. Ond ef oedd **beirniad llenyddol pwysicaf yr iaith**, yn ogystal â bod yn nofelydd a newyddiadurwr hefyd. Gwnaeth ei argraff ar lenyddiaeth Gymraeg benbwygilydd. Ond ochr yn ochr ag ef, rhaid cyfrif gwaith **Gwenallt, Waldo Williams, ac Euros Bowen** yn rhan o'r un symudiad. Arwyddocaol yw hi bod tri o'r beirdd hyn wedi bod yn y carchar am resymau politicaidd a moesol. Gellid teimlo yng ngwaith y pedwar fod y meddwl a'r teimlad yn cael eu herio mewn modd na ddigwyddodd er

Pantycelyn.

Yn niwedd y ganrif, cafwyd **Adfywiad Cynganeddol** hollol annisgwyl a oedd yn rhan o'r un symudiad protestiol ag a brofwyd gan y beirdd o'u blaen. Fe'i harweiniwyd gan Gerallt Lloyd Owain, Alan Llwyd, a Donald Evans. Ffrwydrodd yr 'ysgol' farddol hon yn llu o englynwyr ac o gywyddwyr, ac yn wir o awdlwyr pefriol. Yn ystod y blynyddoedd mwyaf diweddar, cafwyd rhai nofelwyr benywaidd nodedig, ac ambell belican gwrywaidd; ond erys yn gynnar eto i weld sut y mae'r patrwm yn setlo yn y cyfnod diweddaraf. Oherwydd y twf mewn Ôl-foderniaeth, collwyd diddordeb mewn myfyrdod am werth a diben, safon ac ansawdd cymharol. Ac y mae seiliau beirniadaeth o ran Cymhelliad a Methiant i werthfawrogi wedi drysu cyfeiriad llawer o lenyddiaethau yn y gorllewin.

[Mae mawr angen cyfres gynnil (rhyw hanner dwsin, dyweder), heb fod yn rhy ddwys, o gyfrolau gan ysgolheigion i amlinellu hanes ein llenyddiaeth, gyda phwyslais ar ansawdd. Heblaw disgrifio'r datblygiad o'r 6ed ganrif hyd heddiw, dylid cynnwys o fewn rhediad y disgrifiad ddyfyniadau go helaeth i enghreifftio'r llenyddiaeth a gyflwynir. Ceisiwyd yn y bennod hon nodi uchod – gwneud restr, yn wir – o hanes tra chymhleth. Ac wrth gwrs, ni ddisgwylir cyflwyno peth fel hyn i ddysgwyr. Ond gall fod yn sail i sgysiau byw iawn, heb fynd yn hir, ar un agwedd neu'r llall, heb fod yn hwy na phum munud ar y tro dyweder. Gellir felly grybwyll rhai pwyntiau gwasgarog – hynafiaeth barddoniaeth Gymraeg a'i lleoliad cynnar, Chwedlau'r Mabinogion, Dafydd ap Gwilym, Cynghanedd, a phwysigrwydd y Beibl (a'r emynwyr) yn Hanes yr Iaith. Gallai hyn fod yn fuddiol wrth ateb cwestiynau a gyfyd ym meddyliau'r dysgwyr. Rhoddir yn nesaf enghraifft o wybodaeth a all ddatblygu *un* o'r pynciau arbennig hyn.]

## 26. CYNGHANEDD – CORON SEINIAU'R IAITH

Gwrandewch ar sŵn y ddihareb Gymraeg hon: 'Teg edrych tuag adref.' (It is lovely to look towards home.) Beth 'glywch chi yn rhyfedd ynglŷn â'r sŵn yn y llinell honno? Mae dechrau'r llinell yn debyg iawn i ddiwedd y llinell. Mae yna fath o eco. Dyma un enghraifft o'r hyn a elwir yn 'gynganedd'.

Dyma linell arall: arwyddair yw i Gymdeithas y Beiblau: 'Beibl i bawb o bobl y byd.'

Cynganedd yw'r greadigaeth gain mewn sain a luniwyd gan feirdd Cymraeg ar draws y canrifoedd. Mae'n ffordd gymhleth iawn o lunio barddoniaeth. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn mae yna gystadleuaeth barddoni, lle y mae un bardd yn ennill cadair. Maen nhw'n cyfrif hyn fel prif wobwr yr eisteddfod. Er mwyn ennill y gadair y mae'r beirdd yn sgrifennu cerdd hir o ryw ddau gant o linellau mewn Cynganedd.

Mae'n werth cofio bod un o'r *dysgwyr* un flwyddyn, sef Robot Powel, wedi ennill y gystadleuaeth hon.

Mae sgrifennu cynganedd, wrth gwrs, yn waith hynod o anodd. Pe bawn i'n enwi rhai o'r rheolau, byddech chi'n dychrynu. Dw i ddim yn mynd i wneud hynny.

Enwaf y tri phrif fath o Gynganedd er mwyn sôn ychydig mwy amdani, gan ei bod yn unigryw i Gymru. Dyma sylfaen y mathau o Gynganedd sydd i'w cael:

### Y GYNGHANEDD LUSG

Yn hon y mae sain o gorff y llinell yn odli â sain y sillaf-olaf-ond-un yn y gair olaf: e.e.

Chwythu'i *dân* dan chwibanu

Y dyn *gerllaw* yn *llawen*

Dyma'r gynganedd symlaf.

### Y GYNGHANEDD GYTSAIN

### Y GYNGHANEDD GROES

Yn hon cyfetyb y cytseiniaid yn rhan gyntaf y llinell i'r cytseiniaid yn yr ail ran: e.e.

Rhed ei fawd | ar hyd ei fin  
rh d f r h d f

Gwaed y groes | a gwyd y graith  
g d r g d r

## Y GYNGHANEDD DRAWS

Tyr cytsain neu gytseiniaid ar draws y cyfateb ar ddechrau'r ail ran: e.e.

Ar y llyn | mewn dŵr llonydd  
r ll n (m n d) r ll n

Bore gwyn | fel barrug oedd  
b r g (f l) b r g

## Y GYNGHANEDD SAIN

Rhennir y llinell yn dair rhan. Odlu diwedd y rhan gyntaf â diwedd yr ail ran, a cheir cyfatebiad cytseiniaid yn yr ail a'r drydedd ran: e.e.

Segurdod | yw clod | y cledd  
cl cl  
Dyma fan | fechan | ei fedd  
f f

Mewn barddoniaeth Gymraeg o'r fath, ceir y drefn seiniol fwyaf cymhleth yn y byd.

Mae'r cerddi hir i'r gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel arfer yn brydferth iawn. Ond mae'r beirdd cynganeddol hefyd yn gallu sgrifennu penillion bach doniol o ran hwyl, mewn math o chwarae.

Ffermwr oedd Dic Jones yng Ngheredigion. Er ei fod wedi sgrifennu llawer o gerddi difrif gwych, yr oedd yn bennaf enwog ymhlith y Werin am ei ganeuon digrif, fel yr englyn hwn:

### 'YN EISIAU, GWRAIG'

Rwy' am gymar fyddar, fud, – wen, fwyn, ddoeth,

Fain, ddethe, hardd, ddiwyd.

Os ca' i un yn bres i gyd

Mi af â'i mam hi hefyd.

### *Geirfa*

*cymar – spouse, byddar – deaf, mud – dumb, wen, fwyn, ddoeth – fair, gentle, wise;*

*fain, ddethe, hardd, ddiwyd – slender, tidy, beautiful, hardworking*

*pres – money*

A dyma i chi ateb ganddo ar ffurf englyn i honiad y *Western Mail* ei fod wedi ymadael â'r Orsedd:

Mae cyhoeddi'r gwir heb gêl yn bopeth

i bapur aruchel,

eithr y mae'n job â'r cythrel,

yn straen mawr i'r *Western Mail*.

*Geirfa*

*cyhoeddi – publish, heb gél – without covering anything, aruchel – of high standing, job â'r cythrel – a devil of a job.*

Dyma englyn ar gofgolofn i fechgyn a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

O gofadail gofidiau tad a mam!

Tydi mwy drwy'r oesau

Ddysgi ffordd i ddwys goffâu

Y rhwyg o golli'r hogiau.

R.W. Parry

*Geirfa*

*cofadail – memorial; gofidiau – sorrow; coffâu – bring remembrance; rhwyg – tearing, rip; hogiau – lads.*

Dyma sylw am y Gynghanedd a wnaethpwyd yn y Gwyddoniadur pwysicaf yn y byd ar Farddoneg, sef *Princeton Encyclopedia of Poetry & Poetics*: **'the most sophisticated system of sound-patterning practised in any poetry in the world.'**

## 27. CWPLA CWRS AC ARHOLI

( *Casgliadau* )

Peth arferol ar ddiwedd Cwrs yw cynnal Arholiad. Math o symbol yw bod y cwrs yn edrych yn ôl ar y cyfan ac yn gofyn, "Beth dw i wedi'i wneud?" Yn wir, fe'i cynhelir weithiau yn ystod y cwrs, ar bwynt strategol, i adolygu'r hyn a wneir ar hyd y datblygiad. Gall fod yn gymhwyster ar gyfer swydd. Ond gydag oedolion, offeryn yw fel arfer i adolygu, neu gaffaeliad i anelu amdano. Nid yw'n angenrheidiol, wrth gwrs, yn enwedig gydag oedolion swil a nerfus. Ni ddylid ei ddefnyddio onis dymunir. Rhan o 'Ddull Dysgu' yw.

Achlysur yw o fewn cwrs hefyd i diwtor fwrw arolwg go gyflawn ar draws yr hyn a wnaethpwyd ganddo ef. Ac felly, y mae'n fath o ymholi cyflawn iddo ef/hi. Fel y mae'n eglur bellach, mi obeithiaf, nid ysgrifennu cwrs a fwriadwyd yn y llyfryn hwn. Ceir cyrsiau eisoes yn barod ar y maes sy'n wasanaethgar iawn; fe'u lluniwyd hwyar sail profiad, gydag ymroddiad, gwybodaeth, a medrusrwydd. Eir o wers i wers ynddynt, un ar ôl y llall yn gronolegol (o safbwynt datblygiad y cwrs). Yn y llyfryn hwn, trafod egwyddorion neu broblemau y buwyd, rhai a allai ymddangos mewn gwahanol leoliadau yn amrywiol ar hyd rhediad y gwersi. Cyfle yw arholiad yn awr i archwilio nid yn unig y myfyrwyr ond y cwrs hwnnw ei hun hefyd. Arholi'r Cwrs hefyd a wna.

Fel y gŵyr pob lluniwr cwrs, fe erys bob amser yr her i wella pob cwrs ac i ddatblygu adnoddau gweithgareddol; ac yn anad dim erys yr alwad i fyfyrion uwchben gweddau gwahanol ar y gwaith. Yn hyn o beth, i'r tiwtor, arholiad yw arolygu problemau ar gyfer y cwrs ei hun: a oedd gwendid yn y cwrs lle yr oedd angen gwell neu lwyrach ymdriniaeth. Ceisiwyd yn y llawlyfr hwn ddiffinio ble mae'r problemau yn ymddangos yn amlycaf ar hyn o bryd yn 2014.

Gallwn ddysgu gan wledydd eraill yn eu harholiadau neu'u profion hwy rywffaint am y ffyrdd y maent hwy'n ystyried eu problemau ac yn darparu syniad o ddefnyddiau. Dw i'n credu bod pob gwlad ac iaith yn unigryw yn ei ffordd ei hun er bod tebygrwydd. Mae hyn yn fy marn i yn arbennig o wir yng Nghymru, nid yn unig oherwydd ffurfiau gramadegol a chystrawennol yr iaith ei hun, ond oherwydd unigrywiaeth (i raddau) seicoleg weinyddol y Sefydliad sydd ynghlwm wrth egwyddor cystadleuaeth a chanlyniadau ffurfiol a hir draddodiad israddol.

Mae **Dulliau Arholi** yn amrywio yn ôl yr angen. Dewiswyd yn athrawiaeth i'r gyfrol hon gymeradwyo Holi ac Ateb fel fframwaith sylfaenol; a dylai arholiad adlewyrchu hynny. *Gyda Holi ac Ateb llafar, mae yna fath o arholi effeithiol unigolyddol sy'n rhy ddrud i'w gyflawni ar gyfer Addysg Statudol, ond a all fod yn fwy addas ar gyfer oedolion.* Sef Un ac Un: dull goddrychol a chyffredinol **sgyrsio**, ond gydag arholwr profiadol, dyma'r dull delfrydol o ddilyn patrwm cymharol

gyffelyb (ond rhydd i raddau) rhwng yr arholledigion mewn oed.

Ond mae yna ffurfioldeb defnyddiol iwtiliteraidd hefyd.

**Cwestiynau ar bapur gyda 'sgwarau' tyllog (fel tudalen sgerbydog) gan yr arholwr ar gyfer lleoliad yr atebion unffurf cywir:** dyma'r dull *goddefol* o aml-ddewis sy'n gorfodi ateb unffurf caeedig. Bùm yn arholi cannoeddd o fyfyrwyr sawl gwaith fel hyn yng Nghnada, yn niwedd pob tymor o ddysgu. O safbwynt yr awdurdodau y mae hyn yn ddull rhad i'w gynnal, cyflym i'w weithredu, ac yn gyson (at ei gilydd) o safbwynt marcio. Ond goddefol. A phriodol cofio, mewn dewis unffurf rhwng dau dic goddefol, y mae hanner cant y cant o'r atebion (yn fras) yn sicr o fod yn ddyfaliad cywir drwy'r dull arholi hwn gyda'r arholiedig sy'n gwbl anwybod.

**Holi ac Ateb Ysgrifenedig Caeth** mewn rhediad brawddegol: mae cwestiynau penodol yn gorfodi maes geirfa, ac yn cyfarwyddo hefyd y dull cystrawennol o holi ac ateb, i raddau helaeth. Daw dull y *lecture expliquée* o dan y pennawd hwn.

**Mynegiant Ysgrifenedig Rhydd:** hynny yw, heb ysgogiad cwestiynu. Oni fydd elfen o'r dibaratoad ynghlwm wrth hyn, fe all fod yn arholiad i'r Cof yn unig.

**Ymarferion a Nodir Ymlaen Llaw** (er enghraifft drwy eu rhybuddio'n benodol) megis patrwm yr ymarferion a grybwyllwyd yn y gyfrol hon, neu'r dulliau holi a ddefnyddiwyd yn arbennig ym mhenodau 15. *Gwersi Negyddu*, 20. *Gwersi Lecture Expliquée*, 21. *Graddio Geirfa*, 22. *Gweithgareddau*, 23. *Dulliau*.

\*

\*

\*

**Yr Egwyddorion a'r Ymarfer** oedd dwy ochr neu'r ddwy brif broblem a oedd yn gorwedd yng nghefn fy meddwl wrth lunio'r nodiadau i'r llyfr hwn. Ni wneuthum ond taro cis ar y Gweinyddu Cyffredinol neu'r trefniant o'r System i'r symudiad o ddsbarthiadau, gan fy mod eisoes wedi'i drafod mewn manau eraill yn y Wefan hon, a chan fy mod yn y *tranche* hon o'r Llythyr at y Comisiynydd hefyd, ochr yn ochr â'r ymdriniaeth hon o broblemau dosbarth, wedi cynnwys hefyd drafodaeth lawnach o'r 'Ganolfan Ymchwil Genedlaethol', sefydliad a fyddai yn ôl pob tebyg yn gorfod cwmpasu'r holl broblemau a nodir yn y llyfryn hwn, a rhagor.

O safbwynt y Wedd Ymarferol o lunio cwrs, ceisiais drafod pedair prif elfen yn benodol o arwyddocâd Cymreig wrth drafod y problemau a arolygwyd yn y llyfryn hwn, a hyderaf yn fawr fod y darlennydd yn synied am arwyddocâd taer y pedair elfen cyffredinol hyn:—

#### 1. *Trafod egwyddorion a phroblemau Model o'r Iaith Lafar Ysgrifenedig Safonol*

Gwaetha'r modd, erys hyn yn ysglyfaeth o hyd i esgeuluswyr oherwydd tafodiaith a cheidwadaeth, a'r amharodrwydd annisgwyl i gydweithredu. Credaf y gall hyn gael ei ddatrys gan gynigion atebol



y Ganolfan Ymchwil, fel y gellid trosglwyddo'r dewisiadau mewn Model gerbron y Fforwm a datrys y broblem honno. Tyfodd hyn yn destun llosg iawn yn y chwedegau; a deil yn drafferth i Gwrs-lunwyr, sy'n tueddu bob amser i ddilyn y cyrsiau sydd ar gael fel y maent yn gymharol annibynnol ar ei gilydd, heb setlo'r egwyddorion mân chrynhoi beth yn union a pham yr oedd yna broblemau o anghytundeb o gwbl. Ar ddiwedd eithaf cwrs i Ddysgwr, dylai allu nodi'r prif nodweddion sy'n gwahaniaethu rhwng y ddau gywair.

## 2. *Patrymu Brawddegau Graddedig*

Nid oes *un* ateb i'r broblem hon; ac y mae'n mynd i ddibynnu ar natur, cefndir addysgol, a swyddogaeth y Dysgwyr o ran bwriad. Fel y gwelsom eto, wrth ystyried Graddio Geirfa Sefyllfaol, fe ellir cael cyrsiau sy'n anelu at sgysio bob dydd, yn deuluol, a chymharol anacademaidd. Fe ellir hyfforddi'n arbennig ar gyfer gwylied teledu, dramâu, neu Gymraeg cyhoeddus capel. Fe ellir cael awydd mwy academaidd ymhlith rhai dysgwyr. Ac fe ellir cael rhai cyrsiau penodol a chyfyngedig swyddogaethol ac iwtiliteraidd, megis 'gofal henoed', 'cyfieithu', 'plismona', 'stiwardio Eisteddfodol', ac yn y blaen. Effeithia hyn, y mae'n amlwg, ar y detholiad o Eirfa. Ond fe all mewn amgylchiadau effeithio ar bethau megis dysgu deall, y cymharol oddefol, adeiladu brawddegau aml-gymalog am bwnc neu wrth frawddegu'n gymharol gwa. Mantais bellach fuasai mwy o unffurfiaeth a chytundeb yn y drefn batrymol, wrth symud o lefel i lefel, ac o ddsbarth i ddsbarth.

## 3. *Graddio Geirfa Sefyllfaol*

Trafodwyd hyn eisoes mewn adran flaenorol. A chafwyd eisoes yn y llyfryn *Graddio Geirfa* 'benod' ar y pwnc, lle yr wyf yn dadlau o blaid nifer benodol o sefyllfaoedd (a nodwyd yn benodol ym Mhennod 1 o'r llyfryn hwn), y mae'n rhaid eu gwasanaethu, mewn dysgu llafar, a chyda defnydd digon cynnil yn unig o raddio sy'n dibynnu ar 'gyfrif' a llunio cymhariaeth fwyafsymiol y gwahanol ddefnydd o'r iaith.

## 4. *Dysgu 'Diwylliant' Cymru i Ddysgwyr*

Cyfunaf hyn â'r awydd i wneud cyrsiau'n ddiddanwch ac i ledi cefndir y dysgwyr i ganfod yr iaith o fewn cyd-destun diwylliannol mor llydan ag y dymunant hwy. Trafodwyd hyn ynghynt o dan bennawd Gweithgareddau. Ond erys byth yr angen am ddychymyg ac arbrofi'n gymdeithasol, ac amlhau estyniad adnoddau yn y cyfeiriad hwn.

Wedi bwrw golwg dros y materion hyn, o ran rhagymadroddi, da yw mynd ati i ystyried adeiladwaith y cwrs cyfan, olyniaeth y gwersi, yr amrywiaeth a fydd yn ymgyfuno yn y diwedd – ac ni raid swilio am y term – a ddylai fod yn '*gelfyddydwaith*.'

Fe'i henwais hefyd, o ran natur a nod, yn 'Gwrs Agored'. Os yw'n mynd i fod yn wir agored, penagored llawn fydd yn yr ystyr y bydd yn arwain dysgwyr tuag allan, tua phobl eraill. Bydd

wedi'i anelu at beidio ag aros o fewn y dosbarth, ond yn hytrach at ymagor tua'r gymdeithas. A bydd cynhaliwr y cwrs yn gofalu bod yna ymwybod o 'Bont' fwriadus lle y mae'r ddwy ochr i'r genedl yn gosod patrwm o gyd-sgwrsio â'r wlad i gyd.